Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number: 13/2015

# Gwerthusiad o Rôl Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol

# Adroddiad Terfynol

# Gwerthusiad o Rôl Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol

## ADRODDIAD TERFYNOL


## Gareth Williams, Old Bell 3 Cyf



Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru



I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:
Jackie McDonald,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1193
E-bost: Jackie.McDonald@wales.gsi.gov.uk
www.gov.wales/research



Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 10 March 2015
ISBN 978-1-4734-3172-0


© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Tabl cynnwys

**No index entries found.**

# CRYNODEB GWEITHREDOL

*Cefndir*

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf ym Mehefin 2014 i gynnal gwerthusiad o rôl Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol Cymru ar hyn o bryd i gyflogi Swyddogion Cymorth i gefnogi gwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol, dull cydlynu allweddol sy'n dod â darparwyr gwasanaethau lleol megis Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Trydydd Sector ynghyd.

Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, caiff y cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth ei ddarparu drwy brosiect Byrddau Gwasanaethau Lleol - Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau, a ran-ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), sydd hefyd yn ariannu cyfres o brosiectau ailddylunio gwasanaethau. Mae prosiect Byrddau Gwasanaethau Lleol-ESF yn ariannu cyfanswm o tua 18 swydd ar draws y 15 ardal awdurdod lleol o fewn Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, ar gost o tua £2.2 miliwn am y cyfnod hyd fis Mawrth 2015. Mae'r swyddi'n gwahaniaethu rhwng gwahanol ardaloedd, gan ddangos amrywiaeth y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r trefniadau cefnogaeth a fodolai'n barod, ond mae elfennau allweddol y rôl yn cynnwys:

- Cefnogi datblygiad a gwybodaeth am brosiectau trawsnewidiol y Byrddau Gwasanaethau Lleol;
- Cefnogi datblygiadau Byrddau Gwasanaethau Lleol i gynaliadwyedd hirdymor;
- Darparu adroddiadau monitro i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol ar gynigion prosiect;
- Mynychu a chymryd rhan yn y rhwydwaith datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol (a hwylusir gan Lywodraeth Cymru);
- Targedu swyddogion perthnasol ar draws sefydliadau partner Byrddau Gwasanaethau Lleol i gymryd rhan mewn rhwydweithiau thema generig.

Y tu allan i Orllewin Cymru a'r Cymoedd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid o hyd at £50,000 y flwyddyn drwy Grant Datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol i bob un o'r saith awdurdod lleol (yn Nwyrain Cymru) i gyflawni rôl debyg.

Bwriad y gwerthusiad oedd asesu effaith cyflwyno rôl Swyddogion Cymorth y Byrddau Gwasanaethau Lleol ar ganlyniadau'r prosiect a datblygiad Byrddau Gwasanaethau Lleol, i roi tystiolaeth o ble a sut y defnyddiwyd y rôl yn fwyaf effeithlon ac i ddynodi gwersi ar gyfer y dyfodol.

*Y Rhaglen Waith*

Seiliwyd yr adroddiad hwn ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Hydref 2014. Prif elfennau'r gwaith hwnnw oedd:

- Derbyn ac adolygu'r disgrifiadau swydd, adroddiadau blynyddol ac (ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) adroddiadau chwarterol yn gysylltiedig â gwaith y Swyddogion Cymorth;
- Adolygu dogfennau polisi perthnasol;
- Cynnal tri grŵp ffocws gyda Swyddogion Cymorth a'u rheolwyr llinell (yn cynnwys 25 o gyfranogwyr) ar gyrion cyfarfod Rhwydwaith Dysgu Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol;
- Cynnal cyfweliadau wyneb-i-wyneb gyda chwech o staff o Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Cynnal gwaith maes mewn chwe ardal astudiaeth achos mewn dau gam yn cynnwys cyfanswm o tua 57 cyfweliad yn ogystal ag adolygiad desg o ddeunydd perthnasol;
- Paratoi adroddiad interim yn Awst 2014, yn dilyn cam cyntaf y gwaith maes astudiaeth achos a'i drafod gyda'r Grŵp Llywio ar gyfer y gwerthusiad;
- Hwyluso trafodaeth mewn cyfarfod gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru o Fyrddau Gwasanaethau Lleol ar 16 Medi;
- Llunio'r adroddiad hwn.

*Canfyddiadau*

O safbwynt Llywodraeth Cymru, mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn parhau i fod yn ddarn hanfodol o strwythur darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ac adlewyrchir hynny yn y penderfyniad i'w rhoi ar sail statudol drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), er gyda theitl newydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Er yn ddatblygiad mwy diweddar, mae Cynllun Integredig Sengl hefyd wedi sefydlu'n gyflym fel y brif ffordd y disgwylir i Fyrddau Gwasanaethau Lleol gynllunio a rhaglennu gwella gwasanaethau cyhoeddus, ac unwaith eto eir â'r maen i'r wal drwy'r Bil. Fodd bynnag mae'r gwaith maes a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn awgrymu fod peth dryswch yn parhau am gwmpas y Cynlluniau: a ddylent ganolbwyntio'n unig ar feysydd lle mae angen gweithio mewn partneriaeth i wireddu nodau cyffredin y Byrddau Gwasanaethau Lleol neu a fwriedir iddynt fod yn ddatganiadau cynhwysfawr o ymyriadau partneriaid i wella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Wrth ystyried y casgliadau o'r gwerthusiad hwn am gyfraniad cyllid penodol i Swyddogion Cymorth ar gyfer symud ymlaen â'r agenda hwn o weithio partneriaeth lleol (neu seiliedig ar ardal), mae'n bwysig bod yn glir fod y sefyllfa mewn gwahanol ardaloedd astudiaethau achos yn amrywio'n helaeth ac y bydd angen felly bod yn ofalus wrth gyffredinoli.

Serch hynny, mae'r astudiaethau achos yn eu cyfanrwydd ynghyd â'r dystiolaeth gan randdeiliaid a'r grwpiau ffocws gyda staff o'r rhan fwyaf o 22 awdurdodau lleol Cymru yn rhoi tystiolaeth bod y Swyddogion Cymorth wedi ychwanegu gwerth mewn llawer o achosion drwy:

- effeithlonrwydd gweithredol y Byrddau Gwasanaethau Lleol a gwell perthynas waith rhwng partneriaid, gan arwain at fwy o ymdeimlad o ddiben cyffredin ac arweinyddiaeth gyfunol ymysg y partneriaid;
- mwy o integreiddio rhwng y Byrddau Gwasanaethau Lleol a gwaith partneriaethau gwahanol, mwy thematig;
- datblygu Cynlluniau Integredig Sengl a gaiff eu gweld fel agendâu cymharol gadarn;

- y gallu i fonitro a rheoli perfformiad gweithredu'r Cynlluniau Integredig Sengl;
- sicrhau fod blaenoriaethau'r Cynlluniau Integredig Sengl yn dechrau dylanwadu ar gynllunio corfforaethol partneriaid allweddol, yn arbennig awdurdodau lleol.

Mae llai o dystiolaeth fod gwaith Swyddogion Cymorth, drwy wella gweithrediad y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r Cynlluniau Gweithredu Sengl, hyd yma wedi sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion, er ei bod yn debygol fod hyn i raddau o leiaf yn fater o amseriad, gan mai dim ond yn 2012/13 y cafodd llawer o Gynlluniau Gweithredu Sengl eu datblygu. Yng nghyswllt y Byrddau Gwasanaethau Lleol eu hunain, er yn gyffredinol gadarnhaol am eu perfformiad a'u potensial, ni ymddengys fod partneriaid, yn cynnwys awdurdodau lleol, hyd yma wedi ymrwymo'u hunain yn llawn i'w gwneud yn rhan barhaol o'r tirlun, yn niffyg anogaeth a chyllid gan Lywodraeth Cymru.

Ymddengys hefyd fod Swyddogion Cymorth yn gyffredinol wedi gwneud llai o gyfraniad at ddatblygiad a gweithrediad prosiectau cyflawni ESF nag y gallai rhanddeiliaid fod wedi ei ddisgwyl: roedd hyn yn rhannol oherwydd fod yr amserlenni yn golygu y cafodd prosiectau yn aml (er nid bob amser) eu datblygu cyn penodi Swyddogion Cymorth, ac yn rhannol yn adlewyrchu'r ffaith y cafodd adnoddau rheoli prosiect yn gyffredinol eu cynnwys fel rhan o gostau rhedeg prosiect. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion bu gan Swyddogion Cymorth ran bwysig wrth sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheolau'r ESF ac, i ryw raddau o leiaf, wedi lliniaru'r baich gweinyddol a welir fel canlyneb cyllid Ewropeaidd.

Byddai hefyd yn ymddangos y bu rhannu dysgu, o leiaf hyd yma, yn rhan cymharol fach o rôl a llwyddiannau Swyddogion Cymorth (er y gall hyn fod yn nodwedd gryfach yn y misoedd olaf, fel y dysgir gwersi o'r prosiectau cyflawni). Er i Lywodraeth Cymru wneud peth ymdrech i hyrwyddo rhwydweithio rhwng Swyddogion Cymorth (ymddengys i hynny fod yn neilltuol

o effeithlon yng Ngogledd Cymru), ymddengys fod llawer mwy o gwmpas ar gyfer mwy o rannu ar ymarfer a phrofiad yn deillio o'r prosiectau peilot.

Er y bu Swyddogion Cymorth yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Byrddau Gwasanaeathau Lleol (gan ategu cynrychiolaeth uwch weision sifil ar bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol), ymddengys y cafodd hyn weithiau ei ddefnyddio mewn modd amhriodol. Bu cyfraniad y Swyddogion Cymorth i weithio rhanbarthol yn gymharol fach, efallai'n adlewyrchu'r ffaith y datblygwyd yr agenda Byrddau Gwasanaethau Lleol/Cynlluniau Integredig engl yn gyfochrog â'r agenda rhanbarthol.

Os yw'n anodd cyffredinoli am ganlyniadau gwaith y Swyddogion Cymorth, mae ceisio dod i gasgliadau o'r dystiolaeth am ba amgylchiadau gyfrannodd at y llwyddiant mwyaf hyd yn oed yn anos. Mewn gwirionedd, o gofio am y nifer fechan o staff sy'n cefnogi'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, ymddengys y cafodd nodweddion a chryfderau'r unigolion sy'n llenwi'r swyddi ddylanwad mawr ar berfformiad: tra bod y dylanwad pwysig eraill, diwylliant ehangach partneriaethau o fewn yr ardal dan ystyriaeth, yr un mor anodd ei ailadrodd. Gall fod rhai awgrymiadau fod Byrddau Gwasanaethau Lleol tynnach a gyda mwy o ffocws yn gweithio'n well (o leiaf o safbwynt y rhai wrth y bwrdd) a'i bod yn werthfawr cael grwpiau gweithredol islaw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol: tra'i bod yn amlwg yn wir bod y trosiant uchel mewn swyddi Swyddogion Cymorth (na chaiff ei helpu gan gontractau tymor penodol) ac aelodaeth o'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a chyrff cysylltiedig (na chaiff ei helpu gan y ffaith fod llawer o sefydliadau yn gweithio mewn ardal ehangach na Byrddau Gwasanaethau Lleol unigol) yn tarfu. Nid oedd yr holl gyfranwyr i'r gwerthusiad o blaid rhoi Byrddau Gwasanaethau Lleol ar sail statudol, ond ymddengys yn debyg y bydd hyn, i ryw raddau, yn cynyddu'r pwysigrwydd y bydd y partneriaid yn ei roi i flaenoriaethau'r Byrddau.

*Argymhellion*

Yng ngoleuni ein canfyddiadau, gwnawn wyth argymhelliad. Yn gryno, yr argymhellion yw bod Llywodraeth Cymru:

- yn dal ati i ddarparu cyllid wedi ei neilltuo i awdurdodau lleol i gefnogi gwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol wrth iddynt symud i fod yn Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ond na ddylai'r cyllid gael ei glymu i swyddi penodol.
- wrth ddarparu'r adnodd, dylai annog ffocws cryf ar a) y gwaith i gynhyrchu'r asesiad anghenion a'r cyntaf o'r genhedlaeth newydd o gynlluniau llesiant b) rheolaeth ragweithiol ar agendâu Byrddau Gwasanaethau Lleol a c) rheoli perfformiad blaenoriaethau a chamau gweithredu'r Cynlluniau Gweithredu Sengl.
- yn annog rhannu profiad yng nghyswllt defnyddio technegau atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau i olrhain cynnydd yn nhermau gweithredu'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Integredig Sengl ac yng nghyswllt defnyddio grwpiau gweithredol i gefnogi gwaith Byrddau Gwasanaethau Lleol.
- yn rhoi canllawiau mwy eglur, wrth i Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ddod i rym, am i ba raddau y bwriedir i'r cynlluniau llesiant lleol gynnwys holl ymyriadau partneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn yr ardal, neu ddim ond y rhai a ddarperir mewn partneriaeth.
- yn annog ffurfio mwy o gyd-Fyrddau Gwasanaethau Lleol neu (ar ôl i'r Bil ddod i rym) uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel y caniateir gan y Bil, ar sail ffiniau tebygol awdurdodau lleol yn dilyn ad-drefnu, hyd yn oed cyn creu'r awdurdodau newydd hyn.
- angen ystyried yn ofalus sut i hwyluso Byrddau Gwasanaethau Lleol i gyflwyno prosiectau peilot newydd, heb gyllid ESF, o gofio am y diffyg parodrwydd presennol i gronni adnoddau. Yn ein barn ni, fodd bynnag, dylid cynllunio unrhyw drefn ariannu i roi cymhelliant cryf i gyfraniadau ariannol gan y partneriaid eu hunain.
- ceisio ailadrodd y gweithgaredd rhwydweithio effeithlon sy'n digwydd rhwng Swyddogion Cymorth yng Ngogledd Cymru mewn rhannau eraill o'r wlad.
- yn y tymor byr, dylai yn ôl y bwriad, roi blaenoriaeth i ymdrechion i sicrhau a lledaenu'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau cyflawni o fewn Byrddau Gwasanaethau Lleol unigol a hefyd rhyngddynt.

# 1.0 CYFLWYNIAD

## 1.1 Cefndir

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf ym Mehefin 2014 i gynnal gwerthusiad o rôl Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn darparu cyllid i awdurdodau lleol Cymru gyflogi Swyddogion Cymorth i gefnogi gwaith Byrddau Gwasanaethau Lleol, dull cydlynu allweddol yn dod ynghyd â darparwyr gwasanaethau lleol megis awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd lleol, yr Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Trydydd Sector. Bwriedir i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol 'dynnu ynghyd y cyrff allweddol sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaeth lleol ... eu tasg fydd gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth a chymryd camau ar y cyd lle mae angen hynny mewn meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau i blant sy'n agored i newid a gwasanaethau eraill lle mae canlyniadau da yn dibynnu ar gydweithredu'[1].

Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, darperir y cyllid ar gyfer y Swyddogion Cymorth drwy'r Prosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau y Byrddau Gwasanaethau Lleol, sydd â chyfanswm cyllideb o tua £17.3 miliwn, gyda Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn darparu £10.3 miliwn o hynny[2]: defnyddir mwyafrif y cyllid hwn i gefnogi gweithredu cyfres o brosiectau ail-ddylunio gwasanaethau [3]. Drwyddi draw, mae'r prosiect Byrddau Gwasanaethau Lleol - ESF yn ariannu tua 18 o swyddi ar draws y 15 ardal awdurdod lleol o fewn Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, ar gyfanswm cost o tua £2.2 miliwn am y cyfnod hyd fis Mawrth 2015[4]. Mae'r swyddi'n amrywio rhwng ardaloedd, gan ddangos amrywiaeth Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r

---

[1] 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar Draws Ffiniau', Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006 t.3
[2] Gweler gwefan WEFO: http://wefo.wales.gov.uk/programmes/progress/searchprojects/80531?lang=cy. Darperir y cyllid dan Flaenoriaeth 4 Rhaglen Weithredol ESF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Moderneiddio a Gwella Ansawdd ein Gwasanaethau Cyhoeddus (Creu'r Cysylltiadau).
[3] Cynllun Busnes Byrddau Gwasanaethau Lleol ESF f. 4, Llywodraeth Cymru, 2011, t.27
[4] Ibid., Atodiad C8

trefniadau cefnogi a fodolai eisoes, ond mae elfennau allweddol y rôl yn cynnwys:

- Cefnogi datblygu a gweithredu prosiectau trawsnewid y Byrddau Gwasanaethau Lleol;
- Cefnogi datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol i gynaliadwyedd hirdymor;
- Darparu adroddiadau monitro i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol ar gynigion prosiect;
- Mynychu a chymryd rhan yn rhwydwaith datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol (a hwylusir gan Lywodraeth Cymru);
- Targedu swyddogion perthnasol ar draws sefydliadau partner Byrddau Gwasanaethau Lleol i gymryd rhan mewn rhwydweithiau thema generig [5].

Y tu allan i Orllewin Cymru a'r Cymoedd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid o hyd at £50,000 y flwyddyn drwy Grant Datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol i bob un o'r saith awdurdod lleol (yn Nwyrain Cymru) i gyflawni rôl debyg[6].

## 1.2 Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad

Caiff nodau ac amcanion y gwerthusiad eu nodi ym Mlwch 1 ar y dudalen nesaf.

Mae'n bwysig nodi y cynhaliwyd y gwerthusiad hwn yng nghyd-destun gwerthusiad ehangach o Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol - Cronfa Gymdeithasol Ewrop a gynhelir gan Brifysgol Caerdydd mewn cysylltiad â Shared Intelligence ac IFF Research.

[5] Ibid., t.86
[6] Gwahoddiad i Dendro, t.3

*Blwch 1: Nodau ac amcanion y gwerthusiad*

Aim 1 – Asesu'r effaith a gafodd cyflwyno rôl Swyddog Cymorth Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar ganlyniadau prosiect a datblygiad Byrddau Gwasanaethau Lleol yng Nghymru.

Amcanion:

- Ceisio tystiolaeth os yw Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi rhoi gwerth ychwanegol (e.e. wedi galluogi cynyddu gallu ar gyfer gweithio partneriaeth, cyflawni prosiectau ar y cyd, capasiti Byrddau Gwasanaethau Lleol i gyflawni blaenoriaethau yn eu Cynlluniau Integredig Sengl, cost-effeithlonrwydd a themâu trawsbynciol megis cydraddoldeb a chynaliadwyedd amgylcheddol);

- Asesu i ba raddau y bu Byrddau Gwasanaethau Lleol yn fwy galluog i sefydlu arferion gwella hirdymor fel canlyniad i gyflwyno rôl Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol; a**c**

- Asesu i ba raddau y gallodd Byrddau Gwasanaethau Lleol rwydweithio'n well a rhannu dysgu gyda phrosiectau eraill fel canlyniad i gyflwyno rôl Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Nod 2 – Ceisio tystiolaeth am ble a sut mae swyddi Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi dangos y potensial i alluogi prosiectau'r Bwrdd i gyflawni eu canlyniadau ymhellach ac edrych ar y prosesau ariannu a gweithredu i ddynodi gwersi am ddatblygiad yn y dyfodol.

Amcanion:

- Ystyried yr ystod dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol yng nghyswllt rôl Swyddog Cymorth ac ystyried ym mha gyd-destun y cafodd y rôl ei gwneud yn fwyaf llwyddiannus;

- Asesu i ba raddau y mae'r rôl wedi cefnogi galluedd a chapasiti arweinyddiaeth ar y cyd;

- Ymchwilio os oedd unrhyw arloeseddau unigol neu elfennau o'r dull gweithredu sy'n haeddu ystyriaeth neilltuol ar gyfer eu gweithredu yn y dyfodol; ac

- Ystyried y rhagolygon cyfredol ar gyfer y rôl yng ngoleuni tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr amcanion blaenorol dan Nod 2.

### 1.3 Y Rhaglen Waith

Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2014. Mae hyn wedi cynnwys:

- Cyfarfod dechreuol gyda'r Grŵp Llywio ar 1 Gorffennaf 2014 yn arwain at raglen waith a gytunwyd ac a gyflwynwyd mewn Adroddiad Dechreuol;
- Cytuno ar sampl o chwe ardal astudiaeth achos;
- Mynychu Gweithdy Dysgu ar gyfer staff a Phrosiectau Cyflawni Gwasanaethau Lleol Byrddau Gwasanaethau Lleol, a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru a'i hwyluso gan Shared Intelligence ym Merthyr Tudful ar 3 Gorffennaf;
- Trafodaeth ddilynol dros y ffôn gyda Carol Hayden o Shared Intelligence;
- Derbyn ac adolygu'r disgrifiadau swyddi, adroddiadau blynyddol ac (ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) adroddiadau chwarterol yn cyfeirio at waith y Swyddogion Cymorth a ariannwyd gan y prosiect yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a gan Grant Datblygu Llywodraeth Cymru ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Lleol yn Nwyrain Cymru;
- Adolygu'r dogfennau polisi perthnasol yn cynnwys:
    - Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar Draws Ffiniau;
    - Adolygiad Simpson a'r Cynllun ar gyfer Cydweithio gan y Gwasanaethau Cyhoeddus;
    - Mesur Llywodraeth Cymru (Cymru) 2011 a Memorandwm Esboniadol;
    - Hyrwyddo Democratiaeth Leol, Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, Mai 2012;
    - Dysgu Gwella: Asesiad Annibynnol o Bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol, Ail Adroddiad Interim, Prifysgol Caerdydd, 2011;
    - Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, 2014;
    - Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn drwy'r Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella Polisi

    Cyhoeddus ar gyfer Pobl Cymru;
  - Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);
- Datblygu a chytuno gyda'r Grŵp Llywio ar set o offerynnau ymchwil ar gyfer y gwerthusiad;
- Cynnal tri grŵp ffocws gyda Swyddogion Cymorth a'u rheolwyr llinell ar gyrion cyfarfod Rhwydwaith Dysgu Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar 15 Gorffennaf 2014. Cynhaliodd cyfanswm o 25 o unigolion 17 awdurdod lleol a'r Uned Data Llywodraeth Leol ran[7];
- Cynnal nifer fach o gyfweliadau wyneb-i-wyneb gyda rhanddeiliaid 'cenedlaethol' gyda'r unigolion dilynol :
  - Sioned Rees (Llywodraeth Cymru);
  - Dan Jones (Llywodraeth Cymru);
  - Claire Germain a Ceri Thomas (Llywodraeth Cymru);
  - Daniel Hurford a Susan Perkins (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru);
- Cynnal pecyn dechreuol o waith maes (ym mis Gorffennaf/dechrau Awst) yn ymwneud â phob ardal astudiaeth achos yn cynnwys:
  - Adolygiad desg o ddeunyddiau perthnasol;
  - Cyfweliadau wyneb-i-wyneb gyda'r Swyddog(ion) Cymorth a'u rheolwyr llinell: fe wnaethom gyfweld â chyfanswm o 14 o staff o'r chwe awdurdod lleol;
  - Paratoi adroddiad dechreuol ar astudiaethau achos;
- Paratoi adroddiad interim, yn cynnwys drafft fodel rhesymeg a'i drafod gyda'r Grŵp Llywio;
- Hwyluso trafodaeth mewn cyfarfod o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol ar 16 Medi;
- Cynnal ail becyn o waith maes (ym Medi/Hydref) yn ymwneud â phob ardal astudiaeth achos yn cynnwys:
  - Cyfweliadau wyneb-i-wyneb gyda rhanddeiliaid lleol arall gyda dealltwriaeth o broses y Byrddau Gwasanaethau Lleol a gwaith y Swyddogion Cymorth: gallasom gyfweld â

[7] Roedd hyn yn cynnwys staff o bedwar awdurdod lleol a gynhwyswyd fel astudiaethau achos. Nid yw tri awdurdod lleol wedi cyfrannu un ai drwy'r grwpiau ffocws na thrwy'r astudiaethau achos (Abertawe, Sir y Fflint a Phen-y-bont ar Ogwr)

chyfanswm o 43 o unigolion o bob rhan o'r chwe ardal. Roedd hyn yn cynnwys:

- Dau aelod awdurdod lleol (o ddwy ardal astudiaeth achos wahanol);
- 15 swyddog awdurdod lleol (ar draws y chwe ardal);
- Wyth cynrychiolydd o Fyrddau Gwasanaethau Lleol (o bum ardal astudiaeth achos);
- Pum cynrychiolydd Cynghorau Gwirfoddol Sirol (o dair ardal astudiaeth achos);
- Dau gynrychiolydd o Heddluoedd (o ddwy ardal astudiaeth achos wahanol);
- Pedwar cynrychiolydd o Gymdeithasau Tai (o ddwy ardal astudiaeth achos)
- Dau gynrychiolydd o'r Gwasanaethau Tân ac Achub (o ddwy ardal astudiaeth achos wahanol);
- Dau gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Prawf (o ddwy ardal astudiaeth achos wahanol);
- Un cynrychiolydd o Sefydliad Addysg Bellach;
- Un cynrychiolydd o'r Ganolfan Byd Gwaith;
- Un cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru.

o Diweddaru'r adroddiadau astudiaethau achos.

- Llunio'r adroddiad yma.

Yng ngweddill yr adroddiad yma nodwn:

- Cyd-destun polisi'r astudiaeth (Adran 2);
- Y model rhesymeg rhaglen y gwnaethom ei ddatblygu fel sail ar gyfer y gwerthusiad (Adran 3);
- Canfyddiadau o'n hadolygiad o ddogfennau perthnasol, y cyfweliadau gyda rhanddeiliaid a'n chwe astudiaeth achos (Adran 4);
- Ac yn olaf, ein casgliadau ac argymhellion (Adran 5).

# 2.0 CYD-DESTUN

## 2.1 Cyflwyniad

Yn yr Adran yma, amlinellwn y newid yn y cyd-destun polisi y mae cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi gweithredu ynddo. Yn gyntaf ystyriwn (Adran 2.2) ddatblygiad hir-dymor yr agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus a dyfodiad y Byrddau Gwasanaethau Lleol (ac yn fwy diweddar) gysyniad y Cynlluniau Integredig Sengl, cyn troi at y berthynas rhwng agenda'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r ffocws sy'n dod i'r amlwg ar ranbartholi (Adran 2.3) a'r adroddiad ar y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Adran 2.4). Yn olaf (Adran 2.4) trown at y datblygiadau diweddaraf yn nhermau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sydd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd.

## 2.2 Agenda Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus

Dros fwy na degawd ers cyhoeddi adroddiad gwreiddiol 'Creu'r Cysylltiadau' Syr Jeremy Beecham yn 2004, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull gweithredu neilltuol a chydlynol at gyflawni gwasanaethau sector cyhoeddus wedi'i seilio ar syniad 'llais, yn hytrach na dewis', mewn geiriau eraill, ceisio defnyddio profiadau, sylwadau a dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth i helpu llunio gwasanaethau cyhoeddus sy'n fwy pwrpasol ac ymatebol i anghenion defnyddwyr o blaid dull yn canolbwyntio mwy ar y farchnad. Cafodd y dull gweithredu yma ei seilio ar yr angen am gydweithio yn hytrach na chystadlu o fewn y sector cyhoeddus er mwyn gwella'r integreiddiad rhwng gwahanol wasanaethau a darparu gwasanaethau sydd â ffocws ar ddinasyddion.

Roedd creu Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ardaloedd pob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn rhan hollbwysig o'r dull gweithredu yma, proses a gafodd ei rhoi ar waith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd yn 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar Draws Ffiniau' (2006). Bwriedid i Fyrddau Gwasanaethau Lleol:

> ‘tynnu ynghyd y cyrff allweddol sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaethau lleol, yn rhai sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli. Eu tasg fydd gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth a chymryd camau ar y cyd lle mae angen hynny mewn meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau i blant sy'n agored i niwed a gwasanaethau eraill lle mae canlyniadau da yn dibynnu ar gydweithredu[8].

Byddai'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ‘datblygu o Bartneriaethau cyfredol y Strategaeth Gymunedol ac yn adeiladu ar eu profiad gwerthfawr hwy, gan ychwanegu at hynny y nod o gydweithio ar ddarparu gwasanaeth’[9].

Bryd hynny, y bwriad oedd i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol fod yn ddull cynhwysfawr o gydlynu, gan ddod ynghyd â phrif ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus (awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Tân ac Achub a Llywodraeth Cymru ei hunan) ond gan ategu yn hytrach na disodli partneriaethau thematig a fodolai eisoes:

> ‘Nid disodli'r partneriaethau allweddol sy'n bodoli eisoes fel y rhai ar gyfer Diogelwch Cymunedol, Iechyd a Lles a Phlant a Phobl Ifanc yw bwriad Byrddau Gwasanaethau Lleol. Yn hytrach, hwy fydd y canolbwynt y gall y partneriaethau eraill hyn weithredu o'u cwmpas'[10].

Fodd bynnag, yng nghyd-destun pwysau ar gyllid cyhoeddus y cyfeiriad ato fel amlhau trefniadau cydweithio ar wahanol lefelau ac ar draws partneriaid lluosog, yn cynnwys y partneriaethau hynny sy'n gweithio ar lefel gymunedol drwy'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf a datblygiad partneriaethau rhanbarthol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[11], daeth Llywodraeth Cymru yn gynyddol awyddus i sicrhau peth symleiddio ar drefniadau sefydliadol ar y lefel leol.

---

[8] 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar draws ffiniau', Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006 t.3
[9] Ibid., t. 20
[10] Ibid., t. 21
[11] Adolygiad Llenyddiaeth ar gyfer Prosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethu Lleol-ESF, Meza et al, Ysgol Fusnes Caerdydd, 2013, t.4

Felly, addawodd 'Rhaglen Lywodraethu' y weinyddiaeth Lafur newydd yn 2011 i:

> ‘symleiddio ein strwythurau partneriaeth statudol, gan gael gwared ar yr angen am gymaint o wahanol gynlluniau, asesiadau anghenion a phwyllgorau [a] .... cyhoeddi canllawiau statudol a fydd yn nodi'n glir yr hyn y mae'r Gweinidogion yn disgwyl i awdurdodau lleol a phartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus ei wneud i gynyddu cydweithio effeithiol[12].

Dilynwyd yr addewidion hyn gyda chyhoeddiad (i ddechrau yn Ionawr 2012 fel drafft ddogfen ymgynghori ac wedyn fel canllawiau statudol terfynol ym Mehefin 2012) 'Cydamcanu, Cydymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau'.

Er yn mynegi boddhad cyffredinol gyda datblygiad gweithio partneriaeth rhwng y rhai'n ymwneud â datblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus, nododd y canllawiau:

> ‘wrth ddatblygu mae'r partneriaethau lleol hyn wedi arwain at ormod o gymhlethdod a dyblygu, gan gynnwys partneriaethau ail a thrydedd haen, gweithgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen'[13].

Daeth felly i'r casgliad:

> ‘Mae angen symleiddio strwythurau partneriaethau lleol o dan arweiniad clir y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'w gwneud yn addas at y diben, ailbennu atebolrwydd ac ailgyfeirio staff ac adnoddau i ategu gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau integredig'[14].

Yn ganolog i broses symleiddio oedd y gofyniad i bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol i ddatblygu Cynllun Integredig Sengl erbyn Ebrill 2013 a fyddai'n:

> ‘disodli o leiaf bedwar o'r cynlluniau a strategaethau statudol presennol (y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth

[12] Rhaglen Lywodraethu, Llywodraeth Cymru, 2011 tt.8-9
[13] Cydamcanu, Cydymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau, Llywodraeth Cymru, 2012, t.3
[14] Ibid., t. 4

> Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ...) , bydd hyn yn ffordd o leihau cymhlethdod ac achosion o ddyblygu a rhyddhau adnoddau'.[15]

Roedd Cynlluniau Integredig Sengl i gael eu seilio ar 'ddadansoddiad strategol o anghenion i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'n lleol'[16]. Yn hanfodol, ystyrid bod cysylltiad hanfodol rhwng y Cynlluniau hyn a'r dadansoddiadau anghenion oedd yn sail iddynt â'r angen i ailgyfeirio darpariaeth gwasanaeth i ffocws llawer cliriach ar ymyriadau cynnar, nid yn lleiaf fel ffordd o ymateb i bwysau ariannol cynyddol:

> 'Ym marn Llywodraeth Cymru, y sylfaen ar gyfer symud ymlaen yn gynaliadwy yw cynllun integredig unigol ar gyfer yr ardal sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth leol yn glir. Mae'n credu bod rhaid i lywodraeth leol a'i phartneriaid ganolbwyntio eu hymdrechion yn gryf ar ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol, er mwyn torri cylchoedd o ddibyniaeth ac atal canlyniadau gwael rhag parhau o'r naill genhedlaeth i'r llall [17]'.

Disgwylid y byddai ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth a'r boblogaeth yn gyffredinol yn rhan hanfodol o'r dadansoddiad anghenion, ac ystyrid bod hwn yn faes lle bu'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gymharol wan:

> 'Mae dull Cymru o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus wedi'i seilio ar broses lle mae llais y dinesydd yn sbardun i wella gwasanaeth. Dylai'r cynllun integredig unigol gynnwys strategaeth ymgysylltu yn nodi sut y mae partneriaid yn bwriadu ymgysylltu â phobl a chymunedau, gan ddisgrifio'n glir iawn sut y bydd hyn yn helpu i wella gwasanaethau a phrofiad unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol'[18].

Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn glir y dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol barhau i fod yn sbardun newid yn nhermau diwygio a gwella gwasanaethau

[15] Ibid.
[16] Ibid., t.9
[17] Ibid., t.3
[18] Ibid, t.17-18

cyhoeddus a soniodd am bwysigrwydd dolen glir i ddarpariaeth a chomisiynu gwasanaethau cyhoeddus:

> 'Dylai'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol sicrhau bod pwyslais strategol cryf ar y gwaith o gomisiynu a darparu gwasanaethau, a bod cysylltiad clir rhwng hyn a thystiolaeth o angen'[19].

Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio, er bod gan awdurdodau lleol ran allweddol, bod y 'Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn bartneriaeth o aelodau cyfartal ac ni ddylai'r awdurdod lleol dra-arglwyddiaethu arno'[20]. Dywedodd:

> 'Dylai aelodaeth graidd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynnwys arweinwyr (gwleidyddol a/neu weithredol) yr awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth iechyd, y cyngor gwirfoddol sirol ac uwch gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru'[21].

## 2.3 Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r Agenda Rhanbarthol

Er y gwelwyd parhad sylweddol yn nhermau agenda polisi diwygio sector cyhoeddus dros y ddegawd ddiwethaf - gyda phwyslais cryf ar weithio partneriaethau lleol gyda ffocws ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol - maes arall pwysig o bolisi sy'n datblygu fu'r ffocws cynyddol ar weithio rhanbarthol yn nhermau darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Hyd yn oed yn 2006, cydnabuwyd fod angen comisiynu rhai gwasanaethau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, gyda blaenoriaeth i:

> '**Cydweithredu rhanbarthol a chenedlaethol** - lle mae cyrff lleol yn cydweithio'n rhanbarthol neu'n genedlaethol i ddarparu gwasanaethau arbenigol, cymhleth neu drawsffiniol na allant eu cynnig yn effeithiol ac yn effeithlon ar eu pen eu hunain i safonau'r 21ain ganrif'[22].

Fodd bynnag, gyda dyfodiad yr argyfwng ariannol a'r wasgfa ddilynol ar wariant sector cyhoeddus, rhoddwyd mwy o ffocws i fater darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn rhanbarthol. Galwodd Adolygiad Simpson, a

---

[19] Ibid., t.11
[20] Ibid., t.7
[21] Ibid., t.8
[22] 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar draws ffiniau', Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006 t.25-6

gyhoeddwyd yn 2011, am bwyslais llawer cryfach a chaffael ar y cyd ar lefel ranbarthol neu genedlaethol ar gyfer ystod eang o wasanaethau cyhoeddus [23] a'i gwneud yn glir, yng nghyd-destun pwysau ar gyllid cyhoeddus a setliad cymharol hael ar gyfer llywodraeth leol hyd yma nad yw "pwyll piau hi" yn opsiwn[24].

Gan adeiladu ar hyn, ym mis Gorffennaf 2011 cytunodd Llywodraeth Cymru ar strwythur cydweithio newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys chwe rhanbarth[25]:

- Gogledd Cymru (ardal chwe Awdurdod Unedol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).
- Gorllewin a Chanolbarth Cymru (Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro).
- Bae Gorllewinol (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr).
- Cwm Taf (Merthyr a Rhondda Cynon Taf).
- Caerdydd a'r Fro (Caerdydd a Bro Morgannwg).
- Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen).

Mewn gwirionedd, ymddengys fod peth tensiwn rhwng y ffocws cynyddol ar ranbartholi a'r pwyslais ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r Cynlluniau Integredig Sengl fel blociau adeiladu allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau lleol, a 'Cydamcanu, Cydymdrechu' yn awgrymu fod egluro'r berthynas yn waith ar y gweill:

> 'Er y gallai'r agenda rhanbarthol ar gyfer cydweithredu fod yn wahanol i agenda Byrddau Gwasanaethau Lleol, mae cysylltiadau amlwg rhwng y ddwy. Mae'r cysylltiadau hyn yn debygol o ddatblygu'n wahanol, yn ôl y math o gytundeb sydd wedi'i wneud rhwng partneriaid ym mhob ardal, mewn ymateb i'r heriau sy'n codi wrth ddarparu gwasanaethau. Lle y mae grwpiau arwain rhanbarthol wedi'u sefydlu'n barod, dylent bennu dulliau clir o gysylltu trefniadau lleol a rhanbarthol ar gyfer asesu

---

[23] Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble? Llywodraeth Cymru, 2011, t.6
[24] Ibid., t.10.
[25] Gweler: http://gov.wales/topics/improvingservices/publications/rcastatscomp/?lang=cy

anghenion, cyflawni ac atebolrwydd. Os nad yw trefniadau lleol wedi'u gwneud yn barod, gallai Byrddau Gwasanaethau Lleol gydystyried y ffordd orau i'w sefydlu.'[26]

Awgrymodd y gwerthusiad diweddar o fframwaith polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol rhwng 2007 a 2012 fod tensiynau sylweddol rhwng gwahanol nodau polisi (agenda rhanbarthol a gaiff ei yrru gan yr angen am fwy o effeithiolrwydd ac agenda ymgysylltu â dinasyddion gyda ffocws ar fwy o bersonoli ar wasanaethau):

> 'Felly mae'r dystiolaeth o'n hastudiaeth yn awgrymu bod angen i Lywodraeth Cymru ddewis pa offerynnau polisi y mae'n credu sy'n cynnig y gobaith gorau o sicrhau gwasanaethau lleol mwy effeithiol ac effeithlon. Os penderfynir mai ymgysylltu â dinasyddion fydd y prif ysgogydd ar gyfer y newidiadau hyn, mae'n dilyn y bydd angen datganoli pwerau a chyllid i gymdogaethau. Gallai hyn awgrymu cadw awdurdodau unedol presennol ond annog rôl gryfach o lawer i dimau cymdogaeth, grwpiau cymunedol a chynghorau cymuned. Ar y llaw arall, os penderfynir mai'r ffordd orau o wella gwasanaethau a gwneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael yw trwy gonsortia rhanbarthol neu hyd yn oed lleol, yna mae angen i'r Llywodraeth barhau i annog gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau, neu ad-drefnu llywodraeth leol er mwyn creu cynghorau mwy ac, efallai, ystyried pa un a yw'r rhaniad cyfredol o gyfrifoldebau rhwng llywodraeth leol a chanolog yn briodol.'[27].

## 2.4 Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

Yn fwy diweddar, yn Ebrill 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad ar 'lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus' gan Gomisiwn dan arweiniad Syr Paul Williams i ddynodi amgennau i'r trefniadau ar gyfer

[26] Cydamcanu, Cymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau, Llywodraeth Cymru, 2012, t.26
[27] Dysgu i Wella: Asesiad Annibynnol o Bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol, 2007-2011, Ysgol Fusnes Caerdydd, Adroddiad GSR Llywodraeth Cymru 58/2013 t.9 -10

darparu gwasanaethau cyhoeddus. Ym marn Prif Weinidog Cymru roedd y trefniadau hyn:

> ‘ddim yn gynaliadwy nac yn dderbyniol yn y tymor hwy, o gofio am faint y toriadau i'r sector cyhoeddus sydd eto i ddod'[28].

Cyhoeddwyd Adroddiad y Comisiwn yn Ionawr 2014.

Mae'r adroddiad yn datgan yn glir fod 'angen sicrhau newid sylweddol mewn prosesau llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus'[29] i ymateb i'r pwysau cynyddol ar gyllidebau cyhoeddus fel canlyniad i gynildeb, newid demograffig a galw cynyddol gan y cyhoedd am wasanaethau o'r radd flaenaf. Mae'n dadlau tra bod canfyddiad dinasyddion o wasanaethau cyhoeddus yn gymharol gadarnhaol 'mai gwan ac anghyson yw'r darlun ar gyfer gormod o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'[30].

Mae'r adroddiad yn cynnig ailstrwythuro llywodraeth leol drwy uno'r awdurdodau lleol cyfredol, ar sail un o bedwar model gwahanol, yn ymwneud â 10, 11 neu 12 o awdurdodau unedig: Powys yw'r unig un o'r 22 awdurdod unedol lle mae sicrwydd na fyddai newid, er bod yr adroddiad yma o blaid uno rhwng yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Gallai Abertawe a Sir Gaerfyrddin hefyd gael eu cadw mewn rhai o'r sefyllfaoedd.

Er bod cyfnerthu gweithio partneriaeth ar y lefel leol drwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol i'w groesawu mewn egwyddor, dywed yr adroddiad ‘mae tystiolaeth glir mai cynnydd cyfyngedig a thameidiog a wnaed hyd yma'. Mae'n awgrymu mai ychydig o dystiolaeth sydd y cafodd cydweithio unrhyw effaith ar safonau gwasanaeth na chaffaeliad canlyniadau ac mae'n sôn am ‘ymdeimlad cyffredinol fod cefnogi trefniadau cydweithio yn defnyddio mwy o adnoddau nag y gallai'r canlyniadau ei gyfiawnhau', gan ddod i'r casgliad bod 'angen archwilio'r systemau a'r strwythurau presennol yn radical'[31].

[28] Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru, 30 Ebrill 2013
[29] Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Adroddiad Cryno, t.2
[30] Ibid., t.10
[31] Ibid., t.23 a 24

Mae'r adroddiad yn cydnabod, hyd yn oed gydag arweinyddiaeth gref gan Lywodraeth Cymru, y bydd y newid sylweddol sydd ei angen yn cymryd o leiaf dair i bum mlynedd [32] ac argymhellodd y dylai'r trefniadau rhaglen ar gyfer uno awdurdodau lleol ddigwydd erbyn Pasg 2014[33]. Mae eraill o blith y 62 argymhelliad sy'n berthnasol i Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn cynnwys:

- Yr angen i weithredu ar frys i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar sail 'cynlluniau clir a chadarn ... yn cynnwys cynigion, cerrig milltir, targedau a chanlyniadau manwl ar gyfer gwella ac integreiddio'r modd y darperir pob gwasanaeth perthnasol'[34];
- Bod yn 'rhaid i strwythurau partneriaeth lleol gael eu symleiddio'n radical a'u gwneud yn fwy effeithiol', gyda Byrddau Gwasanaethau Lleol i) yn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn yr adroddiad ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol; ii) archwilio (o fewn dim mwy na 12 mis) strwythurau partneriaeth lleol fel eu bod yn cyflawni'r meini prawf hyn a'r canlyniadau blaenoriaeth a osodwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol; a iii) sicrhau fod Cynlluniau Integredig Sengl yn canolbwyntio ar y canlyniadau blaenoriaeth ac yn 'nodi'n glir y camau sydd angen eu cymryd, gan bwy ac erbyn pryd'[35];
- Yr angen i Lywodraeth Cymru ad-drefnu Byrddau Gwasanaethau Lleol i sicrhau bod 'un model llywodsraethu cadarn ar waith sy'n deg ac yn dryloyw ac sy'n sicrhau bod penderfyniadau yn seiliedig ar gyfrifoldebau a chamau gweithredu penodol' ac y caiff Byrddau Gwasanaethau Lleol 'bŵer i wneud penderfyniadau sylweddol ac ystyrlon'[36];
- Ffocws cryf ar bwysigrwydd craffu yn cynnwys sicrhau fod Byrddau Gwasanaethau Lleol yn rhoi rhaglen graffu benodol ar waith a'r gofyniad i 'gyfethol unigolion o grwpiau eirioli a grwpiau eraill ar bwyllgorau craffu er mwyn cynyddu capasiti a gallu pwyllgorau o'r fath i gyflawni gwaith craffu adeiladol a hyddysg'’[37];

[32] Ibid., t.86
[33] Ibid., t.90
[34] Ibid., tt. 95
[35] Ibid., tt.96
[36] Ibid., t.99
[37] Ibid., t.99

- Y dylai Llywodraeth Cymru gytuno gyda phob Bwrdd Gwasanaethau Lleol erbyn diwedd 2014/15 'sut y bydd y bwrdd a'i aelodau yn cyfrannu at ganlyniadau strategol cenedlaethol tra'n mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau lleol yr un pryd'[38].

Felly mae'r adroddiad, er yn cymeradwyo cyfeiriad teithio Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd diweddar yn nhermau gweithio partneriaeth, yn awgrymu'n gryf mai cymharol ychydig o gynnydd a wnaed a bod llawer o waith yn dal ar ôl.

Mewn ymateb i adroddiad y Comisiwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddau bapur ym mis Gorffennaf 2014[39]. Mae'r cyntaf ohonynt - 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Pobl Cymru' - yn nodi agenda diwygio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus er mwyn 'gwella llesiant pobl ledled Cymru nawr ac yn y dyfodol[40].

Mae'r papur yn ategu argymhellion cyffredinol y Comisiwn gan ddweud eu bod, o'u 'cyflwyno fel pecyn', yn rhoi cam nesaf pwysig a rhesymegol ar gyfer diwygio gan gydnabod 'Nid yw'n hawdd i lawer mewn gwasanaethau cyhoeddus ddarllen canfyddiadau'r Comisiwn'.[41]

Mae'r papur yn nodi gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sydd - yn unol â pholisi cynharach Llywodraeth Cymru - yn pwysleisio bod 'angen i wasanaethau cyhoeddus gael eu darparu'n fwyfwy **gyda** phobl yn hytrach nag **i** bobl ... cynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, gan gydnabod cryfderau pobl ac addasu gwasanaethau'n briodol'[42]. Mae'r weledigaeth hefyd yn pwysleisio'r angen i 'weithredu'n gynt i helpu pobl i gymryd camau i atal problemau a gwella'u bywydau, yn hytrach na dim ond adweithio pan fydd pethau'n mynd o chwith' a 'rhoi anghenion pobl yn gyntaf,

[38] Ibid., t.104
[39] Ynghyd â thrydydd papur yn trin cynyddu pwerau ar gyfer llywodraeth ddatganoledig Cymru.
[40] Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Pobl Cymru, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2014, t.7
[41] Ibid, t.8
[42] Ibid., t.10

gan weithio gydag ystod eang o bartneriaid i weithio fel "un gwasanaeth cyhoeddus'’[43].

Mae'r papur yn ategu'r angen i ailstrwythuro llywodraeth leol Cymru ac yn datgan ei bod yn ffafrio'r model 12-awdurdod a gynigwyd gan y Comisiwn, er nad yn gwrthod ystyried cynigion eraill[44]. Mae'n tanlinellu ymrwymiad i 'ad-drefnu a datblygu partneriaethau cryfach gyda gwasanaethau eraill, a sicrhau bod y partneriaethau a'r trefniadau cydweithredu presennol yn cyd-fynd â ffiniau'r awdurdodau lleol newydd a phartneriaid darparu eraill' ac yn amlygu pwysigrwydd canolog parhaus Byrddau Gwasanaethau Lleol yn y trefniadau newydd[45].

Mae'r papur yn tanlinellu pwysigrwydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gan ddweud y bydd yn sefydlu cyfres lai o nodau canlyniad cenedlaethol y bydd angen i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a phartneriaethau eu trin[46].

Mae'r papur hefyd yn pwysleisio:

> ‘mae angen i wasanaethau cyhoeddus arloesi a cheisio gwella'n barhaus i ragweld ac ymateb i newidiadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yng Nghymru. Mae angen annog creu modelau newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ... ac mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o fynd ati i reoli'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn hytrach nag ymateb i hyn mewn ffordd oddefol’[47].

Roedd yr ail bapur 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Papur Gwyn - Ad-drefnu Llywodraeth Leol' yn ddogfen ymgynghori oedd â ffocws culach ar lywodraeth leol Cymru gyda dyddiad cau ar gyfer ymatebion o 1 Hydref 2014 (gan ddangos fod yr amserlen uchelgeisiol iawn a nododd y Comisiwn ar gyfer newid eisoes wedi llithro).

[43] Ibid.
[44] Ibid., t.13
[45] Ibid.
[46] Ibid., t.19
[47] Ibid., t.21

Mae'r Papur Gwyn yn:

- Tanlinellu pwysigrwydd ymyriadau cynnar i ostwng y galw ar wasanaethau aciwt a mwy o ymgysylltu gyda dinasyddion am gynllun gwasanaethau [48];
- Ategu'r angen am system gryfach o graffu ar lywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill[49];
- Tanlinellu pwysigrwydd partneriaeth a chydweithio ac yn fwy neilltuol rôl Byrddau Gwasanaethau Lleol gan ddweud fod ganddynt rôl hanfodol wrth ddod â sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd, ond bod angen yr ad-drefnu a argymhellir gan y Comisiwn ac y cynigir hynny drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)[50];
- Ategu'r angen i ailstrwythuro llywodraeth leol yng Nghymru ond yn dweud nad oes digon o amser i basio deddfwriaeth cyn yr etholiadau nesaf i'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mai 2016, gan addo cyhoeddi drafft Fil er ymgynghori yn hydref 2015[51];
- Rhagweld y byddai'r awdurdodau newydd yn dod i fodolaeth ar 1 Ebrill 2020 ond yn ymrwymo i ddeddfu i ganiatáu uno gwirfoddol yn gyflymach [52][53].

## 2.5 Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Yn fwy diweddar, cyflwynwyd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Gorffennaf 2014 ac mae'n mynd drwy'r broses ddeddfwriaethol ar hyn o bryd.

Er bod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn eang, yn cynnwys yn hollbwysig gyflwyno darpariaethau ar gyfer pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i

[48] Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn - Diwygio Llywodraeth Leol, Llywodaeth Cymru, Gorffennaf 2014, t.10
[49] Ibid., tt.14-15
[50] Ibid., t.17
[51] Ibid., tt.24-25
[52] Ibid., t.26
[53] Lluniwyd yr adroddiad hwn cyn cyflwyno Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yn Ionawr 2015 a chyhoeddi Papur Gwyn pellach, *Datganoi, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol* yn Chwefror 2015

osod a monitro perfformiad ar amcanion llesiant, mae Rhan 4 o'r Bil yn cyfeirio'n benodol at wneud trefniadau partneriaeth presennol Byrddau Gwasanaethau Lleol yn rhai statudol. Yn neilltuol, mae'n ofyniad gan y Bwrdd:

- Sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, yn cynnwys aelodaeth graidd o'r awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol, yr awdurdod Tân ac Achub perthnasol, a Cyfoeth Naturiol Cymru, ond gyda gofyniad i'r Bwrdd hefyd wahodd Gweinidogion Cymru, Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu yr Heddlu perthnasol, cynrychiolydd y darparydd perthnasol o Wasanaethau Prawf, a chynrychiolydd corff yn cynrychioli mudiadau gwirfoddol yn yr ardal[54];
- Pob Bwrdd i geisio cyngor gan bartneriaid eraill, yn cynnwys cynghorau tref a chymuned a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn yr ardal yn ogystal ag ystod o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru [55];
- Pwyllgor(au) Trosolwg a Chraffu yr awdurdodau lleol perthnasol i sgriwtineiddio'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoedus[56];
- Nod pob Bwrdd yw 'gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'[57];
- Pob Bwrdd i baratoi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal, ar sail ymgynghoriad eang, ac i gynhyrchu Cynllun Llesiant lleol (yn ymarferol yn olynydd i'r Cynllun Integredig Sengl), hefyd ar sail ymgynghoriad eang, gan osod amcanion ar gyfer cyflawni'r nod gyffredinol a rhoi manylion camau a gymerir i gyflawni'r amcanion hyn. Dylid cynhyrchu'r cynlluniau hyn o fewn 12 mis o bob etholiad cyffredin i'r awdurdod lleol[58];
- Wrth osod amcanion, dylai pob Bwrdd roi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith drwy gydbwyso 'anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor' a drwy fod â dull

[54] Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2014, Rhan 4, Pennod 1
[55] Ibid.
[56] Ibid.
[57] Ibid., Rhan 4, Pennod 2
[58] Ibid.

gweithredu integredig, yn cynnwys ystyried sut y gall ei gamau gweithredu ei hun effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill[59];

- Wrth ddatblygu ei Gynllun Llesiant, pob Bwrdd i geisio ymgorffori cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a sefydlir dan Rhan 3 y Bil[60];
- Pob Bwrdd i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar y cynnydd ar amcanion Cynllun Llesiant[61].

Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer uno dau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail wirfoddol, cyn belled â'u bod yn ymwneud â'r un Bwrdd Iechyd Lleol (a heb fod yn ymwneud â mwy nag un Bwrdd Iechyd Lleol) neu i gydweithio mewn unrhyw ffordd y dymunant, yn ogystal ag i Lywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i Fyrddau i gydweithio[62].

[59] Ibid.
[60] Ibid.
[61] Ibid.
[62] Ibid.

# 3.0 MODEL RHESYMEG RHAGLEN

Mae'r model rhesymeg rhaglen a nodir yn Ffigur 3.1 islaw yn ymgais i osod y theori goblygedig o newid sy'n sail i'r cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mae hyn yn deillio o ddadansoddiad o'r disgrifiadau swydd (ar gyfer awdurdodau lleol o fewn Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig) ac adroddiadau chwarterol/blynyddol, y grwpiau ffocws gyda swyddogion perthnasol awdurdodau lleol a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a swyddogion Byrddau Gwasanaethau Lleol astudiaethau achos a'u rheolwyr llinell, ond roedd hefyd yn seiliedig ar y cynllun busnes a'r dogfennau polisi ehangach a chafodd ei drafod gyda'r Grŵp Llywio ar gyfer y gwerthusiad.

Dylid darllen y model o'r chwith i'r dde, a disgwylir y bydd y gweithgareddau a ddynodir yn arwain at yr allbynnau a chanlyniadau cysylltiedig, a maes o law yr effeithiau. Rydym yn ymwybodol fod y diffiniad o 'allbynnau' yn gyffredinol wael ond mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai anaml y caiff allbynnau ansoddol eu dynodi neu eu hadrodd yn y dogfennau.

Rydym wedi grwpio'r gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau yn bedwar maes eang a ymddengys i ni eu bod yn cwmpasu prif ffocysau gwaith swyddogion Byrddau Gwasanaethau Lleol sef: Partneriaeth a Gweithio y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, y Cynllun Integredig Sengl; Cyflawni a Dysgu ac Ymateb i Flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Dylid nodi na chafodd Mewnbynnau/Adnoddau a'r effeithiau a ddymunir yn y pen draw eu gwahanu rhyngddynt; mae'n amlwg y defnyddir yr adnoddau ar draws pob un o'r pedwar maes gweithgaredd, ac y bydd yr effeithiau yn y pen draw yn deillio o ryngweithio gwahanol ganlyniadau'r prosiectau (ac yn wir lawer o ffactorau eraill).

Yn y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol nodi fel gyda phob model o'r fath, bod gan ffactorau allanol (h.y. rai sy'n llwyr tu allan i'r ymyriad ei hunan) ran cynyddol bwysig wrth symud o'r chwith i'r dde: mewn ymyriadau cymharol gynnil fel hyn, sy'n dibynnu'n gryf ar ddiwylliant ac ymddygiad unigolion a

sefydliadau, mae rôl ffactorau allanol o'r fath yn debygol o fod yn neilltuol o arwyddocaol.

Dylid nodi hefyd fod y model yn *generig* gan geisio cyffredinoli ar draws ardaloedd pob un o'r 22 Awdurdod Lleol. Fel rhan o'r ymchwil astudiaeth achos fe wnaethom geisio profi dilysrwydd y model yn y chwe maes gwahanol er mwyn amlygu pethau oedd yn gyffredin ac yn wahanol rhyngddynt. Dangosir canlyniadau'r dadansoddiad yma yn yr Atodiad Technegol.

**Ffigur 3.1: Model Rhesymeg Rhaglen ar gyfer Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol**

| Mewnbynnau/ Adnoddau | Gweithgareddau | Allbynnau | Canlyniadau | Effaith |
|---|---|---|---|---|
| | **Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) a Gweithio Partneriaeth** | | | |
| | Gwasanaethu BGLl: ysgrifenyddiaeth<br>Gwasanaethu BGLl: adroddiadau<br>Ymgysylltu/Cyfathrebu BGLl<br>Adolygu Strwythurau a Pherfformiad BGLl<br>Hwyluso is-grwpiau/partneriaethau<br>Rheoli perthynas gyda phartneriaid | Cynnal/mynychu cyfarfodydd BGLl<br>Cynnal/mynychu cyfarfodydd is-grwpiau BGLl<br>Trefnu digwyddiadau ymgysylltu<br>Secondiadau rhwng partneriaid | Gwella capasiti ar gyfer gweithio partneriaeth yn y BGLl ac Is-grwpiau<br>Integreiddio/ad-drefnu cynlluniau a phartneriaethau gyda BGLl<br>Sefydlu arferion gwella hirdymor yng ngwaith y BGLl | Sefydlu BGLl fel dull cynaliadwy o gynllunio a darparu seilwaith |
| Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Swyddogion Cymorth<br><br>Rheolaeth llinell/Staff eraill partneriaeth o Awdurdodau Lleol | **Cynllun Integredig Sengl (CIS)** | | | |
| | Casglu data/dadansoddi anghenion<br>Datblygu/diweddaru CIS- yn cynnwys dynodi blaenoriaethau<br>Olrhain cynnydd/Rheoli perfformiad blaenoriaethau CIS | Cynhyrchu/diweddaru CIS a dadansoddiad anghenion<br>Dilyn lan/adrodd ar gamau gweithredu CIS/BGLl a gweithredu<br>Cytuno a sefydlu systemau rheoli perfformiad | CIS yn gosod blaenoriaethau ystyrlon a rennir ar gyfer partneriaid BGLl<br>Cyflawni blaenoriaethau CIS a gytunwyd | Canlyniadau gwella yn gysylltiedig â blaenoriaethau CIS - gwasanaethau yn canolbwyntio ar y dinesydd |
| Mewnbynnau/ dadansoddi data gan bartneriaid eraill BGLl<br><br>Cefnogaeth/ arweiniad Llywodraeth Cymru | **Darparu a Dysgu** | | | |
| | Datblygu/cais prosiect ESF/arall<br>Monitro/cydymffurfiaeth prosiect ESF/arall<br>Rheolaeth prosiect ESF/arall<br>Sicrhau dysgu/arfer da mewn ardal<br>Lledaenu arfer da ar draws Cymru | Datblygu prosiectau<br>Cwblhau adroddiadau monitro prosiectau<br>Adroddiadau ar gynnydd prosiect i BGLl<br>Gwerthuso prosiect/lledaenu gwersi | Prosiect ESF/arall ar y cyd yn cael eu darparu i'r cynllun<br>Lledaenu/prif-ffrydio dysgu o ESF/prosiectau eraill | Dynodi a phrif ffrydio arbedion o brosiectau peilot/ cydweithio<br><br>Dynodi/gwireddu arbedion o weithio rhanbarthol |
| | **Ymateb i Flaenoriaethau Llywodraeth Cymru** | | | |
| | Cydlynu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru<br>Datrys problemau mewn ceisiadau gan Lywodraeth Cymru am wybodaeth/gweithredu<br>Cyfrannu at weithio rhanbarthol | Ymateb i geisiadau Llywodraeth Cymru | Trin blaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru<br>Integreiddio Byrddau Gwasanaeth Lleol i weithio rhanbarthol | |

# 4.0. CANFYDDIADAU

## 4.1 Cyflwyniad

Yn yr Adran yma, rhoddwn adroddiad ar ganfyddiadau’r gwaith maes a gynhaliwyd yn ardaloedd yr astudiaethau achos ynghyd ag adolygiad desg o ddogfennau yn gysylltiedig â rôl y swyddogion, y grwpiau ffocws gyda Swyddogion Cymorth y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol.

Strwythurwyd yr Adran yma o amgylch y model rhesymeg rhaglen y gwnaethom ei ddatblygu ar gyfer y prosiect (gweler Ffigur 3.1). Ystyriwn yn gyntaf dystiolaeth am fewnbynnau, gan edrych yn neilltuol i ba raddau y caiff yr adnoddau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol eu hategu gan adnoddau eraill (Adran 4.2) cyn archwilio yn eu tro bedwar maes thematig Byrddau Gwasanaethau Lleol a Gweithio Partneriaeth (Adran 3.3), y Cynllun Integredig Sengl (Adran 4.4), Cyflawni a Dysgu (Adran 4.5) ac Ymateb i Flaenoriaethau Llywodraeth Cymru (Adran 4.6). Wedyn ystyriwn y cynnydd yn nhermau'r effeithiau a ddymunir (Adran 4.7) cyn adrodd ar ffactorau galluogi a'r rhwystrau a gafwyd (Adran 4.8). Yn olaf, yn Adran 4.9 adroddwn ar farn rhanddeiliaid am yr angen am gymorth yn y dyfodol.

## 4.2 Mewnbynnau/Adnoddau

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Mae'r adnoddau a gafodd awdurdodau lleol unigol o fewn Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi amrywio, yn dibynnu ar natur gofyniad pob awdurdod, ac na chawsant eu cysylltu gyda swyddi penodol. Ar y llaw arall, yn Nwyrain Cymru bu swm safonol o £50,000 y flwyddyn ar gael i bob awdurdod (er nad yw pawb wedi hawlio'r holl swm). Yn gyffredinol credai cyfranwyr yr ymchwil fod y rhyddid a roddwyd yn Nwyrain Cymru yn ddymunol, er yn croesawu’r ffaith y cafodd cefnogaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ei deilwra i anghenion lleol penodol.

Bu cryn amrywiaeth o ran gradd y swyddi, er bod swyddogion unigol wedi cymryd cyfrifoldebau oedd yn uwch na'r rhai'n gysylltiedig gyda gradd eu swyddi: teimlai llawer o gyfweleion fod y term Swyddog Cymorth yn rhoi argraff gamarweiniol o'u rôl. Bu trosiant staff yn broblem mewn llawer o ardaloedd, a gwaethygwyd hynny weithiau gan newidiadau mewn rheolwyr llinell.

Mae'r rhan fwyaf o Swyddogion Cymorth wedi eu seilio yng nghanolfannau corfforaethol awdurdodau lleol, ond bu'r cyd-destun y bu Swyddogion Cymorth yn gweithio ynddo yn wahanol iawn mewn gwahanol ardaloedd: mewn rhai achosion, hwy fu'r unig adnodd oedd ar gael i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, ac mewn eraill maent wedi gweithredu fel rhan o dimau mwy (er yn rhai gyda chyfrifoldebau lluosog). Yn gyffredinol, bu toriadau mewn timau mewn blynyddoedd diweddar a mynegodd rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru, yn neilltuol, bryderon am y diffyg sgiliau dadansoddol oedd ar gael.

Cafodd cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rhwydweithio ei werthfawrogi'n gyffredinol ond ymddengys y bu hynny'n fwy rhagweithiol yn y Gogledd a gall fod wedi cadw eraill megis Cymdeithas Llywodraeth Cymru rhag cymryd mwy o ran.

Mae'r Cynllun Busnes ar gyfer proseict Byrddau Gwasanaethau Lleol - ESF, fel y'i diwygiwyd ym mis Tachwedd 2011, yn ei gwneud yn glir fod lefel cyllid Llywodraeth Cymru a fyddai ar gael i ardaloedd gwahanol awdurdodau lleol o fewn Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn amrywio'n eithaf sylweddol, gan adlewyrchu'r cais am adnoddau a wnaeth pob awdurdod lleol: felly, dros oes y prosiect ESF, dyrannwyd £316,485 i Ben-y-bont ar Ogwr i dalu am ddau swyddog llawn-amser a £273,553 i Flaenau Gwent i dalu am ddau swyddog llawn-amser a gweithiwr cymorth rhan-amser (40%). Ar y llaw arall, derbyniodd Conwy ac Abertawe lai na hanner cymaint (£120,000 yn y naill achos a'r llall). Ni wnaeth Gwynedd gais am unrhyw gyllid, a derbyniodd Ynys Môn £100,000. Ymddangosai y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu mewn ymarfer, gan fod y 10 adroddiad blynyddol diweddaraf sydd ar gael yn

awgrymu i wahanol awdurdodau lleol wneud cais a defnyddio ystod eang o gyllid.

Ar y llaw arall, roedd y cyllid blynyddol a ddarparwyd i awdurdodau lleol yn Nwyrain Cymru yn debyg iawn ar draws y saith awdurdod lleol. Yma, bu swm safonol o £50,000 y flwyddyn ar gyfer pob awdurdod ar gael (er na hawliodd pob un y swm llawn). Mae gan awdurdodau Dwyrain Cymru gryn ddisgresiwn am sut i ddefnyddio'r adnodd (ac fel canlyniad nid yw'r cyllid bob amser yn ariannu swydd[i] neilltuol tra bod gofynion cyllid ESF yn golygu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, fod defnydd y cyllid wedi'i glymu'n fwy penodol i swydd(i) unigol a disgrifiadau swydd sy'n gorfod cael eu cytuno gyda Llywodraeth Cymru.

Er bod ein gwaith maes yn awgrymu yn ymarferol y bu rheolwyr rhaglen yn Llywodraeth Cymru yn gymharol hyblyg am y materion hyn, roedd cyfweleion o Ddwyrain Cymru yn sicr yn credu ei bod yn fanteisiol cael mwy o ddisgresiwn fel oedd ganddynt hwy (er ei bod yn dal i fod yn ofynnol iddynt ddangos y defnyddiwyd adnoddau ar gyfer cefnogaeth benodol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol):

> ‘Mae'r rhyddid a gawsom yn Nwyrain Cymru gyda'r grant £50,000 wedi golygu i ni allu gwneud beth oedd angen ei wneud yn hytrach na rhywun arall yn dweud wrthym. Rydym wedi gallu cyfateb ein hymateb i anghenion yr ardal. Nid yw lleoedd eraill wedi gallu gwneud hynny'. (Cyfwelai astudiaeth achos D)

Cafodd hyn yn gyffredinol ei adleisio gan eraill, yn neilltuol o fewn y grwpiau ffocws.

> ‘Dydyn ni ddim yn ceisio ffitio peg sgwâr i mewn i dwll crwn, gallwch wneud i'r cyllid weithio i chi.' (Aelod o grŵp ffocws)

Ymddengys fod cryn amrywiaeth yng ngradd y swyddi a gefnogwyd gan y cyllid yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan amrywio o radd rheolwyr i radd clerigol (gyda'r rhan fwyaf o swyddi wedi eu dynodi rhwng Pwynt Gradd 5 a SO 2 ar raddfa awdurdodau lleol), gyda nifer fach o awdurdodau lleol (e.e.

Pen-y-bont ar Ogwr a Cheredigion) â nifer o swyddi wedi'u hariannu. Roedd cyfweleion yn gyffredinol yn croesawu'r amrywiaeth yma, gan ystyried ei fod yn dangos parodrwydd ar ran rheolwyr rhaglen i ymateb i anghenion ac amgylchiadau penodol awdurdodau lleol unigol a thanlinellodd rhanddeiliaid cenedlaethol bwysigrwydd rhoi ystyriaeth i'r strwythurau a'r cyd-destun ehangach yr oedd y swyddi arfaethedig ynddynt.

Fodd bynnag, yn y grwpiau ffocws a hefyd yr astudiaethau achos (yn neilltuol C), mewn achosion lle bu trosiant y staff yn isel, nododd rhai cyfweleion dueddiad naturiol i swyddogion wneud tasgau mwy cymhleth a 'rheolaethol' wrth i'r rôl ddatblygu, ond hefyd nodwyd nad oedd hyn o reidrwydd yn cael ei adlewyrchu mewn newidiadau ffurfiol i'r swydd, gan arwain at dybiaeth bod y swyddogion unigol yn ymarferol yn gweithio uwchben y radd yr oeddent yn cael ei thalu amdani:

> ‘I ddechrau dim ond cydlynu'r papurau ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yr oedd disgwyl i'r Swyddog Cymorth wneud ond erbyn hyn mae'n eu hysgrifennu.' (Aelod o grŵp ffocws)

Yn gysylltiedig â hyn, teimlai llawer o gyfweleion fod y term 'Swyddog Cymorth' yn bychanu'n sylweddol bwysigrwydd rôl wirioneddol yr unigolion:

> ‘Mae'r term swyddog cymorth mewn ffordd bychanu gwerth y rôl, nid dyna'r gair cywir, mae'n rôl eithaf uchel.’ (Aelod o grŵp ffocws)
>
> ‘Mae'r rôl yn fwy am hwyluso na chefnogi.’ (Aelod o grŵp ffocws)

Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn defnyddio'r term hwn, defnyddid nifer o wahanol deitlau swyddi hefyd:

- ‘Swyddog Cymorth Busnes Bwrdd Gwasanaethau Lleol' (Pen-y-bont ar Ogwr)
- ‘Rheolwr Rhaglen’ (Caerffili)
- ‘Cydlynydd Prosiect - Bwrdd Gwasanaethau Lleol' (Abertawe)
- 'Swyddog Datblygu Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau' (Torfaen)
- 'Swyddog Prosiect' (Ceredigion)

Dywedwyd y bu trosiant staff yn fater sylweddol mewn rhai ardaloedd: bu hyn yn fwriadol mewn rhai o'r ardaloedd astudiaethau achos, er enghraifft yn B (yn Nwyrain Cymru) lle cafodd staff newydd uwch eu recriwtio tua 18 mis yn ôl fel rhan o ymdrech fwriadol i ail-lansio'r hyn a dybid gan uwch ffigurau o fewn yr awdurdod i fod yn Fwrdd Gwasanaethau Lleol oedd yn methu. Ond mewn eraill, yn neilltuol E lle bu chwe swyddog mewn tair blynedd, roedd hynny heb ei gynllunio, gan adlewyrchu bod swyddi cyfnod sefydlog yn anneniadol a newidiadau sylweddol o fewn yr awdurdod lleol.

O'r pum swyddog a ariannwyd gan yr ESF yn y pedair ardal astudiaeth achos o fewn Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, dim ond un (astudiaeth achos C) a fu yn y swydd ers 2011, un ers 2012, dwy ers dechrau 2013 ac un ers diwedd 2013. Yn ardal yr astudiaeth achos arall (yn Nwyrain Cymru), (D), roedd unigolyn a benodwyd ganol 2012 yn y swydd adeg y gwaith maes ond gadawodd ym mis Medi 2014 ac ni phenodwyd neb i gymryd ei le.

Cafodd mater trosiant staff ei waethygu gan y ffaith y bu hefyd newid cyson mewn rheolwyr llinell mewn rhai ardaloedd, gan adlewyrchu faint o ailstrwythuro oedd yn mynd rhagddo mewn llywodraeth leol. Roedd hyn yn wir mewn dwy o'r ardaloedd astudiaethau achos (A, F) ond cyfeiriwyd hefyd at hynny yn y grwpiau ffocws. Yn nhermau ardaloedd yr astudiaethau achos, roedd C unwaith eto yn eithriad yma lle'r oedd rheolwr llinell y Swyddog Cymorth wedi cadw'r cyfrifoldebau hyn ar hyd y cyfan er iddo gael dyrchafiad sylweddol yn y cyfamser, tra yn E, roedd newidiadau cyson yn rôl y Swyddog Cymorth wedi ei wrthbwyso gan sefydlogrwydd yn nhermau staff mewn swyddi uwch.

Yn ein holl ardaloedd astudiaethau achos - a byddai'n ymddangos yn y rhan fwyaf o ardaloedd yr awdurdodau lleol eraill - roedd Swyddog Cymorth Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi'i leoli yng nghanolfan gorfforaethol awdurdodau lleol (o fewn Adran y Prif Weithredwr, Gwasanaethau Corfforaethol neu gyfwerth) - er mewn rhai achosion, megis F roedd hwn yn ddatblygiad cymharol ddiweddar yn dilyn proses ailstrwythuro mewnol. Cadarnhawyd y canfyddiad yma gan randdeiliaid cenedlaethol, a deimlai hyn fod hyn yn

wirioneddol bwysig gan y golygai fod cyfathrebu gyda'r Swyddogion Cymorth yn agor sianel i'r gwneuthurwyr penderfyniadau strategol o fewn awdurdodau lleol megis arweinwyr a phrif weithredwyr.

Er hyn, roedd yn glir o'n grwpiau ffocws fod amrywiadau sylweddol iawn yn nhermau'r cyd-destun yr oedd Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gweithio ynddo ac yn yr adnoddau eraill a ddefnyddiai awdurdodau lleol i gefnogi gwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mewn rhai awdurdodau y Swyddogion Cymorth a ariannwyd oedd y prif (os nad yr unig) adnodd swyddog yn benodol yn gwasanaethu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, tra'u bod yn ffurfio rhan o'r timau mwy mewn eraill, gyda staff eraill yn derbyn arian craidd (hyd at tua chwech o swyddogion) oedd gyda'i gilydd yn cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (er bod gan y timau hyn gyfrifoldebau eraill sylweddol yn nhermau cynllunio corfforaethol neu weithio partneriaeth arall). Yn rhannol, roedd hyn yn adlewyrchu i ba raddau yr oedd awdurdodau wedi canoli (neu beidio) weithio partneriaeth (e.e. Plant a Phobl Ifanc, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Diogelwch y Gymuned) a arferai gael ei gefnogi gan adrannau gwasanaeth.

Cafodd yr amrywiaeth yma ei adlewyrchu i raddau yn ardaloedd ein hastudiaethau achos, er yn y rhan fwyaf o achosion, y Swyddog Cymorth a ddynodwyd oedd yr unig adnodd penodol oedd yn gweithio'n llwyr neu'n bennaf ar waith yn gysylltiedig â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mewn pedair o'r ardaloedd (A, D, E a F) rôl gymharol 'ystafell gefn' oedd gan y Swyddogion Cymorth gan fod rheolwyr llinell neu gydweithwyr hŷn yn tueddu i siarad yng nghyfarfodydd y Byrddau Gwasanaethau Lleol ac yn llawer mwy gweladwy i randdeiliaid allanol. Yn un ohonynt (A), roedd yn rhaid atgoffa Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol pwy oedd Swyddog Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gan mai rheolwr llinell y Swyddog Cymorth oedd ei bwynt cyswllt cyntaf a bod y Swyddog Cymorth yn dirprwyo i eraill o ran swyddogaethau allweddol megis paratoi'r Cynllun Integredig Sengl neu reoli perfformiad blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mewn achos arall (D), er mai'r Swyddog Cymorth oedd yn cynhyrchu'r papurau ei rheolwr llinell oedd yn eu cyflwyno yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Fodd bynnag, mewn ardaloedd astudiaethau achos eraill (B a C) y swyddogion a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru/ESF oedd yn bendant iawn y swyddogion cymorth allweddol ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Lleol: yn astudiaeth achos B, roedd yr uchaf o'r ddau swyddog yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, er enghraifft.

Yn gyffredinol, serch hynny (er nid ym mhob achos), dywedwyd fod y timau mwy lle'r oedd y Swyddogion Cymorth yn seiliedig wedi crebachu (yn anghymesur mewn rhai achosion) fel canlyniad i doriadau 'tafellu salami' i sefydliadau llywodraeth achos. Felly, yn astudiaeth achos E, roedd y Swyddog Cymorth diweddaraf yn parhau i gyflawni rhai dyletswyddau partneriaeth (yn gysylltiedig gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol) y bu'n gyfrifol amdanynt cyn cael ei secondio i'r swydd ac mewn astudiaeth achos arall, roedd y Swyddog Cymorth wedi etifeddu rhai cyfrifoldebau gweddilliol gan gyn-gydweithwyr gan fod y tîm yr oedd yn aelod ohonynt wedi crebachu. Dywedodd rhanddeiliad cenedlaethol:

> ‘Mae canolfannau corfforaethol yn cael eu torri'n gyffredinol. Mae staff ymchwil, cydlynwyr ac ati yn wirioneddol dan y chwyddwydr.'

Yn nhermau sgiliau dadansoddi, roedd y rhanddeiliaid cenedlaethol y gwnaethom eu cyfweld yn bryderus am yr hyn a ystyrid yn fynediad anwastad iawn i sgiliau data a dadansoddi da o fewn gwahanol awdurdodau lleol: er y codwyd hyn gan nifer o gyfweleion astudiaethau achos ac mewn dwy ardal astudiaeth achos (D ac E) nodwyd y cafodd swyddi dadansoddi eu dileu i wneud arbedion, ni ymddangosai fod hwn yn gonsyrn sylweddol (er y gall hyn fod yn dangos diffyg ymwybyddiaeth o ddiffygion).

Roedd cefnogaeth gan dîm Byrddau Gwasanaethau Lleol - ESF Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith y Swyddogion Cymorth - yn neilltuol drwy'r cyfleoedd rhwydweithio - yn cael ei ystyried gan y rhan fwyaf (ond nid gan bawb) fel bod yn werthfawr gan gyfweleion, gyda'r rhai o Ogledd Cymru yn neilltuol o gadarnhaol am hyn

> ‘ Bu [enw swyddog Llywodraeth Cymru] yn werthfawr tu hwnt wrth gefnogi Swyddogion Datblygu a rheolwyr prosiect Byrddau Gwasanaethau Lleol'. (Cyfwelai Astudiaeth Achos A)

Mewn mannau eraill roedd y gefnogaeth yn cael ei gwerthfawrogi ond teimlid ei bod yn fwy ymatebol:

> ‘Nid wyf mewn gwirionedd angen unrhyw gefnogaeth neilltuol ganddyn nhw, maen nhw bob amser wedi bod ar gael os oedd gen i unrhyw broblemau'. (Aelod o grŵp ffocws)

Yn un o'r grwpiau ffocws, teimlai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod cwmpas ar gyfer llawer mwy o rannu ymarfer rhwng Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol a dywedwyd y byddent yn croesawu mwy o hwyluso’r mathau hyn o rwydweithiau:

> ‘Mae'n gwneud synnwyr, rydyn ni gyd yn datblygu asesiadau anghenion, rydyn ni gyd yn edrych ar yr un data felly mae'n gwneud synnwyr i'w wneud gyda'n gilydd'. (Aelod o grŵp ffocws)

Yn o leiaf dair o'r ardaloedd astudiaethau achos (B , C a D), dywedwyd fod perthynas agos rhwng y Swyddogion Cymorth a staff eraill Llywodraeth Cymru yn gweithio ar yr agenda polisi ehangach, gyda'r rhain yn cael eu hsytyried yn fwy sylweddol na'r rhai gyda'r tîm Byrddau Gwasanaethau Lleol-ESF.

Credai rhanddeiliaid cenedlaethol fod mwy o gapasiti i wella'r gefnogaeth ar gyfer Swyddogion Cymorth, er enghraifft drwy wella adborth ar adroddiadau chwarterol a blynyddol a drwy fwy o hwyluso ar gymunedau ymarfer o amgylch themâu penodol.

Fodd bynnag, awgrymodd rhai cyfweleion rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd y gallai 'perchnogaeth' y swyddog cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol gan Lywodraeth Cymru fod wedi y golygu y bu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, oedd yn ymwybodol o risg dyblygu, yn llai rhagweithiol yn nhermau

rhwydweithio a dysgu'n gysylltiedig â Byrddau Gwasanaethau Lleol nag a allai fod wedi digwydd fel arall.

### 4.3 Byrddau Gwasanaethau Lleol a Gweithio Partneriaeth

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Mae dadansoddiad o'r disgrifiadau swydd yn awgrymu bod y gwaith o roi gwasanaeth uniongyrchol i'r Byrddau a phartneriaethau eraill yn rhan allweddol o rôl y rhan fwyaf o Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Er yr awgrymodd cyfweleion bod cryn wahaniaethau rhwng gwahanol partneriaethau, daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg yng nghyswllt gweithgareddau Swyddogion Cymorth, sef:

- bod y rôl yn fwy nag un ysgrifenyddiaeth draddodiadol pwyllgor, yn aml yn cynnwys paratoi agendâu a chydlynu papurau, ac mewn lleiafrif o achosion yn hybu holl raglen waith y Bwrdd, yn ogystal â bod â rôl allweddol mewn rhai ardaloedd wrth ddatblygu gwaith is-grwpiau;
- bu gan rai Swyddogion Cymorth rôl allweddol wrth weithredu newid strwythurol i Fyrddau Gwasanaethau Lleol a phartneriaethau cysylltiedig;
- roedd llawer o Swyddogion Cymorth yn ymwneud â datblygu partneriaethau ymgysylltu, mewn rhai achosion yn ymarferol yn gweithredu fel hyrwyddwyr ar gyfer y dull yma o fewn eu hawdurdodau lleol;
- ystyriwyd bod Swyddogion Cymorth yn aml iawn (er nid bob amser mewn unrhyw ffordd) yn cael eu gweld fel dolen hanfodol ar lefel rheolaeth ganol rhwng partneriaid, yn gweithredu fel y 'glud' yn cadw partneriaethau gyda'i gilydd.

Yn nhermau canlyniadau, credai'r rhan fwyaf o'r cyfweleion fod effeithlonrwydd Byrddau Gwasanaethau Lleol unigol fel ffocws gweithio partneriaeth ac fel modur ar gyfer arferion gwella wedi cynyddu gan briodoli hyn i raddau helaeth i ymdrechion y Swyddogion Cymorth. Fodd bynnag, er y gwnaed cynnydd sylweddol mewn symleiddio cynlluniau a phartneriaethau mewn rhai ardaloedd, nid oedd hyn yn wir ym mhob man, a hyd yn oed mewn

ardaloedd lle ystyrid bod Swyddogion Cymorth yn gwneud gwaith da, roedd Byrddau Gwasanaethau Lleol weithiau'n cael eu llethu gan ystod y gweithgareddau y ceisient eu goruchwylio.

*4.3.1 Gweithgareddau ac allbynnau*

Dangosodd dadansoddiad o ddisgrifiadau swydd Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd fod pwyslais cyffredinol ar ddarparu cefnogaeth strategol lefel uwch i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn rhan greiddiol o waith y Swyddogion Cymorth. Roedd hyn yn cynnwys cryfhau rôl gwaith, gwaith ac ymwybyddiaeth o'r Byrddau, yn ogystal â datblygu gwaith partneriaeth o dan hynny. Roedd sicrhau bod y Byrddau yn gweithio'n effeithlon yn agwedd allweddol o'r rôl (e.e. wrth gynhyrchu a mireinio allbynnau allweddol fel y Cynllun Integredig Sengl) ac oddi yno gefnogi rhoi blaenoriaethau'r Byrddau ar waith drwy sicrhau fod strwythurau partneriaeth, systemau a rhaglenni gwaith addas ar gael. Medrid hefyd dybio o'r mathau o weithgareddau cyffredin a gyflwynwyd yn y disgrifiadau swydd y byddai rôl Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol hefyd yn cynnwys rheoli newid, yn cynnwys lle bo angen yng nghyswllt ffordd o feddwl a diwylliant sefydliadau partner y Byrddau.

Cadarnhaodd cyfweliadau gyda rhanddeiliaid a'r grwpiau ffocws y ffocws cryf ar waith y Byrddau Gwasanaethau Lleol ei hun ac fel y dangosir yn yr Atodiad, yn yr holl astudiaethau achos, roedd y thema hon yn rhan gymharol amlwg o ran y gweithgareddau a'r canlyniadau a ddymunid gan rôl Swyddogion Cymorth y Byrddau.

Fel y nodwyd yn Adran 4.2 uchod, roedd hyweledd a statws y Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol yng nghyd-destun y Byrddau'n amrywio'n sylweddol yn ein hastudiaethau achos. Ond hyd yn oed yn yr achosion hynny lle'r oedd y Swyddog Cymorth yn gyffredinol yn y cefndir yng nghyswllt aelodau'r Byrddau (A, D, E a F), nid oedd hyn yn golygu fod eu mewnbynnau yn weinyddol o ran eu natur: yn wir, mewn dwy ohonynt (A,E) roedd tasgau ysgrifenyddol sylfaenol megis cylchredeg papurau a chadw cofnodion yn cael eu gwneud gan dîm Ysgrifenyddiaeth/Gwasanaethau

Democrataidd y Pwyllgor tra mewn trydydd (D), gan siarad am is-grwpiau'r Bwrdd, dywedodd cyfwelai:

> 'Gall [y Swyddog Cymorth] ofyn am gefnogaeth weinyddol o fewn y grwpiau partneriaeth drwy'r partneriaid. Felly nid yw hi'n cadw cofnodion yn y cyfarfodydd'.

Credai cyfweleion yn ardal yr astudiaeth achos yma fod y sefyllfa yno yn wahanol i'r sefyllfa mewn ardal awdurdod lleol cyfagos lle dywedwyd fod y rôl yn un llawer mwy gweinyddol.

Hyd yn oed wedyn, roedd y gwerth a ychwanegwyd yn nhermau, er enghraifft hybu agenda'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn amrywio o fewn ardaloedd yr astudiaethau achos. Mewn lleiafrif, yn neilltuol B a C, roedd yn glir fod gan y Swyddog Cymorth rôl allweddol wrth hyrwyddo'r agenda a datblygu cynnwys y papurau a aeth i'r Byrddau:

> 'Weithiau gallwch fynd i gyfarfodydd ac nid ydych yn hollol siŵr pam fod rhywun yn rhoi cyflwyniad ar y pwnc, oherwydd nad yw'n wirioneddol yn ymwneud â blaenoriaethau ar y pryd. Ond nid yw hynny wedi digwydd gyda'r Bwrdd oherwydd bod pawb yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd a pham ac mae hynny oherwydd [enw'r Swyddog Cymorth]'. (Cyfwelai, astudiaeth achos B)

Mewn astudiaethau achos eraill (A, D, E ac F), ar y llaw arall, roedd y swyddogaeth yng nghyswllt y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn llawer cliriach wrth helpu i benderfynu ar agendâu a chydlynu papurau:

> 'Mae hi [y Swyddog Cymorth] yn treulio llawer o amser yn sicrhau fod yr wybodaeth gywir ar gael ar yr adeg gywir' (cyfwelai, astudiaeth achos A)
>
> 'Mae sicrhau fod y papurau cywir ar gael ar yr adeg gywir ar gyfer y cyfarfodydd cywir yn rhan allweddol o'r rôl'. (cyfwelai, astudiaeth achos D)

Roedd Swyddogion Cymorth yn yr ardaloedd astudiaethau achos - ac yn fwy cyffredinol - hefyd yn ymwneud â hwyluso a datblygu (ac mewn rhai achosion yn cadeirio ac arwain) gwaith is-grwpiau partneriaid y Byrddau Gwasanaethau Lleol (un ai grwpiau generig yn cysgodi'r Bwrdd ar lefel fwy ymarferol neu is-grwpiau thematig, weithiau'n seiliedig o amgylch partneriaethau a fodolai eisoes). I ryw raddau, eto, roedd yr astudiaethau achos hyn mewn dau faes, gyda Swyddogion Cymorth yn B a C a rôl gyda phroffi llawer uwch: yn wir, yn yr olaf, roedd y Swyddog Cymorth yn cadeirio ac yn hybu is-grŵp newydd o'r Bwrdd yn canolbwyntio ar faterion economaidd. Ond, mewn ardaloedd eraill hefyd (megis A)  roedd rôl y Swyddog Cymroth wrth hwyluso a datblygu is-grwpiau penodol yn cael ei chydnabod a'i chroesawu'n gyffredinol, tra yn F, bu gan y Swyddogion Cymorth rôl bwysig wrth sefydlu is-grwpiau, ond tueddent i beidio ymwneud â nhw unwaith yr oeddent yn weithredol.

Yn o leiaf dair o'r ardaloedd astudiaethau achos (B, C ac E) ystyriwyd bod cyrff gweithredu yn cynnwys swyddogion graddfa ganol - o amrywiaeth o adrannau awdurdod lleol yn ogystal ag o bartneriaid 'allanol' - yn hollbwysig i gynnydd y Byrddau Gwasanaethau Lleol ac a oedd i raddau helaeth yn cael eu gyrru ymlaen gan y Swyddog Cymorth. Yn C, disgrifiwyd y corff hwn fel 'y grŵp sy'n gwneud, nid y grŵp sy'n siarad'.

Mewn ardal astudiadth achos arall (A) lle'r oedd Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd rhwng dau awdurdod lleol, roedd gan y Swyddog Cymorth hefyd rôl mewn grŵp partneriaeth ar wahân o fewn ardal yr awdurdod lleol a gellid dweud fod hynny'n cyflawni rôl debyg. O ran ymgyfraniad y Swyddogion Cymorth wrth adolygu/datblygu strwythurau'r Byrddau, roedd hyn eto'n eithaf amrywiol, er yma fod y llinellau gwahanu yn tueddu i ddangos cyflwr datblygiad o fewn ardal yr awdurdod lleol yn hytrach na sgiliau neu ba mor uchel oedd gradd yr unigolyn. Felly yn B a hefyd C, lle ystyrid bod y Swyddogion Cymorth yn swyddi 'rheoli' ac yn F, lle'r oedd y staff a ariannwyd gan yr ESF yn swyddi ar raddfa llawer is, bu Swyddogion Cymorth yn weithgar iawn wrth ailstrwythuro'r Byrddau a'i is-grwpiau a rhoi trefniadau llywodraethiant addas ar waith. Yn yr achos diwethaf, roedd hyn wedi cynnwys rhoi'r gorau i drefniadau blaenorol lle bu dau gorff, Bwrdd 'craidd' a

grŵp 'cyswllt' a chreu Bwrdd Gwasanaethau Lleol unedol, a nifer o is-grwpiau i'w cefnogi. Mewn ardaloedd eraill (yn arbennig D ac E), tueddai Swyddogion Cymorth i weithio o fewn strwythurau sefydledig (ac yn achos D, strwythur eithaf soffistigedig) er yn y ddwy ardal hyn bu gan y Swyddogion Cymorth rôl allweddol wrth roi trefniadau craffu addas ar waith.

Roedd llai o dystiolaeth o ymgyfraniad Swyddogion Cymorth yn yr adolygiad perfformiad o strwythurau Byrddau Gwasanaethau Lleol eu hunain, er yn A roedd y Swyddog wedi cynorthwyo gydag 'oedi ac adolygiad' o'r Bwrdd (a oedd, fodd bynnag, wedi'i arwain gan y Cadeirydd a'i hwyluso gan hwylusydd allanol).

Roedd y grwpiau ffocws hefyd yn ystyried bod ymgyfraniad yn nhermau ymgysylltu a chyfathrebu ehangach am waith y Byrddau Gwasanaeth Lleol yn elfen allweddol o waith llawer o Swyddogion Cymorth ac yn nodwedd o rôl y rhan fwyaf o Swyddogion Cymorth yr astudiaethau achos. Yn B, lle cafodd y Bwrdd ei adfywio, roedd y staff a ariannwyd wedi hybu cyfres o sioeau teithio gyda'r nod o esbonio'r Cynllun Integredig Sengl ac yn cynnwys ystod o bartneriaid y Bwrdd, ac yn A, roedd hwyluso is-grŵp ymgysylltu yn canolbwyntio ar sicrhau mewnbwn ehangach i waith y Bwrdd yn elfen allweddol o rôl y Swyddog Cymorth, gyda'r Swyddog ei hunan yn nodi ei bod yn:

> 'angerddol am alluogi pawb i ddweud eu barn ... dydw i ddim eisiau iddo fod yn rhywbeth a gaiff ei yrru gan awdurdod lleol'.

Yn yr un modd, yn C, roedd y Swyddog Cymorth wedi arwain ar ymarferiad ymgysylltu sylweddol (gan weithio gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol) ar y Cynllun Integredig Sengl.

Ar y llaw arall, roedd ymgysylltu â'r cyhoedd yn thema llawer llai amlwg yng ngwaith Swyddogion Cymorth yn astudiaethau achos E a F, lle byddai'n ymddangos fod hyn yn fwy o gyfrifoldeb y timau cyfathrebu corfforaethol a dim ond lleiafrif o ddisgrifiadau swydd swyddogion yng Ngorllewin Cymru a'r Cyhoedd oedd yn cynnwys gwaith ymgysylltu.

Awgrymodd un rhanddeiliad cenedlaethol fod ymgyfraniad Swyddogion Cymorth mewn gwaith ymgysylltu yn dibynnu llawer iawn ar gefndir yr unigolion dan sylw, tra dywedodd un arall fod dimensiwn arall i waith y Swyddogion Cymorth ar ymgysylltu, sef codi ymwybyddiaeth o fewn arweinyddiaeth awdurdodau lleol (yn neilltuol ar ôl newid gweinyddiaeth) o bwysigrwydd gwrando ar lais y dinesydd/defnyddiwr wrth ystyried siâp darpariaeth gwasanaeth: yma ystyrid bod lleoliad y Swyddog Cymorth yng nghanolfan gorfforaethol yr awdurdod lleol yn bwysig.

Yn nhermau'r trydydd sector yn fwy penodol, er y dywedwyd mewn llawer o achosion (yn arbennig C, E a F) fod y berthynas gyda'r trydydd sector (a chynrychiolydd y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar y Byrddau Gwasanaethau lleol yn neilltuol) yn dda neu'n well, ymddangosai y bu ymgysylltu ehangach gyda'r sector yn rhan eithaf cyfyngedig o rôl y rhan fwyaf o Swyddogion Cymorth o fewn ardaloedd astudiaethau achos. Yn wir, cydnabu nifer o Swyddogion Cymorth (e.e. D a F) mai cymharol ychydig fu ganddynt i'w wneud gyda'r sector. Mae'n ddiddorol, fodd bynnag, fod cyfweleion mewn sawl achos (e.e. B, C a F) yn fwy tebygol na'r Swyddogion Cymorth eu hunain o gredu y bu gan y Swyddogion Cymorth rôl adeiladol. Yn wir, yn C, credai cyfwelai o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol fod y Swyddog Cymorth wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gael derbyniad ehangach i gysyniadau ymgysylltu â dinasyddion a chyd-gynhyrchu.

Yng nghyd-destun grŵp ffocws, tynnodd un Swyddog Cymorth sylw hefyd at her yn nhermau ymgysylltu trydydd sector gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, sef yr ystyriwyd bod y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn cynrycholi'r trydydd sector lle nad oedd hyn o reidrwydd yn gywir:

> ‘Mae ein corff seilwaith [h.y. y Cyngor Gwirfoddol Sirol] yn teimlo y dylai bopeth gael ei wreiddio drwyddyn nhw er bod rhai o'r cyrff cenedlaethol yr ydyn ni'n delio â nhw yn llawer mwy na nhw felly mewn gwirionedd mae'n cael ei reoli yn fwy ar sail ad-hoc. Mae ein corff seilwaith trydydd sector yn is-gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ond mae gwaith

> ychwanegol sy'n digwydd heb fod drwyddyn nhw'. (Aelod o grŵp ffocws)

Yn fwy cyffredinol, yn o leiaf hanner ardaloedd yr astudiaethau achos (C, D ac E), ystyriwyd bod rheoli perthynas yn rhan allweddol o rôl y Swyddog Cymorth, gyda'r Swyddog yn ddolen allweddol rhwng yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill. Felly yn C, ystyriai rhanddeiliad o fewn yr awdurdod lleol mai'r Swyddog Cymorth oedd y 'person i fynd ati' ar gyfer ymestyn allan at bartneriaid:

> ‘mae'n adnabod pobl yn yr holl gyrff perthnasol'.

I'r gwrthwyneb, yn astudiaeth achos E, ystyriai nifer o bartneriaid allanol mai'r Swyddog Cymorth oedd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ryngweithio gyda'r awdurdod lleol. Adleisiwyd hyn yn fwy cyffredinol yn y grwpiau ffocws ac mewn cyfweliadau gyda rhanddeiliaid, gyda rhai rhanddeiliaid cenedlaethol yn gweld Swyddogion Cymorth fel y cysylltiadau 'mynd atynt' ar gyfer pob mater i wneud gyda'r Byrddau Gwasanaethau Lleol. Dywedodd un a gymerodd ran mewn grŵp ffocws am Swyddog Cymorth a fu yn ei swydd am nifer o flynyddoedd:

> ‘Mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer holl bartneriaid y Bwrdd, maen nhw'n ei defnyddio fel man cyswllt o fewn yr awdurdod i ganfod cysylltiadau eraill yn y sefydliad. Maen nhw wedi adeiladu'r ymddiriedaeth honno ... bu'n adnodd ddefnyddiol iddyn nhw ... mae hyn yn cynyddu eu hymrwymiad i'r Bwrdd'.

Mewn ardaloedd o'r fath, ystyrid yn aml mai'r Swyddog Cymorth oedd y 'glud' yn nhermau'r bartneriaeth drwy adeiladu a chynnal perthynas bersonol dda ac o'r herwydd ystyriwyd bod sgiliau diplomatig yn rhan allweddol o Swyddog llwyddiannus:

> ‘Mae'n rhoi pont wirioneddol braf i sefydliadau ar lefel nad yw'n lefel y Prif Weithredwr, ond nad yw'n un weithredol yn unig'. (Cyfwelai astudiaeth achos B)

> ‘Mae ganddyn nhw [Swyddogion Cymorth] berthynas dda yn gyffredinol gyda phartneriaid ... mae'n un o'r ystrydebau hynny a ddefnyddiwn yn gyson ... mai'r rheolwyr canol yw'r broblem yn nhermau gweithio partneriaeth ... ac mae Swyddogion Cymorth yn bwysig wrth gysylltu rhannau canol sefydliadau'. (Cyfwelai rhanddeiliad cenedlaethol)

Mewn un grŵp ffocws, cytunodd cyfranogwyr fod rôl y Swyddog Cymorth yn bennaf oll yn 'alluogydd', creu a hwyluso cysylltiadau: cael y sgyrsiau 'anffurfiol, ffwrdd â hi sy'n rhan o berthynas'. Ystyriai rhywun arall yn y grŵp fod gan y Swyddog Cymorth 'rôl ddylanwadol dawel' oedd yn sicrhau fod aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cymryd rhan yn y 'gwaith beunyddiol' oedd yn ei dro yn galluogi gweithio partneriaeth mwy effeithlon. Credai trydydd mai'r agwedd hollbwysig o rôl y Swyddog Cymorth oedd:

> ‘bod â'r amser a gallu bod ar gael i fynd i'r gwahanol gyrff hynny a bod y glud rhyngddynt'.

Ar ôl dweud hyn, roedd yn aml wahaniaeth barn am hyn gan wahanol gyfweleion yn yr un astudiaeth achos. Felly yn E, teimlai'r rhai agosaf at y Swyddog Cymorth fod hyn yn rhan allweddol o'r rôl a bod y Swyddog Cymorth yn 'ffordd i mewn' i'r awdurdod lleol gan bartneriaid allanol. Er bod un neu ddau o randdeiliaid allanol gyda chysylltiadau cyfyngedig oedd yn bodoli eisoes o fewn yr awdurdod yn rhannu'r farn hon, anghytunai eraill a deimlai fod ganddynt eisoes berthynas wedi'i sefydlu gyda chysylltiadau uwch ac nad oedd angen iddynt fynd drwy'r Swyddog Cymorth.

*4.3.2 Canlyniadau*

Gan droi at ganlyniadau, yn gyffredinol, roedd cyfweleion astudiaethau achos yn gymharol gadarnhaol i ba raddau y cynyddwyd y gallu am weithio partneriaeth yn y Byrddau Gwasanaethau Lleol ac is-grwpiau yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac yn wir, nid oedd neb yn ardaloedd yr astudiaethau achos o'r farn fod gweithio partneriaeth wedi mynd yn anos neu'n fwy cynhennus, er pwysau amgylchiadau economaidd ac ariannol anodd. Lle'r oedd pethau'n gweithio'n dda, priodolid hynny fel arfer i raddau sylweddol i waith y Swyddog Cymorth (er bod cyfweleion, yn neilltuol yn C, D, E ac F, yn

tueddu i bwysleisio fod traddodiadau cadarn o weithio partneriaeth yn digwydd cyn cyflwyno'r Byrddau).

Yn wir, yn rhai o ardaloedd yr astudiaethau achos - yn arbennig B, C a D - roedd unfrydedd bod y Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi cynyddu o ran statws ac effeithlonrwydd. Felly yn B, cytunodd yr holl gyfweleion y bu gwelliant mawr yn y berthynas rhwng partneriaid y Byrddau a'r ymrwymiad i'r broses dros y ddwy i dair blynedd ddiwethaf, ffaith a briodolwyd i rannau helaeth i benodiad Swyddog Cymorth newydd (na châi ond ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru) a arweiniodd at ailstrwythuro llwyr ar aelodaeth ac is-grwpiau'r Byrddau.

> ‘Nawr dyma o ddifri yw'r man lle caiff penderfyniadau eu gwneud yn hytrach na dim ond pobl yn siarad am bethau sy'n digwydd'. (Cyfwelai astudiaeth achos B)

Yn yr un modd, yn D, credai'r holl gyfweleion fod y Swyddog Cymorth wedi cyfrannu at ffordd gryfach o feddwl partneriaeth o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a grwpiau partneriaeth, gyda chyfwelai o'r Bwrdd Iechyd Lleol yn sôn am dystiolaeth ar gyfer hyn fod 'partneriaid yn awr yn gwneud pethau heb i neb orfod mynd ar eu hôl', tra yn C teimlai'r Swyddog Cymorth ei hunan y bu'r gweithgor a weithredai o dan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac oedd yn hollbwysig wrth baratoi ei waith yn llwyddiant sylweddol:

> ‘Mae'n dod â swyddogion uchel at ei gilydd - ac mae'n bwysig eu bod i gyd ar y lefel honno - a bod y grwpiau hyn yn ymarferol yn wir hyrwyddwyr y Cynllun Integredig Sengl a gweithio partneriaeth ar draws y gwahanol bartneriaid. Y grŵp yma sy'n chwarae'r rôl o gyflawni'r amcanion a osodir gan y Cynllun Integredig Sengl ac fel grŵp mae'n gweithio'n wirioneddol dda’.

Roedd y farn yn fwy cymysg yn y tair ardal astudiaeth achos arall.

Yn A, teimlai nifer o gyfweleion, o'r tu mewn a'r tu allan i'r awdurdod lleol, fod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn dal i'w chael yn anodd canfod rôl a ffocws addas i'w hunain, er yn priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith ei fod yn gweithredu fel

corff ar y cyd mewn dwy ardal awdurdod lleol. Felly credai un partner yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol fod y Bwrdd yn 'araf i symud' a theimlai nad oedd wedi 'gweld unrhyw wahaniaeth o'r Bwrdd yn gweithio'n effeithlon', tra dywedodd un arall y gallai fod yn anodd gweld yn union beth oedd yn dod o'r Bwrdd, er yn dal i deimlo ei fod yn werth chweil fel ffordd o ddod ag ystod o bethau defnyddiol oedd yn digwydd yn yr ardal ynghyd dan un ymbarél. Golygai anawsterau o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol nad oedd wedi cymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'r graddau a ddisgwylid.

Yn yr un modd, yn F, er y teimlai'r rhan fwyaf o gyfweleion y bu cynnydd yn nhermau ymrwymiad partneriaid ers ailstrwythuro'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol tua dwy flynedd yn ôl, credai'r Swyddogion Cymorth a'u rheolwyr llinell fod 'ffordd bell i fynd o hyd', gan sôn er enghraifft fod ymdrech i ddefnyddio dolenni i wefannau aelodau'r Bwrdd wedi methu oherwydd nad oedd nifer o bartneriaid yn sôn o gwbl am y Bwrdd na gweithio partneriaeth yn gyffredinol ar eu gwefannau, ac amheuai cyfweleion o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol os oedd y Bwrdd yn gwneud unrhyw wahaniaeth go iawn yn lleol.

Yn E, er y credai cyfweleion o fewn yr awdurdod lleol y gwnaed cynnydd sylweddol yn nhermau'r ymrwymiad i weithio partneriaeth ac effeithlonrwydd hynny ('yn bendant nid yw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi sefyll yn ei unfan, mae wedi symud ymlaen'), teimlai nifer o bartneriaid allanol nad oedd cysylltiadau o fewn y Bwrdd bob amser yn dda a chredai fod ei waith yn dal i fod heb ddigon o ffocws ac yn cael ei lethu gan fân bethau, yn cynnwys cyfres o ddiweddariadau gan bartneriaid yn hytrach na rhoi cwmpas ar gyfer meddwl creadigol:

> ‘Fyddwn i ddim eisiau i'r Bwrdd ddiflannu ond rydyn ni angen dull gweithredu strategol lefel uchel sy'n canolbwyntio ar heriau nid gwasanaethau ... mae angen cael trefn ar faterion gwasanaeth ond mae angen gwneud hynny ar lefel is’ (Cyfwelai astudiaeth achos E).

Fodd bynnag, hyd yn oed yn y tair ardal astudiaeth achos yma lle nad oedd pawb yn hollol fodlon gyda gwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol, credai

cyfweleion yn gyffredinol y bu gan y Swyddog(ion) Cymorth rôl bwysig wrth symud yr agenda ymlaen:

> '[bu gan y Swyddog Cymorth rôl allweddol wrth] llunio prosesau a strwythurau y Bwrdd ... bod yn ganolbwynt ar gyfer syniadau ... fel arall ni fyddai unrhyw berson ... neb yn gyfrifol am gymryd syniad a gwneud yn siŵr fod rhywbeth yn digwydd ... mae bob amser fwlch rhwng syniadau ac adnoddau yn dod ar gael ... ac mae llawer o waith yn gysylltiedig â hynny ... mae [y Swyddog Cymorth] wedi ymwneud llawer â hynny'. (Cyfwelai astudiaeth achos A)

Cafodd y dystiolaeth o'r astudiaethau achos ei hadlewyrchu i raddau helaeth ym marn rhanddeiliaid cenedlaethol a'r adborth o grwpiau ffocws, lle teimlai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr fod eu Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gyffredinol wedi dod rywfaint yn fwy effeithlon, gyda'r Swyddogion Cymorth â rôl allweddol yn hyn.

> 'Maen nhw [aelodau'r Bwrdd] yn herio mwy, maen nhw'n deall beth yw eu rôl yn y Bwrdd gan wneud yn siŵr eu bod yn cyflawni'r blaenoriaethau ac yn dal partneriaid i gyfrif'. (Aelod o grŵp ffocws)

> 'Rydyn ni wedi medru parhau i gefnogi a datblygu'r Bwrdd fel ei fod yn dal i fod â rhaglen waith ... rwy'n meddwl y byddai'n anodd heb gael rôl a allai wneud hynny'. (Aelod o grŵp ffocws)

> 'Yn nhermau cynllunio cymunedol, maen nhw'n gyffredinol wedi gwneud cynnydd rhyfeddol dros y tair i bedair blynedd ddiwethaf'. (Cyfwelai rhanddeiliaid cenedlaethol)

Fodd bynnag, credai rhai rhanddeiliaid fod llawer o Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn dal ei chael yn anodd canolbwyntio ar y materion allweddol ac mewn perygl o gael eu llethu gyda'r dasg o wneud dim ond monitro cynnydd yn nhermau'r Cynllun Integredig Sengl a fframweithiau cynllunio eraill, yn hytrach na chanolbwyntio ar y materion anodd:

> 'Nid oes digon o sgyrsiau yn digwydd am y materion gwirioneddol anodd a sut y gall sefydliadau gydweithio i fynd i'r afael â nhw'. (Rhanddeiliad cenedlaethol)

Tueddai rhai rhanddeiliaid cenedlaethol i gredu fod partneriaid y tu allan i'r awdurdod lleol yn ystyried bod y Swyddogion Cymorth yn adnodd i'w rannu, gan felly gyfrannu at ymdeimlad o berchnogaeth o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Ond yn y grwpiau ffocws a hefyd yr astudiaethau achos roedd barn gymysg am i ba raddau y gwelid y Swyddogion Cymorth fel adnodd a gaiff ei rhannu neu na fedrid gwahaniaethu rhyngddynt â swyddogion eraill awdurdodau lleol.

Felly yn un o'r grwpiau ffocws, teimlai un cyfranogydd eu bod yn cael eu hystyried fel adnodd ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac mewn un arall teimlid 'eu bod nhw [aelodau'r Bwrdd] yn fy ystyried fel swyddog awdurdod lleol, a dyna'r cyfan'. Yn yr un modd, yn ardal un astudiaeth achos (F) ni wyddai'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid allanol a gyfwelwyd mai Llywodraeth Cymru oedd yn ariannu'r Swyddogion Cymorth:

> 'Roeddwn i wir yn meddwl eu bod nhw'n staff creiddiol .... Doedd gen i ddim syniad o gwbl mai Llywodraeth Cymru sy'n eu hariannu nhw'. (Cyfwelai astudiaeth achos F)

Ar y llaw arall, roedd rhanddeiliaid allanol mewn rhai ardaloedd astudiaethau achos eraill (e.e. B, C) yn bendant yn gweld y Swyddog Cymorth fel adnodd i'w rannu:

> 'Mae'n cael ei hystyried fel person Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac nid person cyngor'. (Cyfwelai astudiaeth achos C)

Yn B, teimlid fod y ffaith bod y ddau aelod o staff oedd yn ymwneud â chefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi dod o'r tu allan i'r awdurdod lleol yn fantais amlwg wrth feithrin y canfyddiad hwn.

Fel y nodwyd eisoes, ystyriwyd y bu gan Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol hefyd rôl bwysig mewn nifer o ardaloedd yr astudiaethau

achos (yn arbennig A, C ac F) wrth adolygu gweithrediad a strwythurau'r Bwrdd a rhoi gwelliannau ar waith, yn cynnwys systemau rheoli perfformiad a llif gwybodaeth/adroddiadau safonol: ystyriwyd bod rhoi perthynas llawer cliriach a manylach ar waith rhwng gwahanol bartneriaethau a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ganlyniad allweddol i weithgareddau'r Swyddog Cymorth yn astudiaeth achos F, er enghraifft

> 'Mae'r tîm yn bendant iawn yn ddolen rhyngddyn nhw'. [y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r gwahanol bartneriaethau oddi tano]

Ymhellach, yn D, er bod is-strwythur cynhwysfawr o bartneriaethau (thematig a gofodol) a ddisodlai drefniadau blaenorol ar waith hyd yn oed cyn dechrau'r cyfnod ariannu presennol, roedd gwaith y Swyddog Cymorth yn yr ardal hon wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar roi system adrodd yn ôl a rheoli perfformiad ar waith a gweithredu hynny (gweler hefyd Adran 4.4 islaw).

Roedd y Swyddogion Cymorth yn yr ardaloedd hyn felly wedi cyfrannu at sefydlu arferion gwella hirdymor yng ngwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol ac integreiddio ac ad-drefnu partneriaethau eraill o'u mewn.

Serch hynny, mewn rhai o ardaloedd yr astudiaethau achos, roedd materion sylweddol yn parhau am yr hyn y credai rhai partneriaid (yn neilltuol rai fel y Byrddau Iechyd Lleol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, oedd yn cwmpasu nifer o ardaloedd awdurdod lleol) oedd yn amlhau partneriaethau gwahanol ac weithiau anghydlynus. Yn astudiaeth achos E, er enghraifft, roedd uwch gyfweleion o'r awdurdodau lleol yn amheus o'r ffaith fod Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn dal i fod, a gaiff ei gyrru gan y Bwrdd Iechyd Lleol - ac yn dadlau fod hyn yn rhannol oherwydd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi egluro'r gofynion deddfwriaethol yn ddigonol. Yn yr un modd, yn A, er peth ad-drefnu ar bartneriaethau a fodolai eisoes roedd sawl haen o bartneriaeth yn dal i fod ac nid oedd y cyfan yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, sefyllfa a gymhlethwyd gan y ffaith fod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cwmpasu dau awdurdod lleol.

Roedd yn glir o'r grwpiau ffocws nad oedd y mater hwn yn anghyffredin: tra siaradodd rhai cyfranogwyr am bartneriaethau strategol blaenorol (Plant a Phobl Ifanc, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Diogelwch Cymunedol) yn cael eu plygu i mewn i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, yn o leiaf dri awdurdod (heb fod yn rhai astudiaethau achos) yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, roedd y partneriaethau hyn yn dal i weithredu'n lled-annibynnol heb i'r Swyddogion Cymorth fod â fawr o wybodaeth ohonynt neu gyswllt gyda nhw.

## 4.4 Cynllun Integredig Sengl

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Fel y gellid bod wedi disgwyl, o gofio am y ffocws cryf ar Gynlluniau Integredig Sengl yn 'Cydamcanu, Cydymdrechu', daeth gwaith yn gysylltiedig â'r Cynllun Integredig Sengl i'r amlwg o'r gwaith maes fel prif ffocws arall rôl y Swyddog Cymorth. Roedd hyn yn golygu buddsoddiad sylweddol mewn amser ac ymdrech yng nghamau cynnar y cyfnod cyllido wrth gydlynu ac mewn llawer o achosion ysgrifennu'r Cynllun Integredig Sengl ei hun, er mewn llawer o achosion ymddengys i ddata a sgiliau dadansoddi gael eu cyfrannu gan bartneriaid eraill.

Yn fwy diweddar, tybid bod y ffocws wedi symud i weithredu fel 'porthor' neu brif hyrwyddwr y Cynllun Integredig Sengl a llunio a gweithredu system rheoli perfformiad blaenoriaethau'r Cynllun, yn gyffredinol yn seiliedig ar ddull atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau. Roedd hon yn elfen o waith y Swyddogion Cymorth mewn pump o'r chwe ardal astudiaeth achos ac mewn achosion roedd yn amlwg yn brif ffocws y rôl.

Roedd y farn yn gymysg os oedd y Cynlluniau Integredig Sengl yn addas i'r diben yn nhermau gosod blaenoriaethau ystyrlon ar gyfer partneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol, a oedd ymhellach yn cael eu rhoi ar waith. Yn hanner yr ardaloedd astudiaethau achos, credai'r cyfan neu'r rhan fwyaf o gyfweleion fod y Cynlluniau yn effeithlon wrth osod blaenoriaethau a dangos yr angen am ymyriadau penodol. Roedd y farn yn fwy cymysg yn yr ardaloedd eraill, gyda chyfweleion awdurdodau lleol yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol na rhai o bartneriaid eraill.

Mewn rhai awdurdodau lleol, dywedwyd fod gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol rôl gynyddol wrth roi gwybodaeth a llunio Cynlluniau Corfforaethol, ond roedd lleiafrif cyfranwyr i'r ymchwil yn amheus i ba raddau yr oedd adrannau gwasanaethau wedi awdurdodau lleol wedi 'prynu mewn' i'r Cynlluniau Integredig Sengl.

### *4.4.1 Gweithgareddau ac allbynnau*

Gwaith o amgylch datblygu'r Cynllun Integredig Sengl oedd y maes allweddol arall o weithgaredd y soniodd bron yr holl gyfweleion yn ystod y gwerthusiad amdano ac yn wir, rhoddwyd sylw i ddatblygiad, dylunio, cyhoeddi a mabwysiadu’r Cynllun Integredig Sengl ym mhob adroddiad blynyddol sydd ar gael fel canlyniad allweddol i waith y Swyddogion Cymorth.

Yn holl ardaloedd yr astudiaethau achos, roedd y Swyddog(ion) Cymorth wedi cymryd rhan wrth ddatblygu'r Cynllun Integredig Sengl, er bod i ba raddau y digwyddodd hyn yn amrywio, yn gyffredinol yn adlewyrchu pa mor uchel oedd y Swyddog a/neu adnoddau eraill oedd ar gael i unrhyw dîm Partneriaeth ehangach. Felly, yn A lle'r oedd Cynllun Integredig Sengl hollol newydd yn cael ei ddatblygu, dywedwyd bod gan y Swyddog rôl 'gefnogol' er bwysig (yn gysylltiedig i raddau helaeth â gwaith gyda phartneriaid), gyda chydweithwyr eraill yn arwain ar ddadansoddi a drafftio. Yn C, er bod partneriaid allanol yn gweld cydlynu a hybu datblygiad y Cynllun Integredig Sengl fel rhywbeth y gwnaed y rhan fwyaf ohono gan y Swyddog Cymorth yn y cyfnod cyntaf ar ôl ei phenodi, mewn gwirionedd credai'r Swyddog Cymorth ei hunan a'i rheolwr llinell:

> ‘Mae'n debyg i ni wneud llawer ohono gyda'n gilydd yn nhermau'r gwaith yr oeddem yn ei wneud ar y Cynllun Integredig Sengl yn arbennig.

Yn D (un o ardaloedd Dwyrain Cymru), datblygwyd y Cynllun Integredig Sengl cyn i'r cylch presennol o gyllid ddod ar gael, ond y staff yn nhîm y Swyddog Cymorth oedd wedi arwain ar hyn.

Mewn mannau eraill bu datblygu’r Cynllun Integredig Sengl yn gyfrifoldeb allweddol y Swyddog Cymorth. I ryw raddau, fodd bynnag, roedd hyn yn rhywbeth a ystyriwyd yn yr ardaloedd astudiaethau achos fel bod yn rhwym i amserlen h.y. rhywbeth a fu'n brif ffocws gweithgaredd am gyfnod cymharol gyfyngedig, tra lluniwyd y Cynllun Integredig Sengl. Roedd hyn yn bendant yn wir yn F, er enghraifft, lle'r oedd rôl y Swyddog Cymorth wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar ddatblygu ac ysgrifennu'r Cynllun Integredig Sengl, yn cynnwys goruchwylio'r broses ymgynghori, yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn y

swydd a lle gwelai cyfweleion o fewn yr awdurdod lleol a hefyd y tu allan fod hyn yn allbwn allweddol o waith tîm y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Yn yr un modd, yn B, ystyriwyd bod datblygu'r dadansoddiad anghenion a datblygu Cynllun Integredig Sengl oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau a rennid gan bartneriaid allweddol yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn llwyddiant allweddol ym mlwyddyn gyntaf yn y swydd un o'r ddau swyddog a ariannwyd (yn rhannol) gan gyllid Llywodraeth Cymru, er yma, roedd y gwaith i ddatblygu'r Cynllun Integredig Sengl wedi parhau ers ei fabwysiadu'n gyntaf, gydag archwiliad i fapio gweithgareddau partneriaethau o gymharu â'r Cynllun a datblygu Cynllun Gweithredu dwy flynedd i'w gefnogi.

Yn yr un modd yn E, ystyriwyd fod datblygu'r Cynllun Integredig Sengl, yn cynnwys casglu data a dadansoddi, yn llwyddiant allweddol y flwyddyn gyntaf o gyllid ESF, lle bu paratoi'r asesiad anghenion, 'hwyluso dialog ar draws yr holl bartneriaid' a gostwng y rhestr hir o flaenoriaethau posibl a amlygwyd yng nghynlluniau a strategaethau corfforol y partneriaid i fod yn rhywbeth mwy hylaw, yn rhan allweddol o rôl y Swyddog Cymorth.

Yn yr ardal hon hefyd, ystyriwyd bod rôl barhaus y Swyddog Cymorth yn bendant iawn am 'gadw pawb â'u trwyn ar y felin' a chadw'r Cynllun Integredig Sengl yn flaenllaw yn meddwl y Cyngor a chyrff eraill - a phwysleisiodd cyfwelai o awdurdod lleol fod hynny'n bwysig o gofio am y pwysau difrifol ar gyllidebau'r awdurdod lleol a phartneriaid eraill: roedd yn rhy rhwydd o lawer i strategaethau fel hyn gael eu cadw mewn cwpwrdd, ond roedd Swyddog Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio fel cyferbwynt ar gyfer gweithredu.

Yn ymarferol, roedd y rôl 'porthor' yn cynnwys paratoi diweddariadau bob hanner blwyddyn ar gynnydd ar amcanion allweddol y Cynllun Integredig Sengl, gan ddefnyddio mewnbwn gan bartneriaid.

Roedd y pwyslais ar yr agwedd hon o'r rôl yn yr ardal astudiaeth achos yma yn dangos thema gyffredin gref iawn o astudiaethau achos eraill, sef cyfraniad

y Swyddogion Cymorth i ddatblygu a gweithredu fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer olrhain cynnydd ar y Cynllun Integredig Sengl.

Yn yr holl ardaloedd astudiaethau achos, eto gydag eithriad rhannol A, lle'r oedd adroddiadau cynnydd chwarterol yn brif gyfrifoldeb swyddog ar wahân oedd â'r dasg benodol o reoli perfformiad, roedd olrhain cynnydd a rheoli perfformiad blaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl yn rhan hollol ganolog o waith y Swyddog Cymorth.

Felly, yn D, bu prif rôl y Swyddog Cymorth yn ymwneud â datblygu system fonitro ac adrodd atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau, wedi rhaeadru drwy system gymhleth ac integredig o bartneriaethau thematig a seiliedig ar ardal, oedd yn galluogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i olrhain cynnydd a dynodi problemau. Cydnabu pawb a gyfwelwyd yn yr ardal hon y bu gan y Swyddog Cymorth rôl bwysig wrth ddatblygu ac ymestyn y system rheoli perfformiad ac, yn hollbwysig, ymwreiddio atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau o fewn partneriaid.

Yn y cyd-destun yma, pwysleisiodd cyfwelai o'r Bwrdd Iechyd Lleol yn yr ardal yma fod y Swyddog Cymorth wedi gwneud gwaith ardderchog wrth ddatblygu ac ymwreiddio arferion atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau a hefyd yn gwerthu'r cysyniad i bartneriaid yn y lle cyntaf, gan ddweud mai'r hyn fu'n allweddol fu dull gweithredu'r Swyddog Cymorth: yn hytrach na *dweud* wrth aelodau'r bartneriaeth/staff rheng-flaen beth y dylent fod yn ei gynhyrchu, roedd y Swyddog Cymorth yn gyntaf wedi rhoi dulliau clir iddynt (e.e. darparu templedi/dalenni cofnodi i gefnogi) ac felly wedi rhoi cefnogaeth barhaus i staff i gasglu'r data. Roedd y dull hwn wedi helpu i gynyddu hyder a chefnogaeth - teimlad o 'fod yn hyn gyda'n gilydd, gwneud hyn gyda'n gilydd'.

Yn yr un modd, yn C, ystyrid bod datblygu system gwybodaeth rheoli i fonitro cynnydd ar y Cynllun Integredig Sengl yn allbwn allweddol o waith y Swyddog Cymorth:

> 'Mae'n amlwg y bu'r Cynllun Integredig Sengl a'r system gwybodaeth rheoli yn llwyddiannau pwysig. Mae'r ddau wedi golygu llawer o

> fewnbwn gan y Swyddog Cymorth ac rwy'n ystyried bod y ddau yn ardderchog fel sylfaen ar gyfer llunio darpariaeth gwasanaethau.'

Yn yr ardal hon, eto, ystyriwyd bod y Swyddog Cymorth yn hollbwysig wrth gadw'r Cynllun Integredig Sengl yn flaenllaw ar agenda pobl brysur:

> ‘Roedd y Strategaeth Gymunedol, a ddaeth cyn y Cynllun Integredig Sengl, yn ddarn da o waith. Ond rwy'n credu iddo gael ei adael ar y silff tra bod pawb yn gwybod am y Cynllun Integredig Sengl. A bu gen i rôl yn hynny. Maen nhw'n fy ngalw yn Mrs Cynllun Sengl oherwydd faint o weithiau rwy'n sôn amdano! Ond mae'n ychwanegu at yr ymwybyddiaeth sy'n ei gadw ar frig yr agenda. Felly bu fy rôl yn bwysig yn y ffordd honno'.

Cafwyd sylwadau tebyg gan ystod o gyfweleion o'r tu mewn a'r tu allan i'r awdurdod lleol yn ardaloedd yr astudiaethau achos eraill:

- Yn F, roedd y Swyddog Cymorth wedi datblygu system o gardiau adrodd atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau oedd yn awr yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer adrodd ar gynnydd rhwng y gwahanol is-gyrff partneriaeth a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ei hunan;
- Yn B, fel y nodwyd eisoes, datblygwyd cynllun gweithredu'r Cynllun Integredig Sengl ac yn y dyfodol byddai'n sylfaen ar gyfer monitro cynnydd, er yn yr ardal hon, teimlai rhai cyfweleion nad oedd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi datblygu cymaint â rhai Byrddau eraill yn y rhanbarth.

Yn gyffredinol, roedd y farn a fynegwyd yn y grwpiau ffocws hefyd yn cadarnhau pa mor ganolog oedd datblygiad a monitro'r Cynlluniau Integredig Sengl yng ngwaith y Swyddogion Cymorth:

> ‘I ddechrau roedd y Cynllun Integredig Sengl yn rhan bwysig o fy ngwaith ... ysgrifennu, casglu partneriaid, gweitho gyda'r grŵp llywio, i ymgysylltu ...'

> 'Mae gallu dangos beth yw'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni a chynorthwyo i roi'r wybodaeth honno a'r sylfaen tystiolaeth yn swyddogaeth allweddol'.

Fodd bynnag, tueddai aelodau grwpiau ffocws i bwysleisio y bu'r dadansoddiad anghenion, neilltuol, yn waith ar y cyd (pwynt a gafodd hefyd ei adlewyrchu i raddau yn yr astudiaethau achos):

> ‘Roeddem yn dibynnu ar bartneriaid i gynnal ein dadansoddiad anghenion - nid dim ond un person oedd yn gwneud yn swydd, roeddem yn defnyddio gwybodaeth pobl eraill ... felly roedd eraill yn berchen arno ... roedd yn help nad oeddem wedi rhoi cynnig arno a gwneud y cyfan ein hunain'.

Ar y llaw arall, efallai bod rhanddeiliaid cenedlaethol, er yn cytuno fod monitro a rheoli perfformiad Cynlluniau Integredig Sengl yn elfen allweddol (a chynyddol) o'r rôl, efallai'n fwy amheus os, mewn llawer o achosion o leiaf, y bu'r Swyddogion Cymorth yn swyddi ar radd digon uchel i wirioneddol hybu datblygiad y Cynlluniau Integredig Sengl:

> ‘Roedd rhai Swyddogion Cymorth wedi bod â pheth ymwneud ... mae Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi gwneud rôl hwyluso ond alla i ddim meddwl am unrhyw achos lle mae'r Swyddog Cymorth mewn gwirionedd wedi arwain y broses'.

Hyd yn oed wedyn, roedd rhai rhanddeiliaid cenedlaethol yn sicr y bu rôl y Swyddogion Cymorth yn nhermau olrhain cynnydd a sicrhau fod gweithredu ar y materion a drafodwyd yn y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn hollbwysig i effeithlonrwydd y Byrddau Gwasanaethau Lleol.

### *4.4.2 Canlyniadau*

Gan droi at ganlyniadau, roedd cryn amrywiaeth ym marn rhanddeiliaid cenedlaethol, y grwpiau ffocws a'r cyfweleion astudiaethau achos am i ba raddau yr oedd y Cynlluniau Integredig Sengl presennol mewn gwirionedd yn gosod blaenoriaethau ystyrlon i'w rhannu ar gyfer partneriaid y Byrddau Gwasanaethau Lleol ac yn cael eu gwireddu.

Efallai mai rhanddeiliaid cenedlaethol oedd y mwyaf amheus, gan ddweud mewn gwirionedd fod amrywiaeth fawr yn y Cynlluniau Integredig Sengl, gyda rhai yn ardderchog ar bapur ond dim yn cael eu hadlewyrchu mewn gweithredu go iawn, eraill yn llai na hollol addas i'r diben ac yn seiliedig ar sail dadansoddol cymharol wan ac ychydig oedd mewn gwirionedd yn sylfaen ar gyfer gweithredu yn wirioneddol yn y fan a'r lle. Fodd bynnag, teimlai'r rhanddeiliaid hefyd fod Cynllun Integredig Sengl cadarn yn gyflwr angenrheidiol ond nid digonol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Lleol effeithlon.

Yn y grwpiau ffocws, hefyd, awgrymodd cyfranogwyr fod darlun cymysg, gyda rhai Swyddogion Cymorth a'u rheolwyr yn awgrymu ei bod yn ymdrech wirioneddol i sicrhau bod y Cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith.

Mewn un grŵp ffocws, teimlai cyfranogwyr ei bod yn anodd cael sefydliadau gyda gwahanol gylchoedd cynllunio ac amserlenni i wirioneddol ymwreiddio blaenoriaethau'r Cynlluniau Integredig Sengl:

> ‘Mae ceisio cael pobl i ddeall y dylai'r Cynllun Integredig Sengl mewn gwirionedd fod ar y brig ac y dylai pobl fod yn gweithio i lawr o hynny'.

Mewn grŵp ffocws arall, ystyriwyd fod gwrthodiad o fewn yr awdurdod lleol i sefydlu gweithio partneriaeth yn broblem sylweddol un ai o 'seilos' (soniwyd am addysg fel problem neilltuol) neu'n gorfforaethol: roedd un awdurdod yn lansio ei strategaeth ymgysylltu ei hun a dywedwyd bod hynny mewn gwirionedd yn dyblygu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (sefyllfa yr oedd rhai o gyfranogwyr eraill y grŵp yn gyfarwydd â hi).

Ymhellach, yn y grŵp hwn, dywedodd nifer o gyfranogwyr fod y Cynllun Integredig Sengl wedi methu gosod blaenoriaethau mewn gwirionedd:

> ‘Roedd rhestri hir o gamau gweithredu yn y Cynllun Integredig Sengl yr oedd sefydliadau unigol yn llwyr gyfrifol amdanynt, ac rwyf wedi mynnu bod y rhain yn cael eu dileu ac mae ein hunig ffocws yw'r gwaith a wneir mewn partneriaeth'.

Roedd y pwynt olaf hwn yn ymwneud â mater a gododd yn yr holl grwpiau ffocws: rhywfaint o ddryswch am rôl y Cynlluniau Integredig Sengl a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, gydag anghytuno am p'un ai oedd y bwriad polisi yn parhau i fod i Gynlluniau Integredig Sengl a chydweithio i ganolbwyntio'n unig ar 'faterion anodd' lle'r oedd angen cydweithio rhwng partneriaid y Byrddau Gwasanaethau Lleol neu p'un ai a ddisgwylid iddynt weithredu fel ymbarel yn dod ynghyd â gweithredu perthnasol i flaenoriaethau lleol, hyd yn oed lle'r oedd cyfrifoldeb yn llwyr gydag un partner (awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Lleol ac yn y blaen). Yn y cyd-destun yma, ymddangosai fod y dull gweithredu ym Mhowys lle'r oedd y Cynllun Integredig Sengl a chynllun corfforaethol yr awdurdod lleol yn cael eu huno wedi achosi pryder mewn rhai ardaloedd, er y cydnabuwyd y dylai amcanion/targedau cyffredinol yn y Cynllun Integredig Sengl gael eu rhannu ar draws cynlluniau corfforaethol pob sefydliad.

Yn nhermau'r astudiaethau achos, roedd y rhain yn gyffredinol yn cyflwyno darlun mwy cadarnhaol os oedd Cynlluniau Integredig Sengl yn addas i'r diben, yn nhermau rhoi agenda o flaenoriaethau a gaiff eu rhannu gan bartneriaid y Byrddau Gwasanaethau Lleol, ac i ba raddau yr oedd blaenoriaethau'r Cynlluniau Integredig Sengl yn cael eu gwireddu, er y gwelwyd hefyd rai amheuon gan aelodau grwpiau ffocws am faint cefnogaeth partneriaid allweddol a llwyddiant (neu ddiffyg llwyddiant) culhau blaenoriaethau'r Cynlluniau Integredig Sengl.

Yn o leiaf dair o ardaloedd yr astudiaethau achos (B, C a D), roedd y cyfan neu bron y cyfan o'r cyfweleion o'r farn fod y Cynlluniau Integredig Sengl wedi gosod agenda o flaenoriaethau cyffredin a gâi eu rhannu a dangoswyd hynny, o leiaf yn rhannol, yng nghamau gweithredu ystod o bartneriaid.

Felly, yn B, dywedodd yr holl gyfweleion fod ansawdd y Cynllun Integredig Sengl a'r dadansoddiad o anghenion oedd yn sylfaen iddo yn awr yn ardderchog ac na fedrid ei adnabod o gymharu â chynlluniau blaenorol:

> ‘Mae'n welliant mor sylweddol ar yr hyn oedd gennym o'r blaen. Mae'n gryno, mae'n berthnasol, mae'n gweithio i ni, mae'n gweithio i'n partneriaid'.

Yn yr ardal hon, roedd hefyd gonsensws cryf iawn fod y Cynllun Integredig Sengl yn llywio blaenoriaethau a gweithredoedd partneriaid yn lleol. Yn bwysig yma, roedd cynllun corfforaethol yr awdurdod lleol ei hun wedi ei alinio gyda'r Cynllun Integredig Sengl, er serch hynny, dywedodd un neu ddau o'r cyfweleion heb fod yn rhan o'r awdurdod lleol mai yn yr awdurdod lleol yr oedd lleiaf o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohono: dywedodd un ohonynt ei bod yn haws gweithio mewn partneriaeth gydag adran o fewn yr awdurdod lleol fel 'rhywun o'r tu allan' nag oedd hi i adrannau'r awdurdod lleol gydweithio fel partneriaid.

Yn yr ardal yma, priodolodd cyfweleion unwaith eto lwyddiant y Cynllun Integredig Sengl yn gryf iawn i fewnbynnau'r ddwy swyddog oedd yn cael eu rhan-ariannu gan Lywodraeth Cymru:

> ‘[heb yr arian yma], fe fyddem wedi'i chael yn anodd iawn i wneud y cynllun integredig y ddogfen berthnasol sydd ganddon ni nawr ... mae gennym Gynllun Integredig Sengl yn hytrach na bod yn rhywbeth yr oedd pobl yn teimlo ei fod yn faich neu rywbeth oedd yn bod rywle arall, mae'n rhywbeth mae pawb yn cydnabod ei bwysigrwydd, mae'n sylfaenol iawn i waith y sefydliad, gwyddom fod y partneriaid yn uniaethu'n gryf iawn ag ef’.

Yn yr un modd, yn C, roedd yr holl gyfweleion yn gadarnhaol iawn am gyfraniad y Swyddog Cymorth i ddatblygu Cynllun Integredig Sengl a deimlid oedd yn fras addas i'r diben, gan ddweud y bu ei rôl yn 'hollol hanfodol' i gynhyrchu'r Cynllun. Yma teimlid hefyd fod y system rheoli perfformiad, ynghyd â dull mwy systematig o gasglu barn dinasyddion ar wasanaethau, hefyd yn dechrau llywio penderfyniadau gweithredol, gan ymwreiddio partneriaethau mewn cyfres o ymyriadau ymarferol ar lefel ardal a thema:

> ‘Mae ynglŷn â defnyddio ymyriadau penodol go iawn i wneud newidiadau mewn darpariaeth gwasanaeth ond hefyd fel ffordd o

> annog gweithio partneriaeth. Maent yn gweithredu fel y fframwaith y gallwch ddatblygu partneriaeth arno.'

Ar yr un pryd, roedd y Swyddog Cymorth ei hun yn yr ardal yma'n bryderus nad oedd gan y Cynllun Integredig Sengl ffocws digonol, gan olygu bod yn rhaid cymhathu llawer iawn o wybodaeth rheoli:

> 'Efallai i ni golli tric drwy beidio cael pedwar neu bump blaenoriaeth a chanolbwyntio ar y rheiny ... roedd y Cynllun yn ddefnyddiol wrth ddod â phawb at ei gilydd ond nawr mae angen i ni ostwng nifer y blaenoriaethau i'w wneud i gyd yn hylaw'.

Yn D eto, ystyriwyd bod cyflwyno system rheolaeth perfformiad atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau yn rhoi data mwy manwl, cyson a chadarn yr oedd partneriaethau o dan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a chyrff unigol yn dechrau ei defnyddio i dargedu gwasanaethau. Fel y nodwyd eisoes, yn yr ardal hon, ystyrid bod y ffordd yr oedd y Swyddog Cymorth yn rhagweithiol wedi cynorthwyo i greu a gweithredu'r systemau hyn yn hollbwysig. Ar yr un pryd, awgrymodd cyfweleion bod cefnogaeth gan bartneriaid ymhell o fod yn gyffredinol gan bawb, ac nad oedd bob amser yn ymdreiddio lawr i'r rheng flaen, hyd yn oed pan oedd uwch reolwyr ag ymrwymiad.

Mewn mannau eraill, roedd y darlun a gyflwynwyd gan wahanol gyfweleion o fewn yr un ardal astudiaeth achos yn fwy cymysg.

Felly yn E, roedd cyfweleion o fewn yr awdurdod lleol a rhai o'r rhai tu allan yn credu'n gryf fod y Cynllun Integredig Sengl yn canolbwyntio ar gyfres o flaenoriaethau allweddol (yn wahanol i'r Cynllun Cymunedol blaenorol a ystyrid fel bod yn ceisio plesio pawb) ac roedd yn llunio darpariaeth gwasanaeth yn ymarferol: eto, yn yr ardal hon, fel yn astudiaeth achos B, ystyriwyd bod perthynas agos rhwng Cynllun Corfforaethol yr awdurdod a bod y Cynllun Integredig Sengl wedi llifo o hynny, a bod gan y Cynllun hwnnw felly yn uniongyrchol rôl allweddol wrth lunio camau gweithredu'r awdurdod yn lleol.

Dywedodd cyfweleion awdurdodau lleol o amrywiaeth o adrannau, er bod y Cynllun Corfforaethol mewn llawer ffordd yn dal i fod y ddogfen allweddol ar gyfer yr awdurdod - oherwydd yn sylfaenol fod 'y rheoleiddwyr' yn plismona'r ffordd yr oedd yn gwneud ei ddyletswyddau statudol - mewn gwirionedd roedd hyn yn llifo o'r Cynllun Integredig Sengl yn hytrach na'r ffordd arall o amgylch. Yn wir, dywedodd un o'r cyfweleion hynny nad oedd wedi ymwneud yn uniongyrchol gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, y bu'n gweithio ar y cynllun rheoli perfformiad ei bod yn sicr fod y Cynllun Integredig Sengl yn benllanw hyn, uwchben y Cynllun Corfforaethol, tra pwysleisiodd cyfwelai eraill bod llif drwy'r Cynllun Integredig Sengl i'r Cynllun Corfforaethol i'r blaenoriaethau cyllideb oedd yn penderfynu lle gwneid toriadau a pha wasanaethau fyddai'n cael blaenoriaeth mewn cyfnod anodd.

Yn wahanol i hynny, fodd bynnag, roedd nifer o gyfweleion o bartneriaid eraill o fewn yr un Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn amheus i ba raddau yr oedd y Cynllun Integredig Sengl yn wirioneddol yn llunio darpariaeth, yn sicr o weithgareddau eu sefydliadau eu hunain, gan ei fod yn cynnwys 'gormod o flaenoriaethau' gan fod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn dal i gael ei weld fel rhywbeth ar wahân i, yn hytrach na rhan o'r 'swydd ddydd' ac (yn rhannol oherwydd diffyg sylfaen statudol) yn llai pwysig na gwaith creiddiol.

Yn yr un modd, yn F, roedd cyfweleion awdurdodau lleol yn gyffredinol mwy calonogol am rôl a dylanwad y Cynllun Integredig Sengl na phartneriaid eraill. Felly, dywedodd uwch swyddog llywodraeth lleol y bu datblygu'r Cynllun Integredig Sengl yn gyfraniad allweddol i waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gan ei fod wedi dynodi'r anghenion a blaenoriaethau lleol ac achosi rhai ymyriadau penodol, tra bod cyfweleion eraill rywfaint yn fwy dadleuol, gan ddweud fod y ddogfen yn 'gyffredinol iawn' ac yn 'cynnwys popeth' yn hytrach na bod yn ddogfen oedd yn blaenoriaethu'r newidiadau neu gamau gweithredu allweddol oedd eu hangen:

> ‘Roedd y cynnwys yn gadarn ond nid oedd ganddo ddigon o ffocws mewn gwirionedd'.

Yn yr astudiaeth achos olaf, A, roedd cytundeb mwy cyffredinol nad oedd y Cynllun Integredig Sengl (oedd ar fin cael ei ddisodli) yn addas i'r diben gan ei fod yn ceisio cynnwys 'popeth y credem ddylai fod yno' yn cynnwys 'pethau y byddem wedi eu gwneud beth bynnag' ac nad oedd wedi llwyddo i drwytho blaenoriaethau corfforaethol, problem a waethygwyd gan y ffaith fod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gweithredu mewn ardal dau awdurdod lleol. Yn yr achos yma, disgwylid i'r Cynllun Gweithredu Sengl newydd i:

> 'ganolbwyntio ar yr hyn y dylem ei wneud gyda'n gilydd er mwyn eu gwneud yn well ... pethau anstatudol lle, os ydyn ni'n cydweithio, y gallwn ni wneud gwahaniaeth'.

## 4.5 Cyflawni a Dysgu

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Er bod y disgrifiadau swydd ar gyfer Swyddogion Cymorth yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn awgrymu y dylai ymgyfraniad gyda phrosiectau cyflawni fod wedi bod yn elfen o'r rôl, nid oedd y gwaith maes yn awgrymu fod hyn yn digwydd.

Roedd Swyddogion Cymorth yn gyffredinol yn ymwneud â chefnogi prosiectau cyflawni (oedd yn ddiwahân â'u hadnodd rheoli prosiect eu hunain fel rhan o gyllid y prosiect) i adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru/WEFO ac wrth fonitro ac adrodd cynnydd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ond ymddangosai mai cymharol ychydig o ymwneud oedd gyda datblygu prosiect neu gyda rheoli prosiect, er bod Swyddogion Cymorth yn gyffredinol yn ymwneud â grwpiau llywio.

Yn yr un modd, roedd ymgyfraniad gyda lledaenu a dysgu o arfer da yn llai o nodwedd nag y medrid bod wedi disgwyl o'r cynllun busnes gwreiddiol. Roedd rhai swyddogion yn rhoi sylw'n fewnol i straeon 'llwyddiant' o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a byddai'r potensial ar gyfer dysgu o brosiectau peilot yn cynyddu wrth i'r rhain ddod i ben, ond roedd llawer llai o dystiolaeth o barodrwydd (neu i ryw raddau, y cyfle) i rannu gwersi ar draws Byrddau Gwasanaethau Lleol.

*4.5.1 Cyfraniad at ddatblygu, cyflawni a monitro prosiectau*

Awgrymodd ein dadansoddiad o ddisgrifiadau swyddi y disgwylid i waith yn gysylltiedig â phrosiectau cyflawni ESF fod yn elfen allweddol o rôl Swyddogion Cymorth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, er mai dim ond dau adroddiad blynyddol soniodd am lwyddiant wrth weithredu prosiectau trawsnewid fel canlyniad allweddol.

Fodd bynnag, fel y gwelir o'r Atodiad, ymddangosai mai cymharol ychydig o dystiolaeth oedd o thema 'cyflawni dysgu' o fewn y model rhesymeg rhaglen yn ardaloedd yr astudiaethau achos (er ei bod yn bwysig cydnabod, wrth gwrs, nad oedd unrhyw brosiectau a arianwyd gan ESF yn B a D, yn Nwyrain Cymru). Yn nhermau gweithgareddau, mewn dwy o ardaloedd yr astudiaethau achos (B, E) dywedwyd fod datblygiad prosiectau ESF a phrosiectau cyflawni ymarferol eraill yn rhan bwysig o weithgaredd. Felly, yn E, dywedwyd cyfwelai mewn adran swyddogaethol yn yr awdurdod lleol y bu gan Swyddog Cymorth blaenorol rôl hollbwysig wrth ddynodi potensial a datblygu’r cynnig am brosiect llwyddiannus iawn a ariannwyd gan yr ESF, a dywedodd rheolwr llinell y Swyddog Cymorth y bu hefyd yn wir am nifer o brosiectau eraill hefyd.

Yn B, yn Nwyrain Cymru, bu gan un o'r Swyddog Cymorth a ran-ariannwyd hefyd rôl hollbwysig yn nhermau datblygu cais llwyddiannus ar gyfer y Gronfa Cydweithio Rhanbarthol, a ystyrid yn bwysig iawn gan yr aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol oedd yn cymryd rhan.

Mewn mannau eraill, roedd y rôl mewn *datblygu* prosiectau ESF yn llai amlwg. Yn achos astudiaeth F, roedd hyn yn rhannol oherwydd na fu'r awdurdod lleol yn awyddus i gymryd rôl arweiniol yn ESF, er bod y Swyddog Cymorth wedi cyfrannu at ddatblygu cais prosiect aflwyddiannus oedd yn mynd rhagddo heb gyllid ESF. Yn A, bu'r Swyddog Cymorth yn ymwneud â chael pethau i symud, datblygu cynlluniau prosiect amlinellol a sicrhau fod y rhanddeiliaid cywir yn cymryd rhan mewn grwpiau lleol ar gyfer darpar brosiectau cyflawni, ond ni fu'n gyfrifol am ddatblygu'r ceisiadau prosiect eu hunain (nid yn lleiaf gan fod y rhain ymhell ar y gweill erbyn i'r swyddog ddod i'r swydd). Yn astudiaeth achos C, roedd y Swyddog Cymorth wedi cael peth ymwneud â gweithgaredd datblygu prosiect, ond eto heb arwain ar hyn.

Yn fwy cyffredinol, y tu allan i fframwaith yr ESF, cymharol ychydig o dystiolaeth oedd o Swyddogion Cymorth yn ysgogi syniadau ar gyfer peilota gweithio partneriaeth ar themâu penodol, ac eithrio B a amlygir uchod.

Ni fu gan Swyddogion Cymorth fawr neu ddim cyfrifoldeb uniongyrchol ychwaith am reoli prosiect, er eu bod yn aelodau grwpiau llywio ar gyfer prosiectau cyllid ESF mewn rhai ardaloedd (e.e. A ac E).

Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, roedd rhai Swyddogion Cymorth yn yr astudiaethau achos (yn neilltuol felly eto yn A a B) yn ymwneud mwy gyda chefnogi monitro prosiectau, a ystyrid yn gyffredinol yn feichus oherwydd gofynion ESF (gydag un rheolwr prosiect yn astudiaeth achos E yn dweud fod y ffurflenni monitro yn fwy llafurus nag ar gyfer llawer o grantiau ddeg gwaith y maint). Felly, yn A, dywedodd arweinydd prosiect fod y Swyddog Cymorth wedi eu helpu 'i gadw'n daclus iawn yn weinyddol ... mae ganddi lygad dda am fanylion', gan roi 'llawer o arweiniad' i bartneriaid y prosiect yn nhermau gofynion WEFO. Teimlai y bu gan y Swyddog Cymorth ran bwysig wrth 'sicrhau ein bod yn cydymffurfio' yn nhermau'r wybodaeth fonitro ac ariannol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru/WEFO.

Yn fwy cyffredinol, hysbyswyd Byrddau Gwasanaethau Lleol am y ffocws cryf a adroddwyd yn Adran 4.4 ar reoli perfformiad yr holl Gynllun Integredig Sengl

a adlewyrchwyd mewn pwyslais ar sicrhau cynnydd yn nhermau prosiectau partneriaeth penodol.

Oherwydd hynny er, mewn llawer achos, credai'r cyfweleion astudiaethau achos fod canlyniadau gwirioneddol yn dod i'r amlwg o'r prosiectau cyflawni, oedd â'r potensial i wella darpariaeth gwasanaethau dros y tymor hwy ac i ysgogi dysgu defnyddiol yn y dyfodol (yn cynnwys rhai enghreifftiau lle bu gwelliannau o'r fath yn gynaliadwy un ai oherwydd eu bod wedi cynnwys buddsoddiad heb fod yn gylchol mewn sgiliau neu dechnoleg neu oherwydd y caiff ei brif ffrydio), credwyd mai dim ond i raddfa gymharol fach y gellid priodoli'r canlyniadau cadarnhaol hyn i fewnbynnau'r Swyddogion Cymorth.

Cytunai rhanddeiliaid cenedlaethol yn gyffredinol fod rôl Swyddogion Cymorth yn gyfyngedig yn nhermau prosiectau, ac eithrio monitro a sicrhau adroddiadau yn ôl, er y credid bod hyn wedi amrywio'n eithaf sylweddol rhwng gwahanol Fyrddau Gwasanaethau Lleol. Yn wir, dywedodd un o'r cyfweleion rhanddeiliaid cenedlaethol na chafodd materion yn ymwneud â phrosiectau ESF erioed eu codi yn y cyfarfodydd rhwydweithio y bu ynddynt.

Nid oedd hyn yn golygu nad oedd Byrddau Gwasanaethau Lleol yn canolbwyntio ar brosiectau - mewn rhai achosion dywedwyd fod hyn yn rhan allweddol o rôl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac yn wir ym marn rhai cyfranwyr roedd hyn yn peri risg i ystyriaethau mwy strategol, ac mewn prosiectau eraill Byrddau Gwasanaethau Lleol dim ond ar sail eithriad yr adroddwyd ar gynnydd i Fyrddau Gwasanaethau Lleol.

Rhoddodd y grwpiau ffocws ddarlun mwy cymysg - ac i ryw raddau ddarlun oedd yn gwrthddweud ei hunan. Mewn un grŵp ffocws, ystyrid bod gwaith yn gysylltiedig gyda phrosiectau cyflenwi'r ESF yn mynd â mwy a mwy o amser Swyddogion Cymorth, er bod hyn yn bennaf yn gysylltiedig gyda monitro yn hytrach na datblygu neu ddarparu prosiect

> ‘Yn [enw'r ardal] rwy'n mynd i bob un o Grwpiau Llywio y prosiectau a gyllidir gan ESF i helpu gwella'r cyfathrebu rhwng prosiectau a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Gallwch nodi pethau y dylid rhoi mwy o sylw

> iddynt a'u trafod yn y Bwrdd ... gallwn ddangos meysydd ar gyfer gwella a newid'.

Yn y grŵp yma, ymddangosai fod cyfranogwyr yn aml yn ystyried mai llwyddiant prosiectau a noddwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol oedd y prif beth iddynt ei gyflawni, gydag un er enghraifft yn sôn am brosiect penodol yr oeddent wedi'i gyfrannu drwy:

> 'ysgrifennu'r cais, paratoi'r achos busnes, gwaith recriwtio, cael y tîm ar yr achos, cysylltu gyda'r partneriaid ar draws y tair ardal, goruchwylio'r tîm a gwneud yn siŵr eu bod ar y trywydd cywir.'

Yn wahanol i hynny, mewn grŵp ffocws arall, teimlai cyfranogwyr yn gyffredinol mai dim ond rhan fach fu gan Swyddogion Cymorth wrth ddatblygu a chyflawni prosiectau a ariannwyd gan yr ESF: yn wir, credai un ohonynt fod hyn yn ddealltwriaeth od o'r rôl gan y credai ei fod yn canolbwyntio ar adeiladu seilwaith a diwylliant y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, tra bod gan bob un o'r prosiectau cyflawni eu rheolwr prosiect eu hunain gydag adnoddau rhesymol dda i wneud pob agwedd o'r swydd.

*4.5.2 Dysgu o arfer da*

Yn nhermau casglu arfer da a dysgu ohono, er bod hyn yn thema gwestiynu allweddol ar gyfer cyfweleion ein hastudiaethau achos, yn gyffredinol nid oedd yn thema a ysgogodd lawer o drafodaeth - un ai yng nghyswllt rhannu arfer da yn fewnol o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol neu'n allanol gyda Byrddau Gwasanaethau Lleol eraill (ac yn y cyd-destun yma, gall fod yn berthnasol mai dim ond disgrifiadau swydd lleiafrif o Swyddogion Cymorth sy'n cyfeirio'n benodol at fod rhannu arfer da yn rhan allweddol o'r rôl).

I ryw raddau, roedd hyn oherwydd, yn nhermau prosiectau cyflawni ESF o leiaf, dim ond nawr roedd canlyniadau'n dod yn amlwg, gan olygu hyd yma y bu'n gynamserol ceisio cael gwersi ohonynt. Felly, yn astudiaeth achos E, awgrymodd nifer o gyfweleion ei bod yn gymharol gynnar sôn am enghreifftiau ymarferol o rannu arfer da o'r tu fewn i'r prosiectau, gan fod y prosiectau cyflawni wrthi yng nghanol gwerthusiad (mewnol) gyda ffocws cryf

ar gasglu pwyntiau dysgu ar sut i reoli newid yn effeithlon: dywedwyd y byddai'n sicr y defnyddid hyn yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a grwpiau perthnasol eraill. Yn wir, yn yr ardal yma disgwylid y byddai'r profiad o'r prosiectau cyflawni yn arwain at lunio strategaeth datblygu sefydliad ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei gyfanrwydd.

Fodd bynnag, mewn dwy ardal astudiaeth achos (B a D), tueddai cyfweleion i gredu fod eu dulliau o weithredu fel partneriaethau yn arfer gorau eu hunain, gan olygu mai cymharol ychydig oedd ganddynt i'w ddysgu o fannau eraill. Felly yn D, roedd bron yr holl gyfweleion yn hyderus fod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cael ei ystyried ar draws Cymru fel bod yn arloesi wrth ddatblygu a rheoli strwythurau partneriaeth a system cefnogi. Yn ardal astudiaeth achos arall B, dywedodd un o'r Swyddogion Cymorth

> 'Mae gan enw awdurdod lleol] hanes hir o fod y cyntaf .. Mae'n aml yn teimlo fel lle i fynd iddo i weld beth ydyn ni'n wneud'.

Efallai bod hyn yn awgrymu rhywfaint o orffwys ar eu rhwyfau, er ei bod yn wir fod nifer o randdeiliaid cenedlaethol yn un o'r achosion hynny wedi cynnig yr awdurdod fel model arfer da.

Yn fwy cyffredinol, credai rhanddeiliaid cenedlaethol fod Byrddau Gwasanaethau Lleol, gyda mewnbwn sylweddol gan y Swyddogion Cymorth, wedi rhoi llwyfan ar gyfer codi ymwybyddiaeth o ymyriadau llwyddiannus yn lleol, a allai ac a wnaeth danio syniadau am ddulliau tebyg y gellid eu defnyddio (soniwyd am wasanaeth negeseuon testun yn hysbysu ystod eang o randdeiliaid lleol am ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol fel enghraifft) ond yn cytuno ei bod yn llawer anos trosglwyddo arfer da rhwng ardaloedd:

> ‘Dydyn nhw ddim cystal ar rannu tu hwnt i'w hardal eu hunain'

Fel y nodwyd yn Adran 4.2, talodd nifer o gyfweleion astudiaethau achos ac aelodau grwpiau ffocws deyrnged i waith tîm Byrddau Gwasanaethau Lleol-ESF Llywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru am hwyluso cyfnewid rhwng Swyddogion Cymorth a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn fwy cyffredinol.

Ond er hyn, awgrymodd y gwaith maes mai cymharol ychydig o rannu arfer da oedd wedi digwydd *ar draws/rhwng* Byrddau Gwasanaethau Lleol, er bod cryn dipyn o bethau'n gyffredin mewn rhai prosiectau peilot. Rhoddwyd nifer o resymau am hyn yn cynnwys amharodrwydd i gael eu gweld yn copïo syniadau o fan arall (y 'syndrom dim yma y cafodd ei ddyfeisio'), anhawster ailadrodd amodau a allai benderfynu llwyddiant dulliau gweithredu a'r ffaith, yng nghyd-destun y prosiect Byrddau Gwasanaethau Lleol-ESF, bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd rôl llai rhagweithiol nag y gallai fod wedi gwneud hyd yn ddiweddar.

Yn y cyd-destun yma, mae'n werth nodi fod adran 'gwersi a ddysgwyd' y 12 adroddiad blynyddol oedd mewn bodolaeth yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion proses yn ymwneud â'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn eu cyfanrwydd yn hytrach na dysgu o brosiectau neu enghreifftiau ymarferol o welliannau gwasanaeth. Felly, y rhai a nodwyd amlaf o'r gwersi oedd:

- Yr angen am fwy o adnoddau ar gyfer swyddi Swyddog Cymorth;
- Bod ymgysylltu â dinasyddion yn fwy anodd nag y gellid bod wedi disgwyl
- Yr angen i symleiddio (neu yn lle hynny gael adnoddau digonol) ar gyfer gofynion monitro/adrodd, yn neilltuol ar gyfer prosiectau ESF;
- Y gallai recriwtio staff gymryd mwy o amser na'r disgwyl;
- Y gallai gymryd mwy o amser/bod yn anos sicrhau cefnogaeth partneriaid, yn arbennig yng nghyswllt partneriaid yn rhoi adnoddau ariannol;
- Y gallai sefydlu swyddogaethau craffu priodol fod yn anos na'r disgwyl
- Y gallai gwerthuso fod yn ddefnyddiol.

### 4.6 Ymateb i Flaenoriaethau Llywodraeth Cymru

***CANFYDDIADAU LLEOL***

Credai'r rhan fwyaf o Swyddogion Cymorth nad oedd rôl Swyddogion Cymorth Byrddau Gwasanaethau Lleol fel cyfrwng ar gyfer trin ceisiadau Llywodraeth Cymru am wybodaeth neu weithredu naill ai'n arbennig o broblemus nac yn rhan neilltuol o sylweddol o'u gwaith, er i randdeiliaid cenedlaethol leisio rhai pryderon am hyn.

Yn yr un modd, yn gyffredinol roedd yr ymgyfraniad gyda, a chyfraniad at weithio rhanbarthol, yn gyfyngedig.

Roedd Swyddogion Cymorth yn gyffredinol sensitif i'r angen i ystyried cyfleoedd cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol, ond roedd y sbardunau yma'n ymwneud mwy â chyfrifoldebau statudol corfforaethol awdurdodau lleol na gofynion yr ESF.

Teimlai rhanddeiliaid cenedlaethol fod Swyddogion Cymorth yn aml yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru - weithiau'n amhriodol - fel sianel neu 'ffordd i mewn' i awdurdodau lleol a Byrddau Gwasanaethau Lleol yn fwy cyffredinol :

> ‘Mae llythyrau gan Weinidogion yn tueddu i gael eu hanfon at Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ... "beth ydych chi'n ei wneud am rannu gwybodaeth", "beth ydych chi'n ei wneud am ordewdra mewn plant", "beth ydych chi'n wneud am gam-drin domestig" ... fe allaf feddwl am o leiaf bump yn y flwyddyn ddiwethaf ... sy'n tueddu i gael eu rhoi i Gydlynydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i baratoi ymateb. Wrth gwrs, ddylai hynny ddim digwydd, dylai adrannau'r Llywodraeth fod yn ysgrifennu at y person sy'n gyfrifol am gam-drin domestig a dylai'r person yna roi rhywbeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol’[63].

[63] Mewn gwirionedd, deallwn fod yr enghreifftiau a nodwyd yn wir yn rhai lle gofynnwyd i Fyrddau Gwasanaethau Lleol arwain ond nid yn rhai y bu gohebiaeth gan Weinidog amdanynt.

Fodd bynnag, ni ddaeth hyn i'r amlwg yn y gwaith maes fel ffocws sylweddol yng ngweithgareddau Swyddogion Cymorth.

Mae'n wir fod rhai Swyddogion Cymorth yn gweld y swydd fel rhyw fath o 'pob dim i bawb' ac mewn rhai astudiaethau achos, teimlai cyfweleion fod Swyddogion Cymorth yn aml yn derbyn ceisiadau gan Lywodraeth Cymru oedd yn ymylol i'w gwaith creiddiol: soniodd cyfweleion yn astudiaeth achos E am y Cyfamod Gwasanaethau Arfog, er enghraifft, ac yn astudiaeth achos F, teimlai'r Swyddog Cymorth y bu cynnydd sylweddol mewn ceisiadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ymateb i ymgynghoriadau a rhoi gwybodaeth. Ond yn gyffredinol, ni ystyriwyd fod hyn yn broblem fawr. Felly, er enghraifft nododd y Swyddog Cymorth yn astudiaeth achos A ei bod yn debyg ei bod yn helpu i sicrhau fod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn trin blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, er na fyddai hi o reidrwydd yn ystyried ei bod yn gwneud hyn ac yn astudiaeth achos F, roedd y Swyddog Cymorth wedi arwain wrth sefydlu ffrwd gwaith Gwrthdlodi newydd mewn ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru, ond teimlai fod hyn yn berthnasol i waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Yn nhermau gweithio rhanbarthol, yn y rhan fwyaf o achosion, ystyriwyd bod gwaith Swyddogion Cymorth ac yn wir Fyrddau Gwasanaethau Lleol ar wahân i, neu hyd yn oed yn ymylol, i'r agenda rhanbarthol oedd yn datblygu. Felly, yn astudiaeth achos E, dywedodd cyfweleion yn gyffredinol fod gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar wahân i feddwl am strwythurau rhanbarthol, er bod hyn yn achosi rhwystredigaeth i rai. Yn yr un modd yn A, dywedodd un rhanddeiliad y byddai Byrddau Gwasanaethau Lleol fel y maent ar hyn o bryd yn cael eu hysgubo ymaith unwaith bod ad-drefnu llywodraeth leol yn dechrau brathu, er y credai eraill fod y profiad o fod â Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd ar draws dwy ardal awdurdod lleol - er nid bob amser yn syml - yn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer ad-drefnu o'r fath.

Roedd Swyddogion Cymorth mewn dwy ardal arall - C a D - yn cyfrannu at ddatblygu strwythurau Bwrdd Gwasanaethau Lleol traws-ffin, er nad oeddent yn arwain y broses yn y naill achos neu'r llall: yn y ddwy ardal yma, rôl bennaf

y Swyddog Cymorth oedd bwydo data a gwybodaeth i'r cyrff cyfunol oedd yn dechrau dod i'r amlwg.

Roedd cyfraniad Swyddogion Cymorth i integreiddio Byrddau Gwasanaethau Lleol i weithio rhanbarthol felly'n gyfyngedig. Credai rhanddeiliaid cenedlaethol ei bod yn debygol fod hyn yn anochel, yn neilltuol mewn ardaloedd lle gweithredent mewn nifer fawr o awdurdodau lleol, gan ddweud fod ymdrechion yn mynd rhagddynt i sicrhau fod cyfarfodydd rhwydweithio rhwng Swyddogion Cymorth yn ceisio cysylltu gyda syniadau newydd Llywodraeth Cymru am weithio rhanbarthol.

Yn nhermau themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol yr ESF, tueddai cyfweleion astudiaethau achos a chyfranogwyr grwpiau ffocws i ystyried bod y rhain wedi'u hymrweiddio yng ngwaith y Swyddogion Cymorth, ond tybient y câi hyn ei yrru nid gan yr angen am gydymffurfiaeth gyda'r ESF ond yn hytrach drwy eu sefyllfa yng 'nghanol corfforaethol' awdurdodau lleol, gyda gofynion rheoleiddiol; ehangach megis Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus â rôl allweddol a darpar ofynion Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn nhermau arferion datblygu cynaliadwy. Felly, yn astudiaeth achos E, roedd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb bellach yn arfer cyffredin oherwydd gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb, er y dywedodd un cyfwelai mewn swydd uchel fod y Cynllun Integredig Sengl yn ymarferol yn ffynhonnell ddefnyddiol iawn o ddata ar gyfer asesiadau o'r fath.

## 4.7 Effeithiau

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Gall fod yn dal rhy gynnar i gael golwg glir ar effeithiau rôl Swyddogion Cymorth. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o'r gwerthusiad yn awgrymu:

- bu gan Swyddogion Cymorth ran bwysig wrth sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol mewn llawer o ardaloedd fel elfen sylweddol yn y seilwaith cynllunio a chyflawni, er eu bod yn llai tebygol o fod yn hunangynhaliol yn niffyg cyfeiriad polisi parhaus (a chyllid) gan Lywodraeth Cymru;
- ar ei orau, dim ond dechrau dod i'r amlwg mae effaith y Cynlluniau Integredig Sengl (y credai cyfweleion y medrid ei briodoli yn rhannol i'r Swyddogion Cymorth) yn nhermau gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion; er bod llawer o gyfweleion yn optimistig fod gan y Cynlluniau Integredig Sengl y potensial i arwain at ganlyniadau o'r fath;
- i'r graddau y gallai prosiectau peilot arwain at brif ffrydio dulliau mwy effeithol o ddarparu gwasanaethau (nad yw'n glir eto), mae'n debyg y bydd priodoliad Swyddogion Cymorth i hyn yn eithaf bach;
- cymharol ychydig o effaith a gafodd Swyddogion Cymorth yn nhermau'r agenda rhanbarthol.

Fel y nodwyd eisoes yn Adran 3, mae'n her o gofio am gymhlethdod yr amgylchedd y mae Swyddogion Cymorth yn gweithio ynddo i briodoli canlyniadau'n uniongyrchol iddynt ac felly sefydlu effaith yr ymyriad hwn. Ymhellach, dim ond yn yr hirdymor y daw effeithiau i'r amlwg a gyda Byrddau Gwasanaethau Lleol (a hyd yn oed fwy y Cynlluniau Integredig Sengl) yn dal yn gymharol newydd, mae angen pwysleisio ei bod yn debyg nad oes darlun cyflawn ar gael hyd yma.

Fodd bynnag, fel y gwelwyd, yn neilltuol yn Adran 4.3 ymddengys fod y Swyddogion Cymorth wedi gwneud cyfraniad sylweddol at sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol fel rhan allweddol o seilwaith cynllunio a darparu gwasanaethau. Yn sicr, ymhlith ein hardaloedd astudiaethau achos,

ymddengys bod y Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi ennill eu plwyf ac yn cael eu derbyn yn o leiaf bedair (B, C, D ac E), ac mewn tair ohonynt (B, C, D) yn ogystal â F, ymddangosai fod partneriaethau eraill wedi integreiddio'n effeithlon dan fantell y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Byddai'n ymddangos fod tystiolaeth o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid yn awgrymu nad yw'r darlun hwn yn annodweddiadol, er bod y sbectrwm yn nhermau effeithlonrwydd Byrddau Gwasanaethau Lleol yn eithaf mawr.

Mae i ba raddau y mae'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gynaliadwy, fodd bynnag, yn fwy ansicr: mewn llawer o ffyrdd, ymddengys fod cefnogaeth partneriaid yn dal i ddibynnu ar arwyddion clir gan Lywodraeth Cymru am y pwysigrwydd y mae'n ei rhoi i'r dull yma o weithio (a gaiff wrth gwrs ei atgyfnerthu pan fydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymarferol yn rhoi cyrff tebyg ar sail statudol) ac fel y gwelir yn Adran 4.9, mae cwestiynau'n dal i fod am barodrwydd awdurdodau lleol a phartneriaid i roi hyd yn oed yn eithaf cynnil o'u hadnoddau eu hunain i gynnal eu gweithrediad.

Yn nhermau Cynlluniau Integredig Sengl, unwaith eto mae'r dystiolaeth o'r astudiaethau achos yn gadarnhaol gan fwyaf, gyda rhanddeiliaid yn yr holl astudiaethau achos heblaw un (A) yn teimlo fod y Cynlluniau Integredig Sengl - er y gellid eu gwella - yn rhoi asesiad seiliedig ar dystiolaeth o anghenion yr ardal a aeth beth ffordd i fanylu blaenoriaethau, gyda threfniadau rheoli perfformiad addas yn eu lle i olrhain cynnydd arnynt. Eto, tybid y bu gan Swyddogion Cymorth rôl bwysig wrth alluogi Byrddau Gwasanaethau Lleol i ddatblygu'r pwynt yma ac eto nid yw ein tystiolaeth ehangach yn awgrymu fod ein hastudiaethau achos yn annodweddiadol.

Serch hynny, roedd llai o dystiolaeth o'n gwaith maes bod y Cynlluniau Integredig Sengl yn arwain - o leiaf hyd yma - at well canlyniadau ac yn fwy penodol at wasanaethau oedd yn canolbwyntio mwy ar y dinesydd. Teimlai rhai rhanddeiliaid cenedlaethol fod enghreifftiau lle'r oedd gwaith partneriaeth cryf a Chynlluniau Integredig Sengl cadarn yn arwain at newidiadau ymarferol mewn darpariaeth gwasanaeth, efallai'n fwyaf arbennig yng nghyswllt

gwasanaethau plant a theulu a phobl hŷn - er fod y rhain yn dal i beidio bod yn gyffredinol i bawb.

Yn nhermau'r astudiaethau achos, mewn rhai achosion - er enghraifft, yn astudiaethau achos B a D - roedd cyfweleion yn hyderus bod data yn helpu i fireinio a thargedu ymyriadau mewn ffordd fwy addas, a soniwyd am nifer fach o enghreifftiau penodol iawn lle'r oedd gwaith yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (a hwyluswyd gan y Swyddog Cymorth) wedi arwain at wella gwasanaethau: er enghraifft, yn astudiaeth achos C, lle'r oedd gwaith mewn is-grŵp o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi arwain at i'r coleg addysg bellach lleol ddefnyddio dulliau newydd i drin presenoldeb, gan ddefnyddio profiadau adran addysg yr awdurdod lleol.

I raddau helaeth, felly byddai'n ymddangos ei bod yn rhy gynnar dod i gasgliad os bydd y gwelliannau hyn i'r 'sgaffaldau' yn arwain at welliannau gwasanaeth yn y fan a'r lle.

Gan droi at y canlyniadau posibl o'r prosiectau peilot yn nhermau gwireddu a phrif ffrydio arbedion, unwaith eto gellid dadlau ei bod yn rhy gynnar dod i gasgliadau ar hyn, gan mai dim ond nawr yr oedd prosiectau'n dod i ben. Fodd bynnag, er y cyflwynwyd llawer o dystiolaeth gadarnhaol yn yr astudiaethau achos o brosiectau penodol y dywedwyd eu bod yn cyflawni'n dda, fel y nodwyd yn Adran 4.5, mae'n debyg fod i ba raddau y gellir priodoli llwyddiannau o'r fath i'r Swyddogion Cymorth yn eithaf cyfyngedig. Ymhellach, mae'n rhy gynnar i roi barn i ba raddau y caiff unrhyw arbedion a ddynodir eu prif ffrydio - ac i ryw raddau gall y diffyg tebygol o ymrwymiad cryf i rannu arfer da ar draws yn ogystal ag o fewn Byrddau Gwasanaethau Lleol awgrymu risg na chaiff postensial llawn arbedion o'r fath eu gwireddu.

Yn olaf, yn nhermau gweithio rhanbarthol, fel y nodwyd yn Adran 4.6, ymddengys mai cymharol gyfyngedig fu cyfraniad Swyddogion Cymorth at yr agenda yma.

## 4.8 Ffactorau Galluogi a Rhwystrau

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Awgrymodd y gwaith maes nifer o ffactorau a helpodd i benderfynu llwyddiant neu fel arall Swyddogion Cymorth wrth gyflawni eu rôl.

Ystyrid fod sgiliau a nodweddion personol yr unigolion a recriwtiwyd yn ffactor alluogi allweddol, er y cydnabuwyd nad oedd hyn yn ddigonol i oresgyn rhwystrau strwythurol/diwylliannol, er y teimlid bod trosiant staff (yn rhannol fel canlyniad i gontractau tymor sefydlog oherwydd cyllid ESF) a diffyg cydnerthedd a ddaeth (yn y rhan fwyaf o achosion) o ddibynnu ar un swyddog, yn tanseilio argoelion llwyddiant.

Hefyd ystyrid bod cynrychiolaeth anghyfartal gan bartneriaid ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn ffactor oedd yn tarfu ac roedd hynny'n gysylltiedig gyda maint yr ad-drefnu a'r ailstrwythuro a ddigwyddodd a'r ffaith fod llawer o bartneriaid yn gweithredu mewn ardaloedd ehangach na Byrddau Gwasanaethau Lleol ac yn cael anhawster gyda lefel yr ymrwymiad oedd ei angen, yn aml ar draws nifer o Fyrddau Gwasanaethau Lleol.

Fodd bynnag, y prif rwystr y soniwyd amdano (mewn rhai ardaloedd) oedd nad oedd digon o gefnogaeth gorfforaethol i benderfyniadau a blaenoriaethau'r Byrddau Gwasanaethau Lleol ar ran adrannau gwasanaethau awdurdodau lleol a phartneriaid yn fwy cyffredinol, gyda rhai cyfweleion yn cysylltu hynny â diffyg sylfaen statudol.

Roedd gwahaniaeth barn os oedd cynildeb ac effaith toriadau yn y gyllideb yn arwain at barodrwydd i arloesi (gan felly sbarduno ymrwymiad i Fyrddau Gwasanaethau Lleol) neu, i'r gwrthwyneb, yn arwain at i bartneriaid gilio i safiad mwy amddiffynnol. Fodd bynnag, roedd cytundeb cyffredinol fod partneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol yn amharod i gronni adnoddau a bod hyn yn gyffredinol yn rhwystr i weithredu effeithlon.

O ran y ffactorau galluogi a rhwystrau sydd wedi dylanwadu ar lwyddiant neu ddiffyg llwyddiant Swyddogion Cymorth mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol, daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg o'r gwaith maes.

Roedd y cyntaf yn ymwneud â sgiliau a nodweddion yr unigolion a gafodd eu recriwtio fel Swyddogion Cymorth: mewn llawer o achosion, credai cyfweleion, yn cynnwys rhanddeiliaid cenedlaethol fod calibr ac ymrwymiad Swyddogion Cymorth yn uchel, a soniwyd bod sgiliau dadansoddi, trefnu a rhwydweithio/trin pobl yn bwysig:

> ‘Mae'r ystod sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen yn amrywiol iawn ... mae'n fy rhyfeddu fod y Partneriaethau wedi llwyddo i wneud cystal wrth ddod o hyd i 22 o bobl a all wneud hynny'. (Cyfranogydd grŵp ffocws)

Yn y cyd-destun hwn, tanlinellodd rhanddeiliaid cenedlaethol bwysigrwydd gallu dadansoddol, nid yn unig ar ran yr unigolion ond hefyd yn gorfforaethol, i lwyddiant y Byrddau Gwasanaethau Lleol - a nodwyd y cafodd y galluoedd hyn eu gostwng fel canlyniad i doriadau mewn adrannau megis cynllunio.

Roedd thema'r angen am sgiliau amrywiol yn un gyffredin gyda rhai cyfweleion mewn un ardal astudiaeth achos (D) yn dweud fod y rôl yn rhy eang ar gyfer unrhyw un unigolyn ac aelodau mewn grŵp ffocws yn awgrymu fod y ffordd yr oedd y rôl yn amrywio mewn gwahanol ardaloedd yn adlewyrchu tueddiad naturiol i unigolion a'u rheolwyr llinell ddefnyddio eu cryfderau:

> ‘Mae gan rai ohonom well sgiliau mewn rhai meysydd nag eraill a gallai fod mai'r rheswm mae rhai wedi canolbwyntio ar feysydd neilltuol yw mai oherwydd mai'r fan honno maent gryfaf'.

Fodd bynnag, nid oedd cryfderau yn ddigon ynddynt eu hunain i oresgyn rhwystrau strwythurol, yn neilltuol lle nad oedd perthynas dda rhwng partneriaid allweddol:

> ‘Gallaf feddwl am leoedd lle mae pobl dda mewn swydd ond mae problemau lleol, diwylliannol, gwleidyddol neu systemig/gorfforaethol

> yn eu gwneud yn rhwystredig, lle maen nhw'n rhwystredig wrth geisio gwneud i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol berfformio’n effeithlon'. (Cyfweliad rhanddeiliad cenedlaethol)

Sylwyd mewn rhai ardaloedd astudiaethau achos lle'r oedd cyfweleion yn gyffredinol yn canmol gallu'r Swyddog Cymorth (er enghraifft,  yn astudiaeth achos A lle siaradodd un rhanddeiliad dros lawer drwy ddweud bod (mae (y Swyddog Cymorth] yn unigolyn eithriadol'), nad oedd hyn ddigonol i arwain at ganlyniadau cryf, tra dywedodd rhanddeiliad cenedlaethol arall fod Bwrdd Gwasanaethau Lleol llwyddiannus angen arweinyddiaeth wleidyddol gref, partneriaid oedd ag ymrwymiad gwirioneddol a Swyddog Cymorth da - a'i bod yn anodd ynysu rôl yr olaf o'r rhain yn unig o'r ffactorau eraill.

Ffactor arall oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Swyddog Cymorth unigol oedd pa mor hir y buont yn y swydd, gyda chyfranogwyr mewn un grŵp ffocws yn awgrymu mai lle bu parhad yn nhermau'r unigolyn yn llenwi'r swydd y bu'r canlyniadau mwyaf cadarnhaol yn gyffredinol.

Ystyrid bod hwn yn fater oedd yn achosi problem yng nghyd-destun cyllid ESF, oherwydd y rheidrwydd am gontractau tymor sefydlog: dywedwyd fod hyn wedi arwain yn uniongyrchol mewn rhai achosion at drosiant uchel mewn staff, gan fod deiliaid swyddi yn tueddu i edrych am swyddi gyda mwy o sicrwydd, yn neilltuol ar amser o bwysau ar gyllidebau:

> ‘Allwch i ddim cystadlu gyda swyddi rheng-flaen ar sail barhaol mewn gwasanaethau cymdiethasol neu beth bynnag'. (Aelod o grŵp ffocws).

Yn y cyd-destun hwn, roedd adroddiadau blynyddol nifer o Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn dangos effaith negyddol oedi mewn prosesau recriwtio, a soniodd rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd am faterion gallu a chydnerthedd: o gofio'r adnoddau cyfyngedig iawn oedd ar gael yn aml, yna gallai unigolyn ar absenoldeb salwch hirdymor gael effaith sylweddol.

Ynghyd â sefydlogrwydd personél o fewn swyddi Swyddogion Cymorth, mater arall a nodwyd (yn fwyaf aml fel rhwystr i Swyddogion Cymorth weithredu'n

effeithlon) oedd cysondeb neu ddiffyg cysondeb yn nhermau cynrychiolaeth, yn neilltuol ar bartneriaid tu allan i'r awdurdod lleol, ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol:

> 'Mae gweithio partneriaeth ar drugaredd pwy bynnag sy'n cymryd rhan ar y pryd ... mae'n wahanol bob dydd, yn dibynnu pwy sydd yno'. (Cyfwelai astudiaeth achos B)

Ystyriwyd bod ad-drefnu (e.e. o Fyrddau Iechyd Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Gwasanaeth Prawf) ac ailstrwythuro'r heddlu gydag ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi cyfrannu at ddiffyg sefydlogrwydd mewn aelodaeth o'r Byrddau Gwasanaethau Lleol. Ystyrid bod hynny wedi tarfu ar eu gwaith, ac ystyriwyd hefyd fod y ffaith fod llawer o bartneriaid allweddol yn gweithredu mewn ardaloedd sylweddol fwy nag awdurdodau lleol unigol hefyd yn cyfrannu at hyn. Felly, mewn ardal un astudiaeth achos (E), roedd cyfweleion yn bryderus fod cynrychiolaeth y Bwrdd Iechyd Lleol ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn dod o dîm ardal na thybid fod ganddo gysylltiadau da gyda'r ganolfan gorfforaethol, ac mewn ardal arall (A) credid bod y ffaith nad oedd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol 'strwythur isranbarthol' yn broblem, gan arwain at bresenoldeb anghyson. Mewn trydedd ardal (B), roedd ailstrwythuro'r Cyngor Gwirfoddol Sirol wedi arwain at ddiffyg parhad sylweddol yn ymgysylltiad y trydydd sector.

Yn gysylltiedig â hyn roedd barn a fynegwyd gan rai cyfweleion (yn cynnwys rhai gyda phrofiad o nifer o Fyrddau Gwasanaethau Lleol) fod Byrddau Gwasanaethau Lleol llai yn tueddu i weithredu'n fwy effeithlon. Yn wir, nodwyd mai Byrddau Gwasanaethau Lleol bach (dim mwy na deg aelod) oedd gan astudiaethau achos (B, C, D) lle ymddangosai fod y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gweithredu'n fwyaf effeithlon. Yn amlwg, fodd bynnag, gall fod cyfaddawd yn nhermau cyfleoedd a gollwyd o allgau rhai partneriaid posibl a/neu ddrwgdeimlad ar ran y rhai sydd wedi eu 'hallgau'. Yn y cyd-destun yma, mae hefyd yn werth nodi yn astudiaeth achos B, y teimlwyd y bu'r profiad o gael Bwrdd Gwasanaethau Lleol craidd gyda grŵp ymgynghori ehangach yn fethiant.

Fodd bynnag, y ffactor allweddol y soniodd llawer o gyfweleion amdani fel bod yn rhwystr posibl oedd diffyg cefnogaeth gan y swyddogion uchaf (ac arweinyddiaeth wleidyddol):

> ‘Rwy'n credu mai un o'r rhwystrau yw peidio cael cefnogaeth ddigonol ar y lefel gywir o fewn canolfan gorfforaethol yr awdurdod lleol ... maen nhw angen rhywun ar lefel pennaeth gwasanaeth/cyfarwyddwr i wrthio'r neges. (Cyfwelai rhanddeiliad cenedlaethol).

Teimlwyd yn gyffredinol mai cyfleoedd cyfyngedig oedd gan Swyddogion Cymorth i ddylanwadu ar hyn, er y soniwyd am ddwy enghraifft, un yn ardal astudiaeth achos (D) ac un mewn awdurdod lleol arall, lle tybiwyd fod Swyddogion Cymroth wedi gweithredu'n llwyddiannus fel hyrwyddwyr mewnol cryf ar gyfer gweithio partneriaeth.

Yn wir, er y farn gyffredinol gadarnhaol o'r gwaith maes ar gyflwr pethau ar lawer o'r Byrddau Gwasanaethau Lleol (ac yn arbennig, y farn y bu yn y rhan fwyaf o achosion fomentwm cadarnhaol ymlaen mewn blynyddoedd diweddar, i raddau helaeth oherwydd mewnbwn y Swyddogion Cymorth), serch hynny teimlai llawer o gyfranwyr fod yr ymrwymiad i dynnu gwersi o, a gweithredu ar, faterion yn dod i'r amlwg o'r Cynllun Integredig Sengl a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ddarniog.

Yn wir, yn un o'r grwpiau ffocws, roedd yr aelodau yn unfrydol wrth gytuno mai'r rhwystr mwyaf i wneud llwyddiant o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol oedd diffyg perchnogaeth ehangach o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol o fewn eu hawdurdod eu hunain, teimlad nad yw penaethiaid gwasanaeth, aelodau etholedig a hyd yn oed aelodau Byrddau Gwasanaethau Lleol 'yn ei deall hi'. Yn neilltuol, roedd cyfranogwyr yn teimlo'n gryf mai ychydig o ddealltwriaeth o'r hyn oedd angen i wneud i bartneriaeth weithio:

> ‘Dywedodd un o'r aelodau wrthyf 'dydych chi'n ddim mwy nag ysgrifenyddion gydag enw crand"'.

Yn fwy cyffredinol, yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd astudiaethau achos (A, D, E, F) soniodd o leiaf rai o'r cyfweleion am broblem nad oedd gan bartneriaid unrhyw wir ymrwymiad i weithredu penderfyniadau'n deillio o'r Bwrdd

Gwasanaethau Lleol - na medru ysgogi eu sefydliadau eu hunain i wneud hynny.

Felly yn C, awgrymodd nifer o gyfweleion (o'r tu mewn a'r tu allan i'r awdurdod lleol) y bu'r partneriaid yn araf i roi eu cefnogaeth lawn i gysyniad gweithio partneriaeth: roedd gormod yn dal i ystyried hynny fel rhywbeth ychwanegol i'w rôl yn hytrach na rhywbeth canolog iddi. Yn yr un modd, yn astudiaeth achos F teimlai cyfwelai er bod partneriaid yn dangos ymrwymiad i gydweithio mewn cyfarfodydd, bod llai o dystiolaeth o'r ymrwymiad hwnnw'n cael ei roi ar waith rhyngddynt.

Yn yr un modd yn E, dywedodd cyfwelai o'r tu allan i'r awdurdod lleol er bod dal y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i dasg ar symud ymlaen â'i flaenoriaethau yn rhan allweddol o rôl y Swyddog Cymorth, bod diffyg sylfaen statudol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn tanseilio'r awdurdod i wneud hynny - golygai hyn na allai orfodi sefydliadau unigol i gyflawni: fel canlyniad, nid yw gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol 'yn cael cymaint o flaenoriaeth' â rhai dyletswyddau eraill - tueddai i gael ei weld fel rhywbeth yn ychwanegol at y swydd ddydd ac roedd yn anodd weithiau mynd yn ôl â'r negeseuon holistig o'r Cynllun Integredig Sengl i waith beunyddiol pan oedd gwahanol bwysau. Adleisiwyd yr un pwynt gan gyfweleion eraill yn yr un ardal astudiaeth achos: teimlai un fod diffyg cydnabyddiaeth fod yr hyn a lifai o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn rhan o'r 'swydd ddydd' yn rhwystr allweddol, a chredai un arall ei bod yn anodd i'w sefydliad roi blaenoriaeth ddigonol i bethau oedd yn llifo o'r Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Roedd mater diffyg sail statudol ar gyfer gwaith Byrddau Gwasanaethau Lleol (a gaiff wrth gwrs ei ddatrys gan Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)) hefyd yn gysylltiedig â barn rhai cyfweleion fod y fframwaith cyfreithiol cyffredinol yr oedd Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gorfod gweithredu ynddo yn peri anawsterau. Yn neilltuol, yn yr un ardal astudiaeth achos, credai cyfweleion awdurdodau lleol yn gryf fod y ffaith fod gofynion statudol yn parhau ar gyfer partneriaethau eraill (fel y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant) yn ei gwneud yn anos symleiddio cynlluniau lleol (er

y cydnabuwyd bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu y gellid cyflawni gofynion o'r fath drwy'r Cynllun Integredig Sengl), tra gwnaeth cyfranogydd mewn grŵp ffocws bwynt tebyg:

> ‘Mae gwrthdaro rhwng deddfwriaeth yn dod o Gaerdydd sy'n cyfyngu'r hyn y gallwn ei wneud yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol - mae gan y Bwrdd Iechyd, y Cyngor ac eraill eu deddfwriaeth eu hunain y maent yn gorfod gweithio o'i fewn ... byddai'n gwneud ein bywyd ein haws pe bai gwneuthurwyr polisi yng Nghaerdydd yn gwneud pethau'n fwy cydnaws'.

Yn ychwanegol, rydym hefyd wedi nodi (Adran 4.4) y teimlai o leiaf rai cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws fod diffyg eglurdeb am fwriad polisi Llywodraeth Cymru os dylai Cynlluniau Integredig Sengl ganolbwyntio ar faterion allweddol lle bod angen gweithio partneriaeth ar ben swyddogaethau statudol partneriaid allweddol neu os dylai geisio rhoi ymbarel ar gyfer gweithgareddau'r holl bartneriaid (gan fellly fod yn fwy cydnaws gyda chynlluniau corfforaethol sefydliadau unigol). Roedd hyn yn ei dro yn ymwneud â phryder pellach a leisiwyd gan gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a rhai cyfweleion astudiaethau achos y gallai'r holl broses yn rhwydd gael ei llethu gan faint yr adroddiadau sydd ei hangen i olrhain cynnydd.

Nid yw'n syndod i bwysau cyllidebol hefyd ddod i'r amlwg fel ffactor cyd-destun allweddol, gyda thystiolaeth gymysg am i ba raddau yr oedd hyn, ar y naill law, yn hybu parodrwydd i arloesi a chanfod ffyrdd newydd o drin anghenion (gyda rhanddeiliaid cenedlaethol yn gyffredinol yn teimlo y dylai hyn fod yn digwydd, ac un yn dadlau 'does dim amheuaeth bod toriadau hybu arloesedd, mae tarfu yn hybu arloesedd') neu ar y llall, yn gwneud awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn amddiffynnol (e.e. yn nhermau cymryd risgiau).

Mewn nifer o'r ardaloedd astudiaethau achos, cafodd y ddwy farn hyn eu mynegi gan wahanol randdeiliaid. Felly, yn F, roedd y Swyddogion Cymorth a rhai cyfweleion eraill o awdurdodau lleol yn gyffredinol galonogol, gan ddweud bod pwysau ar y gyllideb yn cynyddu diddordeb yn sut y gellid darparu

gwasanaethau'n fwy effeithiol ar y cyd, ond roedd sefydliadau partner yn tueddu i herio'r farn hon, gan ddadlau fod toriadau'n golygu fod staff wedi cymryd mwy o waith a/neu gyfrifoldeb a olygai fod ganddynt lai o amser ac anoddau i'w hymroi i waith partneriaeth:

> ‘Mae'n bendant iawn yn fater o gau'r hatsys ar hyn o bryd.

Yn yr un modd, yn E, roedd rhai rhanddeiliaid yn obeithiol y byddai pwysau ariannol yn arwain yn y tymor hwy at ddatrysiadau creadigol, ond dywedodd eraill bod y ffaith bod yr awdurdod lleol yn canolbwyntio gymaint ar drin y toriadau ac osgoi diswyddiadau gorfodol yn tynnu sylw oddi wrth agendâu strategol fel y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Ymhellach, yn yr ardal hon, credai rhai cyfweleion o'r awdurdod lleol mewn cyfnod o doriadau, bod cyrff sector cyhoeddus yn rhoi blaenoriaeth fwyfwy ar gyflawni dyletswyddau statudol a sicrhau na ellid eu herio'n gyfreithiol yn y cyswllt hwn - oedd yn tanseilio'r ffocws o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Cynllun Integredig Sengl ar fesurau ataliol a datrysiadau hirdymor.

Yn C, dywedwyd er bod 'edrych ar i mewn' yn ymateb dechreuol i bwysau ariannol, roedd y Swyddog Cymorth yn dechrau ennill cefnogaeth ar gyfer y farn y gallai gweithio partneriaeth gynnig o leiaf ran o'r datrysiad i'r toriadau, tra ar drywydd tebyg, teimlai'r Swyddog Cymorth yn D fod toriadau cyllideb wedi gwneud i rai pobl gilio ychydig o'r broses Bwrdd Gwasanaethau Lleol wrth geisio diogelu'r hyn mai nhw oedd ei 'piau' rhag ofn ei golli, ond mewn achosion eraill roedd wedi agor llygaid partneriaid i'r hyn y gellid ei wneud gyda'i gilydd ac wedi rhoi pwysau ar eraill i wneud yn yr un modd.

Mewn gogwydd diddorol ar hyn, dywedodd nifer o gyfweleion yn un o'r astudiaethau achos yn Nwyrain Cymru (B) fod diffyg mynediad i gyllid ESF a chyllid allanol arall yn fanteisiol oherwydd ei fod wedi hybu cydweithredu. Felly dywedodd un bod sefydliadau sector cyhoeddus mewn ardaloedd eraill wedi'i chael yn haws i gyrchu cyllid allanol a all:

> 'Weithiau fod yn rhwystr i waith partneriaeth gan nad oes angen iddyn nhw, fe allan nhw ddarparu gwasanaethau eu hunain. Ni allwn ni ei ddarparu os nad ydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill ac

> mae hynny wedi rhoi troedle cadarn iawn i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol'.

Ffactor arall yn gysylltiedig â phwysau ariannol lle'r oedd y farn yn fwy cyson oedd diffyg adnoddau ariannol oedd ar gael yn uniongyrchol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Tueddai cyfranogwyr mewn grwpiau ffocws a chyfweleion astudiaethau achos i dynnu sylw at anhawster cael partneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol i gronni adnoddau, hyd yn oed mewn ffordd fach, ac roedd hyn hefyd yn ffactor a amlygwyd mewn nifer o Adroddiadau Blynyddol :

> 'Rwyf wedi sylweddoli fod unrhyw sôn am dalu am rywbeth ar y cyd - hyd yn oed £200 am wefan - yn lladd trafodaeth yn gelain'. (Aelod o grŵp ffocws)

Nid oedd yn ymddangos mewn unrhyw un o ardaloedd yr astudiaethau achos fod unrhyw gyllidebau ar y cyd i gefnogi gweithrediad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei hanfod.

### 4.9 Y Dyfodol

***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Credai mwyafrif llethol y cyfranwyr i'r gwerthusiad fod angen peth cyllid parhaus wedi'i neilltuo ar gyfer rôl Swyddog Cymorth, er y tueddai rhanddeiliaid cenedlaethol i weld hyn fel mesur dros dro yn unig nes bod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn dod i rym. Yn ardaloedd ein hastudiaethau achos, ymddangosai'n debygol, heb gyllid o'r fath, y byddai swyddi'n cael eu torri, gyda phartneriaid yn amharod i gyfrannu at eu cynnal .

Mae amharodrwydd partneriaid i gyd-ariannu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn codi cwestiwn am ddyfnder yr ymrwymiad i'r Byrddau Lleol a gweithio partneriaeth, a gall ddangos, er brwdfrydedd diffuant dros yr hyn a gyflawnwyd, bod cydweithredu drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn parhau'n flaenoriaeth ail reng ar gyfer sefydliadau dan bwysau ariannol.

Yn gyffredinol, daeth barn gref i'r amlwg o blith y rhai y gwnaethom eu cyfweld y byddai rhyw fath o gyllid parhaus wedi'i neilltuo i gefnogi gwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn fanteisiol iawn.

Credai rhanddeiliaid cenedlaethol yn gyffredinol y byddai angen rhyw fath o gyllid wedi'i neilltuo yn y dyfodol, o leiaf nes y deuai Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym, er yr egwyddor gyffredinol y dylid osgoi neilltuo, o gofio am y toriadau sylweddol oedd eisoes wedi effeithio ar dimau polisi corfforaethol. Fodd bynnag, credai un yn gryf ei bod yn bwysig wrth ddarparu cyllid i fod yn 'rhagnodol am ganlyniadau yn hytrach na strwythurau', tra teimlai eraill unwaith y sefydlid Byrddau Gwasanaethau Lleol ar sail statudol, na fyddai gan awdurdodau lleol mwyach unrhyw esgus am beidio ariannu swyddi eu hunain.

Yn fwy neilltuol, yn y sesiwn gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol, dywedwyd mewn byd delfrydol y byddai'r partneriaid eu hunain yn talu am y costau ysgrifenyddol craidd ond gyda phwysau ar gyllidebau ychydig o awydd oedd i gronni adnoddau ac roedd risg gwirioneddol pe byddai cyllid penodol yn dod i ben, na fyddai awdurdodau lleol ond yn gwneud yr isafswm angenrheidiol. Roedd gwir berygl y gwelid bwlch mawr a cholli momentwm gydag ad-drefnu llywodraeth leol yn yr arfaeth. Roedd pawb a siaradodd o blaid ymestyn y trefniadau presennol.

Mynegwyd sylwadau tebyg yn y grwpiau ffocws gyda Swyddogion Cymorth a'u rheolwyr llinell, gyda dim ond un neu ddau yn anghytuno. Mewn un grŵp ffocws, cytunai'r holl gyfranogwyr bod adnoddau wedi eu neilltuo yn hollbwysig ar gyfer i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol barhau i weithredu'n effeithiol ac y byddai gwneud dim ond symud y cyllid i'r Grant Cefnogi Refeniw yn drychineb, ac mewn un arall, teimlai holl gyfranogwyr yr awdurdod lleol y gostyngid adnoddau oni bai am ffrwd cyllid arbennig barhaus gydag un yn dweud:

> ‘Byddai popeth o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn dioddef heb y rôl ganolog honno'.

Yn y trydydd grŵp, teimlai un cyfranogydd fod gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol bellach wedi sefydlu digon fel y cedwid y strwythur staffio, ond dywedodd eraill y byddai swyddi'n cael eu torri. Yn y grŵp yma, roedd pryderon difrifol am ddiffyg eglurdeb am gynlluniau tymor canol Llywodraeth Cymru. Galwodd cyfranwyr yn neilltuol ar Lywodraeth Cymru i roi llyw clir a chynnar am gyllid o Ebrill 2015 ymlaen. Mynegodd ychydig hefyd eu pryderon am golli staff profiadol dros yr ychydig fisoedd nesaf pe byddai'r ansicrwydd yn parhau.

Yn nhermau'r astudiaethau achos, roedd bron bawb yn unfrydol o blaid parhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y swyddogaeth, gyda rhai cyfweleion awdurdodau lleol hefyd yn ychwanegu - ymhell o fod yn groes i safbwynt y Llywodraeth ar neilltuo cyllid - bod hyn yn enghraifft (yng nghyd-destun Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)) bod angen i Lywodraeth Cymru ariannu dyletswyddau statudol newydd. Er bod nifer fach o gyfweleion o blaid quid pro quo am gyllid parhaus am wneud ysgrifenyddiaeth y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn annibynnol i'r awdurdod lleol, barn leiafrifol oedd hynny'n bendant.

Ein casgliadau ni oedd ei bod yn annhebygol y byddid yn cynnal y lefel bresennol o adnoddau oni bai am gyllid wedi neilltuo yn y cyfan heblaw un o ardaloedd yr astudiaethau achos (C). Yn o leiaf dri achos (D, E a F) dywedwyd yn gryf, gyda gwasanaethau rheng-flaen yn cael eu torri, na allai awdurdodau lleol gyfiawnhau diogelu swyddi yn y canol corfforaethol, pa bynnag mor werthfawr yr ystyrid eu bod, tra bod partneriaid yn methu neu'n amharod i gyfrannu tuag at ran o'r costau. Felly yn F, mynnai ffigur blaenllaw o fewn y Cyngor oherwydd pwysau ar y gyllideb y byddai'n amhosibl cadw'r swyddi presennol, a dywedodd cyfranwyr o sefydliadau partner, er yn derbyn mewn egwyddor y dylent ariannu gwaith y tîm Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn y dyfodol, ei bod yn annhebygol iawn y byddai hynny'n digwydd mewn gwirionedd o gofio fod eu sefydliadau eu hunain yn wynebu toriadau ariannol llym hefyd.

Ar un lefel, wrth gwrs, ymddengys bod hyn yn gwrthddweud ei hunan gan bod cyfweleion astudiaethau achos yn dweud ar y naill law bod rôl Swyddogion Cymorth yn 'hanfodol' tra'n dweud ar yr un pryd y byddai eu sefydliadau eu hunain yn annhebygol o gyfrannu i dalu amdanynt. Mewn realaeth, efallai fod hyn yn adlewyrchu - er yr ymrwymiad cryf a leisiwyd i weithio partneriaeth a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol - fod mwy o ansicrwydd am y datblygiadau hyn o fewn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus. Dweud mae hynny, ar ddiwedd y dydd mai'r hyn a ymddangosai bwysicaf i sefydliadau o'r fath oedd eu blaenoriaethau ymrwymiadau trefniadol mewnol eu hunain (yn cynnwys gofynion statudol). Dim ond ar ôl i'r rheiny gael eu sicrhau y byddai partneriaeth 'ar yr agenda'. Yn yr ystyr hwn, gallai rôl Swyddog Cymorth fod yn hanfodol i redeg Bwrdd Gwasanaethau Lleol a strwythur partneriaeth effeithlon, ond ar ddiwedd y dydd, dim ond consyrn eilaidd oedd gweithio partneriaeth ei hunan o gofio am faint y toriadau cyllideb oedd ar y gweill.

Er bod pryderon y rhan fwyaf o gyfweleion yn canolbwyntio ar ariannu Swyddogion Cymorth yn y dyfodol, roedd nifer fach o gyfweleion mewn ardal un astudiaeth achos (E) hefyd yn gryf o blaid yr angen i gael mynediad i 'gyfalaf risg' yn y dyfodol i arbrofi gyda phrosiectau cydweithio a allai, ond nad oedd yn bendant o, sicrhau arbedion ariannol (i ategu'r Gronfa 'Buddsoddi i Gynilo' y gellid ei defnyddio lle'r oedd mwy o hyder y gellid sicrhau arbedion yn ogystal â gwelliannau i wasanaethau). Cydnabu rhai rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd y byddai angen yn y dyfodol i gynnig ystod o offerynnau i gefnogi camau gweithredu peilot ac arloesi prif ffrwd y Byrddau Gwasanaethau Lleol, yn cynnwys dulliau math Buddsoddi i Arbed.

# 5.0 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

O safbwynt Llywodraeth Cymru, mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn parhau i fod yn ddarn allweddol o strwythur darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a dangosir hynny yn y penderfyniad i'w rhoi ar sail statudol drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, er gyda theitl newydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Er yn ddatblygiad mwy diweddar, mae Cynlluniau Integredig Sengl hefyd wedi ennill eu plwyf yn gyflym fel y brif ffordd y disgwylir i Fyrddau Gwasanaethau Lleol gynllunio a rhaglennu gwella gwasanaethau cyhoeddus a chânt eto eu datblygu drwy'r Bil. Fodd bynnag, mae'r gwaith maes a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad yma'n awgrymu fod peth dryswch yn parhau am gwmpas y Cynlluniau: a ddylent ganolbwyntio'n unig ar ardaloedd lle mae angen gweithio mewn partneriaeth i wireddu nodau cyffredin y Byrddau Gwasanaethau Lleol neu a fwriedir iddynt fod yn ddatganiadau cynhwysfawr o ymyriadau partneriaid i wella lles cymdeithasol, economaidd ag amgylcheddol.

Wrth ystyried y casgliadau o'r gwerthusiad am y cyfraniad a wnaed gan y cyllid penodol ar gyfer Swyddogion Cymorth wrth ddatblygu’r agenda yma o weithio partneriaeth lleol (neu seiliedig ar ardal), mae'n bwysig bod yn glir fod llawer o amrywiaeth yn y sefyllfa yn ardaloedd y gwahanol astudiaethau achos, ac felly bod angen bod gofal wrth drin cyffredinoli.

Serch hynny, mae'r astudiaethau achos gyda'i gilydd, ynghyd â'r dystiolaeth gan randdeiliaid a'r grwpiau ffocws gyda staff o blith y rhan fwyaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, yn rhoi tystiolaeth fod Swyddogion Cymorth wedi ychwanegu gwerth mewn llawer o achosion o ran:

- effeithlonrwydd gweithredol y Byrddau Gwasanaethau Lleol a pherthynas waith well rhwng partneriaid, gan arwain at fwy o ymdeimlad o ddiben cyffredin ac arweinyddiaeth ar y cyd ymysg y partneriaid;
- mwy o integreiddio rhwng y Byrddau Gwasanaethau Lleol a gwaith partneriaethau gwahanol, mwy thematig;

- datblygu'r Cynlluniau Integredig Sengl a ystyrid i fod yn agendâu cymharol gadarn;
- y gallu i fonitro a rheoli perfformiad gweithredu'r Cynllun Integredig Sengl;
- sicrhau fod blaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl yn dechrau dylanwadu ar gynllunio corfforaethol partneriaid allweddol, yn arbennig awdurdodau lleol.

Mae llai o dystiolaeth fod gwaith Swyddogion Cymorth, drwy wella gweithrediad y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r Cynlluniau Integredig Sengl, wedi sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion, er ei bod yn debygol fod hyn i ryw raddau o leiaf yn fater o amseriad, gan mai dim ond yn 2012/13 y cafodd llawer o Gynlluniau Integredig Sengl eu datblygu. Fel ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Lleol eu hunain, er yn gyffredinol gadarnhaol am eu perfformiad a'u potensial, nid yw'n ymddangos fod partneriaid, yn cynnwys awdurdodau lleol, hyd yma wedi ymrwymo'n llawn i'w gwneud yn rhan barhaol o'r tirlun, yn absenoldeb anogaeth a chyllid Llywodraeth Cymru.

Ymddengys hefyd fod Swyddogion Cymorth yn gyffredinol wedi gwneud llai o gyfraniad i ddatblygu a gweithredu prosiectau cyflenwi ESF nag y gallai rhanddeiliaid fod wedi'i ddisgwyl: roedd hyn yn rhannol oherwydd y golygai'r amserlenni fod prosiectau yn aml (er nid bob amser) wedi'u datblygu cyn penodi'r Swyddogion Cymorth, ac yn rhannol yn adlewyrchu'r ffaith bod adnoddau rheoli prosiect yn gyffredinol wedi'u cynnwys fel rhan o gostau rhedeg y prosiect. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion bu gan Swyddogion Cymorth ran bwysig wrth sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheolau'r ESF ac, i ryw raddau o leiaf, wedi lleihau'r baich gweinyddol a ystyrid fel rhan o gyllid Ewropeaidd.

Byddai hefyd yn ymddangos y bu rhannu dysgu, o leiaf hyd yma, yn rhan gymharol fach o rôl a llwyddiannau Swyddogion Cymorth (er y gall hyn fod yn nodwedd gryfach yn y misoedd terfynol, wrth i wersi gael eu dysgu o'r prosiectau cyflenwi). Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud peth ymdrech i hyrwyddo rhwydweithio rhwng Swyddogion Cymorth (ac ymddengys y bu

hynny'n neilltuol o effeithlon yng Ngogledd Cymru) ymddengys fod llawer mwy o gwmpas ar gyfer rhannu ymarfer a phrofiad yn deillio o'r prosiectau peilot.

Er i'r Swyddogion Cymorth fod yn ddolen ddefnyddiol ar gyfer cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Byrddau Gwasanaethau Lleol (gan ategu cynrychiolaeth uwch weision sifil ar bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol), ymddengys y defnyddiwyd hyn mewn modd amhriodol weithiau. Cyfraniad cymharol fach fu gan Swyddogion Cymorth mewn gweithio rhanbarthol, efallai'n adlewyrchu'r ffaith y cafodd agenda'r Byrddau Gwasanaethau Lleol/Cynlluniau Integredig Sengl eu datblygu yn gyfochrog gyda'r agenda rhanbarthol.

Os yw'n anodd cyffredinoli canlyniadau gwaith y Swyddogion Cymorth, mae hyd yn oed yn anos ceisio dod i gasgliadau o'r dystiolaeth am ba amgylchiadau a gyfrannodd at y llwyddiant mwyaf. Mewn gwirionedd, o gofio am y nifer fach o staff sy'n cefnogi'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, ymddengys y bu gan nodweddion a chryfder yr unigolion sy'n llenwi'r swyddi ddylanwad sylweddol ar berfformiad: ac mae'r dylanwad pwysig arall, diwylliant ehangach partneriaethau o fewn yr ardal dan ystyriaeth, yr un mor anodd ei ailadrodd. Mae, efallai, rai awgrymiadau fod Byrddau Gwasanaethau Lleol mwy tyn a gyda mwy o ffocws yn gweithio'n well (o leiaf o safbwynt y rhai a gymerodd ran) a'i bod yn werthfawr cael grwpiau gweithredol islaw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol: tra'i bod yn fwy amlwg yn wir fod lefelau uchel o drosiant mewn swyddi Swyddogion Cymorth (nas helpwyd gan gontractau tymor penodol) ac mewn aelodaeth o'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a chyrff cysylltiedig (nas helpwyd gan y ffaith fod llawer o sefydliadau yn gweithio mewn ardaloedd ehangach na Byrddau Gwasanaethau Lleol unigol) yn tarfu. Nid oedd yr holl gyfranwyr i'r gwerthusiad o blaid rhoi Byrddau Gwasanaethau Lleol ar sail statudol, ond ymddengys yn debygol y bydd hyn i ryw raddau yn cynyddu'r pwysigrwydd a roddir gan bartneriaid ar flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Yng ngoleuni ein canfyddiadau, gwnawn yr argymhellion dilynol:

**Argymhelliad 1:** Tra'n gwerthfawrogi bod adnoddau'n gyfyngedig iawn, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid wedi'i neilltuo i awdurdodau lleol i gefnogi gwaith y Bryddau Gwasanaethau Lleol wrth iddynt symud i fod yn Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Argymhellwn na ddylai'r cyllid gael ei glymu i swyddi penodol - ac, yn wir, y dylid annog awdurdodau lleol i sefydlu swyddi o'r fath ar gontractau parhaol - ond y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau ddangos fod y cyfanswm adnoddau'n ymwneud yn uniongyrchol â chefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn fwy na'r cyllid a ddarparwyd a llunio adroddiad blynyddol byr ar waith y swyddog(ion) dan sylw. Yn ddelfrydol, credwn y dylai'r cyllid hwn fod ar gael am dair blynedd er mwyn rhoi capasiti i ddarparu'r asesiad angheion a'r strategaethau llesiant lleol cyntaf ar ôl etholiadau nesaf llywodraeth leol[64].

**Argymhelliad 2:** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddarparu'r adnodd yma, annog ffocws cryf ar a) y gwaith i gynhyrchu'r asesiad anghenion a'r cyntaf o genhedlaeth newydd o gynlluniau llesiant b) rheoli agendâu Byrddau Gwasanaethau Lleol mewn modd rhagweithiol a c) rheoli perfformiad blaenoriaethau a chamau gweithredu Cynlluniau Integredig Sengl. Yn hynny o beth, dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol i sicrhau fod gan staff sgiliau dadansoddi priodol, neu â mynediad i hynny.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru geisio annog rhannu profiadau yng nghyswllt defnyddio technegau atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau i olrhain cynnydd yn nhermau gweithredu'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Integredig Sengl ac yng nghyswllt defnyddio grwpiau gweithredol i gefnogi gwaith Byrddau Gwasanaethau Lleol. Lle nad yw hynny'n digwydd eisoes, dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol a phartneriaid i sicrhau fod perthynas strwythuredig a hierarchaidd rhwng partneriaethau thematig a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol.

[64] Ers llunio'r adroddiad hwn, penderfynodd Gweinidogion ymestyn y cyllid am un flwyddyn yn unig. Er bod y penderfyniad hwn yn ddealladwy o gofio am y pwysau ar gyllidebau, bydd yn bwysig sicrhau fod awdurdodau lleol yn gwneud yn sicr fod adnoddau dynol digonol ar gael i ddatblygu asesiadau cadarn o anghenion a strategaethau llesiant.

**Argymhelliad 4:** Wrth i Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ddod i rym, bydd angen i Lywodraeth Cymru roi arweiniad mwy eglur ar i ba raddau y bwriedir i'r Cynlluniau Llesiant lleol gynnwys pob ymyriad gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn ardal, neu dim ond y rhai a gyflwynir mewn partneriaeth.

**Argymhelliad 5:** Er ein bod yn gwerthfawrogi fod agendâu mwy ar waith argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru annog ffurfio mwy o Fyrddau Gwasanaethau Lleol ar y cyd neu (ar ôl i'r Bil ddod i rym) uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel y caniateir gan y Bil, ar sail ffiniau tebygol awdurdodau lleol yn dilyn ad-drefnu, hyd yn oed cyn i'r awdurdodau newydd hyn gael eu creu, nid yn lleiaf oherwydd y bydd hyn yn galluogi cyfranogiad mwy ystyrlon gan bartneriaid tu allan i awdurdodau lleol wrth symud at strwythurau llywodraeth leol newydd. Ar yr un pryd, mae angen cydnabod y bydd yn anodd (yn seiliedig ar brofiad y gorffennol) trosglwyddo arfer da o Fyrddau Gwasanaethau Lleol presennol un awdurdod i strwythurau ar y cyd newydd: yn ein barn ni, mae'n hollbwysig fod Byrddau Gwasanaethau Lleol/Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n uno hefyd yn gweithio i Gynllun a gaiff ei rannu.

**Argymhelliad 6:** Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus sut i hwyluso Byrddau Gwasanaethau Lleol i baratoi proseictau peilot newydd, yn absenoldeb cyllid ESF, o gofio am yr amharodrwydd presennol i gronni adnoddau. Yn ein barn ni, fodd bynnag, dylid cynllunio unrhyw system ariannu i roi cymhelliant cryf i gyfraniadau ariannol gan y partneriaid eu hunain.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru geisio ailadrodd y gweithgaredd rhyngweithio effeithlon sy'n digwydd rhwng Swyddogion Cymorth yng Ngogledd Cymru mewn rhannau eraill o'r wlad.

**Argymhelliad 8:** Yn y tymor byr, dylai Swyddogion Llywodraeth Cymru, yn ôl y bwriad, roi blaenoriaeth i ymdrechion i ddefnyddio a lledaenu gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau cyflawni o fewn Byrddau Gwasanaethau Lleol unigol a hefyd rhyngddynt. Mae'n debygol y bydd canolbwyntio (fel y gwnaed eisoes

i ryw raddau) ar fathau cyffredin o brosiectau (e.e. Tîm o Amgylch y Teulu, Pecynnau Gofal Integredig ar gyfer Pobl Hŷn) yn ffrwythlon yma.